Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales




# Gweithgareddau Cyffredinol a Dosbarthu Arian y Loteri

Adroddiad a Datganiadau Ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

Rhif elusen 1034245

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn darparu gwybodaeth mewn print bras a braille, ynghyd â fformatau sain a Hawdd eu Deall, ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am Gymraeg neu Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

*Clawr blaen:* Mi ddaw eto.. Iwan Bala
430mm x 300mm, cyfrwng cymysg, papur Khadi o’r India. Casgliad, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 2020.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Yr hyn a wnawn…** | 4 |
| **Datganiad y Cadeirydd** | 8 |
| **Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a Sylwadau rheoli** | **12** |
| Datganiad y Prif Weithredwr | 13 |
| Creu: Cyrraedd: Cynnal | 18 |
| Budd i’r cyhoedd | 24 |
| Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau | 25 |
| Ein perfformiad | 28 |
| Llywodraethu Corfforaethol | 38 |
| Ein hymddiriedolwyr | 38 |
| Datganiad Llywodraethu | 44 |
| Cenedlaethau’r dyfodol | 67 |
| Perfformiad amgylcheddol | 70 |
| Cydraddoldebau | 74 |
| Y Gymraeg | 77 |
| Prif risgiau ac ansicrwydd | 80 |
| Adolygiad ariannol a busnes | 86 |
| Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff | 95 |
| Atebolrwydd Seneddol ac Adroddiad Archwilio | 105 |
| Y flwyddyn i ddod: 2020/21 | 107 |
| **Datganiadau Ariannol** | |
| Gweithgareddau Cyffredinol | 121 |
| Dosbarthu Arian y Loteri | 158 |
| **Atodiadau** (nad ydynt yn rhan o’r datganiadau ariannol) | |
| Grantiau a ddyfarnwyd – Gweithgareddau Cyffredinol | 180 |
| Cyfarwyddiadau polisi’r Loteri Genedlaethol | 198 |
| Grantiau a ddyfarnwyd – Dosbarthu Arian Loteri | 201 |

# Cyngor Celfyddydau Cymru yw'r corff cyhoeddus swyddogol ar gyfer cyllido a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru.






*Brig:* Undo Things Done, dangosiad, Cymru yn Fenis, 2019 (llun: Martin Kennedy)
Sean Edwards (llun: @AntonioOlmos)

Cafodd Cyngor Celfyddydau Cymru ei sefydlu drwy Siarter Frenhinol ar 30 Mawrth 1994 a nod ei fodolaeth yw cefnogi a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru er budd pobl ledled Cymru, ac er mwyn cefnogi celfyddydau Cymru yn rhyngwladol.

Rydym hefyd yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, yn ddosbarthwr arian y Loteri Genedlaethol ac yn elusen gofrestredig (rhif 1034245).

Mae ein **Siarter Frenhinol** yn disgrifio ein hamcanion, sef:

- datblygu a gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o'r celfyddydau a'u hymarfer;
- cynyddu hygyrchedd y celfyddydau i'r cyhoedd;
- gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg; a,
- chydweithio â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, a Chynghorau Celfyddydau eraill yn y Deyrnas Unedig, i gyflawni'r amcanion hyn.

Mae copi o'n Siarter Frenhinol ar gael ar ein gwefan.

Ar adegau arferol, mae pobl ar draws Cymru'n mwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau yng Nghymru bob dydd. Dros dro, mae Covid-19 wedi rhoi saib ar bethau. Er hynny, edrychwn ymlaen at ailgychwyn ein prif waith sef helpu i gefnogi artistiaid ac estyn allan i gynulleidfaoedd newydd ac ehangach.

Byddwn yn gwneud hyn drwy ddefnyddio'r cyllid cyhoeddus a roddir inni gan Lywodraeth Cymru. Byddwn hefyd yn parhau i ddosbarthu'r arian a gawn oddi wrth y Loteri Genedlaethol.

Drwy reoli a buddsoddi'r cyllid hwn mewn gweithgarwch creadigol, mae Cyngor y Celfyddydau yn cyfrannu at ansawdd bywyd pobl ac at lesiant diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd Cymru.

Gwyliwch ein hanimeiddiad byr sy'n esbonio pam Mae'r Celfyddydau'n Bwysig




Jukebox Collective, Gŵyl Dydd Dewi, Canolfan Mileniwm Cymru (llun: Polly Thomas)

# Creadigrwydd ac iachau mewn cyfnod cythryblus...



## Mae'r Cadeirydd, Phil George, yn ailddatgan cenhadaeth Cyngor y Celfyddydau i ddod â gweithgareddau celfyddydol hynod o fewn cyrraedd croestoriad ehangach o bobl yng Nghymru.

Efallai yr ymddengys mai moethusrwydd neu yn waeth na hynny, rhywbeth amherthnasol, yw edrych yn ôl ar gyflawniadau'r flwyddyn ddiwethaf yn y celfyddydau yng Nghymru a gwaith Cyngor y Celfyddydau. Rydym yn byw drwy argyfwng trychinebus sy'n ein llenwi â phryder ac ansicrwydd ynghylch y dyfodol.

Ond rwy'n gwbl sicr y bydd y pŵer dychmygus, y treiddgarwch heriol, yr egnïon iachaol, yr empathi a'r pleser pur mae'r celfyddydau yn eu rhoi yn hanfodol i'n bywydau wrth inni ail-adeiladu Cymru ar ôl y pandemig hwn. Felly gyda'r argyhoeddiad hwn yr edrychwn yn ôl er mwyn ein helpu i symud ymlaen.

Cawsom ein tywys ar ein taith drwy'r flwyddyn ddiwethaf gan ein cynllun "Er Budd Pawb". Mae'r argyfwng presennol wedi achosi pryder i lawer o sefydliadau ac artistiaid unigol o ran goroesi'r presennol a chyflogaeth yn y dyfodol. Ond mae hefyd wedi dod â'r anghydraddoldebau economaidd ac o ran cyfleoedd yn ein cymdeithas i'r amlwg yn glir. Rydym yn benderfynol o gyrraedd yn ehangach ac yn ddyfnach i gymunedau Cymru lle mae pobl yn rhy aml wedi'u heithrio, i bob pwrpas, o brofiad o'r celfyddydau sy'n gweddnewid bywyd. Yn awr, yn fwy nag erioed, mae hwn yn fater brys.

Rwyf wedi gweld yr ymrwymiad i'r weledigaeth hon mewn cynifer o leoedd. Mae i'w weld yn ein sefydliadau celfyddydau cymunedol hynod. Mae i'w weld yn ein cefnogaeth i fis Hanes Pobl Dduon. Mae i'w weld mewn theatrau fel y Torch yn Aberdaugleddau neu Theatr Brycheiniog yn Aberhonddu, Theatr Sherman yng Nghaerdydd neu Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug – mae lleoliadau'n fwrlwm o ddosbarthiadau a gweithgareddau ymgysylltu cymdeithasol yn ogystal â pherfformiadau cyffrous. Mae yno yng ngwaith allestyn helaeth Canolfan Mileniwm Cymru a'r gwaith o greu perfformiadau gyda ffoaduriaid gan gwmni Opera Cenedlaethol Cymru. Ac mae yno yng ngwaith Hijinx, cwmni arbenigol Cymru mewn perfformiadau sy'n cynnwys actorion talentog ag anableddau dysgu, a gyflawnodd waith cydweithredol anhygoel ar leoliad gyda National Theatre Wales o'r enw "Mission Control".



Rygbi, Annwyl i Mi gan Fearghus Ó Conchúir yn Eisteddfod Genedlaethol 2019 (llun: Iolo Penri)

Wrth inni i gyd ddod yn fwy cyfarwydd â'n gwendidau yn ystod y cyfnod hwn o darfu ar gyswllt dynol, edrychwn yn ôl ar flwyddyn o fwrw ymlaen yn llwyddiannus â'n gwaith ym maes y Celfyddydau ac Iechyd, sydd â chymaint o botensial o ran iechyd meddwl a lles corfforol pobl Cymru. Mewn partneriaeth agos â Chonffederasiwn GIG Cymru, gwefreiddiol oedd gweld y cynnydd a wnaed gan y 7 Bwrdd Iechyd o ran sefydlu cydgysylltydd celfyddydau ac iechyd ym mhob bwrdd. A chyn i'r pandemig fynnu ei holl sylw, roeddem wedi dechrau deialog addawol gyda'r Prif Swyddog Meddygol ynghylch rhagnodi cymdeithasol a'r celfyddydau.

Enghraifft arall o waith pwysig ym mhrif ffrwd cymdeithas Cymru yw ein rhaglen arloesol sydd wedi cael ei chanmol gan lawer, "Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau". Roeddwn wrth fy modd eleni bod y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams AS, wedi cytuno ar ail gam o'r rhaglen ar ôl ei rhoi ar waith fesul cam dros y 5 mlynedd flaenorol. Mae'r ffocws ar ddatrys problemau'n greadigol sydd wrth wraidd y rhaglen yn werthfawr dros ben wrth baratoi athrawon ar gyfer y cwricwlwm newydd, ac wedi dangos ei gryfderau yn yr ymateb i'r anghenion dysgu gartref yn ystod cyfyngiadau symud y pandemig.

Rydym yn byw drwy argyfwng byd-eang, wrth gwrs, a bydd angen ymatebion a chydweithredu byd-eang. Mae gan Gymru draddodiad rhyng-genedlaetholaidd balch ac mae ein cangen arbenigol Celfyddydau Rhyngwladol Cymru wedi bod ar flaen y gad mewn digwyddiadau sy'n arddangos talentau'r genedl ym meysydd chwaraeon, diwylliant a busnes. Yr enghraifft fwyaf blaenllaw o'r rhain oedd y presenoldeb


celfyddydol digidol-arloesol yn nhwrnamaint Cwpan Rygbi Undeb y Byd yn Japan, lle bu rhai fel Gruff Rhys yn perfformio ochr yn ochr â darn newydd a ysbrydolwyd gan rygbi gan ein Cwmni Dawns Cenedlaethol, “Annwyl i Mi”. Roedd canu “Calon Lân” yn iasol gan blant Kitakyushu ond yn ddechrau perthynas barhaus â’r ddinas, a ddylai gynnig cyfleoedd pwysig i artistiaid o Gymru.

Roedd ein gwaith arddangos rhyngwladol hefyd yn gryf yng Ngŵyl Caeredin eleni. Yn ogystal â chynnwys ystod gyffrous o amrywiol o berfformiadau, torasom dir newydd gydag ymrwymiad eglur i gyfrifoldeb o ran yr amgylchedd a’r hinsawdd yn y ffordd yr oedd Cyngor y Celfyddydau’n cynnal ei bresenoldeb yng Nghaeredin.

Rydym yn rhoi cryn dipyn o feddwl i’r cydbwysedd mae angen ei sicrhau yn ein gwaith rhyngwladol, rhwng cynnal cysylltiadau a chyfleoedd creadigol ar y naill law a lleihau ein heffaith amgylcheddol ar y llall. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch prosiectau eraill, megis ein presenoldeb yn Biennale Fenis. Llwyddasom i greu cyffro yno unwaith eto yn 2019 gyda grŵp o ddarnau atgofus a phryfoclyd gan Sean Edwards, yn tynnu ar ei brofiad teuluol o dyfu i fyny ar ystâd tai cyngor yng Nghaerdydd.

Tŷ Pawb yn Wrecsam oedd partner oriel Cymru y sioe yn Fenis. Mwynheais yn fawr iawn ymweld â’r adeilad newydd hyfryd yng nghanol y dref eleni a gweld hanes cymdeithasol anhygoel y tecstilau lleol a gwaith newydd cain a osodwyd ochr yn ochr â sioe hygyrch iawn gan Grayson Perry. Mewn blwyddyn pan euthum hefyd i sioe o safon ryngwladol gan Eleri Mills yn Oriel Davies, y Drenewydd, ac agoriad oriel syfrdanol Elysium, a arweinir gan artistiaid, yn Abertawe, teimlais fod y celfyddydau gweledol yn gadarn ac yn ymgysylltu’n gymdeithasol.

Mae Cymru’n genedl ddwyieithog falch ac rydym yn parhau i hybu a gosod targedau heriol ar gyfer gweithgarwch yn y Gymraeg. Gwelais waith theatr newydd da iawn yn y Gymraeg y llynedd, ac roedd




o blant yng Nghymru a gymerodd ran mewn gweithgaredd celfyddydol

(2018/19: 87%)
Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Plant

naws cyfoes iawn i'r presenoldeb celfyddydol yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst. Mae'n hynod o gyffrous hefyd gweld cryfder a bywiogrwydd ein bandiau cerddoriaeth werin dwyieithog, sy'n denu mwyfwy o sylw mewn digwyddiadau fel Celtic Connections. Mae angen gwell adnabyddiaeth ohonynt yma yng Nghymru.

Dim ond ychydig o'r cyfoeth artistig a welais yng Nghymru y llynedd yw'r enghreifftiau hyn. Mae'r adnodd gwerthfawr hwn o greadigrwydd wedi cael ei feithrin gan waith gofalus Cyngor y Celfyddydau mewn cydweithrediad agos â Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a phartneriaid allweddol eraill. Rhaid iddo gael ei gynnal wrth i gost ariannol yr argyfwng hwn gael ei phrosesu. Caiff ein bywydau fel dinasyddion eu cyfoethogi gan y celfyddydau, gan ein llenwi â phleser a threiddgarwch. Mae ar ein dyfodol eu hangen.



**Phil George**, Cadeirydd



Eleri Mills: Egni - degawd o greadigrwydd yn Oriel Davies wedi'i guradu gan Philip Hughes 2019
(llun: Dewi Tannatt Lloyd)

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a sylwadau Rheoli

# Ac yna, newidiodd popeth...



Mae'r Prif Weithredwr, Nick Capaldi, yn myfyrio ar gynnal y celfyddydau mewn ymateb i argyfwng annisgwyl y Coronafeirws/ Covid 19.

Yn y dyddiau ar ôl y Nadolig, dechreuasom glywed sïon am feirws newydd anniffiniedig yn ysgubo drwy ddinas Wuhan yn Tsieina. Nid oedd angen inni boeni'n syth – roedd yn digwydd ymhell i ffwrdd, ac i bobl eraill. Ond dywedasom wrthym ein hunain fod angen inni gadw llygad ar y sefyllfa, rhag ofn iddi effeithio ar ein rhaglen gynyddol o waith rhyngwladol yn Tsieina a'r Dwyrain Pell.

Hyd yr adeg honno roedd ein gweithgareddau rhyngwladol wedi bod yn tyfu'n gyflym. Ac at ein presenoldeb rheolaidd mewn ffeiriau masnach a digwyddiadau arddangos - o bresenoldeb cyffrous Sean Edwards yn Biennale Fenis i berfformiadau hynod lwyddiannus bandiau o Gymru yng Ngŵyl Ryng-geltaidd Lorient - ychwanegwyd rhaglen ddiwylliannol fawr yn Japan i gyd-fynd â Chwpan Rygbi Undeb y Byd.

Roedd y gweithgareddau rhyngwladol hyn yn rhan o bartneriaeth ehangach â Llywodraeth Cymru i gefnogi ei Strategaeth Ryngwladol, oedd newydd ei chyhoeddi. Ein rôl oedd hyrwyddo creadigrwydd a dynamiaeth sector diwylliannol Cymru wrth inni baratoi am fyd ar ôl Brexit. Mae llai o artistiaid Cymru nag yr hoffem yn gallu cynnal gyrfa hyfyw drwy weithio yng Nghymru'n unig, felly mae angen inni weithio dros Gymru ar lwyfan y byd.

P'un ai wrth weithio mewn gwledydd tramor neu'n nes at adref, ein maen prawf o hyd yw'r weledigaeth a nodir yn ein cynllun corfforaethol – "Er Budd Pawb". Mae ein diben yn glir. Rydym wedi dweud, yn ddigamsyniol, ein bod ni eisiau bod yn rhan o gymdeithas sy'n coleddu cydraddoldeb ac yn dathlu gwahaniaeth, boed ar sail hil, rhywedd, rhywioldeb, oed, iaith, anabledd neu gyfoeth. Nid ymarfer "ticio blychau" trendi er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth yw hwn, ond rhywbeth mwy sylfaenol. Mae cymdeithas hael, deg a goddefgar yn gynhwysol yn reddfol ac yn gwerthfawrogi ac yn parchu creadigrwydd ei holl ddinasyddion. Ac mae'n rhaid i sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus - gan gynnwys Cyngor y Celfyddydau - adlewyrchu hyn.



Gwledd Gymunedol Canolfan Mileniwm Cymru (llun: Dan Green)

Y rhain oedd yr egwyddorion a fyddai'n sail i'r adolygiad ariannol a ddechreuodd yn hydref 2019. Bob pum mlynedd, mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n penderfynu pwy fydd yn cael ei gynnwys yn ei bortffolio o sefydliadau celfyddydol sy'n cael cyllid refeniw - proses a elwir yn Adolygiad Buddsoddi. Roedd canlyniad disgwyliedig yr Adolygiad y tro hwn yn syml. Gan adlewyrchu "Er Budd Pawb", byddai disgwyl i'r sefydliadau y byddem yn eu cynorthwyo yn y dyfodol estyn allan a chysylltu ag amrywiaeth fwy cynhwysol o'r cyhoedd yng Nghymru nag a wneir ar hyn o bryd.

Yn y pen draw, cawsom ein gorfodi gan y Coronafeirws/Covid-19 i ailfeddwl, gan ohirio'r Adolygiad Buddsoddi am flwyddyn.

Cyn gynted ag y daeth maint argyfwng Covid-19 yn glir, symudasom yn gyflym i ymateb gyda help a chymorth ymarferol – gan ragweld ac adweithio i ddigwyddiadau wrth iddynt godi. Ein prif flaenoriaeth oedd cynorthwyo pobl sy'n gweithio yn y celfyddydau, gan gynnwys ein staff ein hunain. Ein nod uniongyrchol oedd ceisio sicrhau y byddai sector mor gryf â phosibl yn gallu dod allan o'r argyfwng.


Newidiasom y gofynion cyllido i'r unigolion a sefydliadau hynny oedd eisoes wedi cael cyllid gan Gyngor y Celfyddydau er mwyn ceisio lleihau'r pwysau arnynt gystal ag y gallem. Ynghyd â Llywodraeth Cymru, ail-ddyranasom arian o gyllidebau oedd yn bodoli eisoes er mwyn creu Cronfa Gwytnwch y Celfyddydau newydd.

Mae'r her yn un enfawr. Ar y cyfan, mae ein sector yn cynnwys elusennau, cwmnïau buddiannau cymunedol, mentrau cymdeithasol a phobl sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain. At ei gilydd nid oes gan sefydliadau elusennol a gweithwyr creadigol unigol gronfeydd swmpus wrth gefn, a, hyd yn oed wrth weithredu mewn amgylchiadau arferol, nid ydynt yn mynd ati i greu gwargedau mawr. Caiff unrhyw warged ei ail-fuddsoddi fel arfer er mwyn gwella cyflawniad ac ehangu effaith rhaglenni celfyddydol y sefydliadau.

Mae'r celfyddydau yng Nghymru hefyd yn cael eu cynnal gan ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol creadigol unigol di-rif. Mae llawer o'r rhain yn wynebu risg caledi gwirioneddol wrth i drefniadau a chontractau gael eu canslo heb unrhyw obaith am waith newydd yn y dyfodol agos. Nid digwyddiadau cyfle cyfartal yw argyfyngau iechyd cyhoeddus: y bobl dlotaf, y rhai sydd wedi'u hymyleiddio mwyaf a phobl anabl sy'n dioddef yr effeithiau gwaethaf ar y cyfan, tra bo pobl gyfoethog, pobl â chysylltiadau da a phobl iach yn gallu dod drwyddi'n well fel arfer.

Mae'n glir ein bod ni'n gweld cwestiynu ac ail-lunio gwerthoedd yn ddwys ar draws pob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Nid yw pobl fwy dewr yn sôn am 'normalrwydd newydd' ar ôl Covid-19 – nid yw 'normalrwydd' yn bosibl nac efallai yr hyn mae'r cyhoedd ei eisiau neu'n ei haeddu.

Nid yw 'normalrwydd' wedi ein gwasanaethu'n dda ers tipyn. Mae'r sylw a roddwyd i brofiad byw pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y misoedd diwethaf wedi llenwi ein papurau newydd a'n




o oedolion yng Nghymru a fynychodd y celfyddydau

2018/19: 85%
Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

sgriniau teledu. Ni all neb beidio â bod yn ymwybodol erbyn hyn o effaith anghymesur feirws Covid-19 ar gymunedau duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl. Ond os yw'n diwylliant yn adlewyrchu pwy ydym ni, yna mae Black Lives Matter yn dweud wrthym nad ydym wedi sylwi o hyd bod y gymdeithas yn atgyfnerthu gwahaniaethu a diffyg cydraddoldeb. Nid felly y dylai fod, ond weithiau mae angen argyfwng i hoelio ein sylw ar y rheiny y mae eu hawliau a'u hanghenion yn cael eu hanwybyddu bron yn ddidaro. Rhybuddiodd cynghrair nerthol o bobl anabl drwy eu hymgyrch "We Shall Not Be Removed" eu bod yn wynebu argyfwng cymdeithasol ac argyfwng iechyd wrth i'w cymuned o artistiaid anabl ddod yn fwyfwy ynysedig a dan fygythiad gan bandemig Covid-19. Roedd yn adeg bwysig i aros a sylwi.

O gofio hyn, mae'n teimlo'n hunanfaldodus i edrych at y dyfodol a cheisio rhagweld hyd yn oed y deg diwrnod nesaf, heb sôn am sut olwg allai fod ar y tymor hirach. Wrth gwrs, byddwn yn mynd yn ôl at rai heriau cyfarwydd. Cyn y pandemig, y newid yn yr hinsawdd oedd prif gwestiwn dirfodol y degawd o'n blaen – a dyna fydd o hyd. Ond wrth i deithio gael ei atal, a fyddwn ni'n dod o hyd i ffyrdd mwy cynaliadwy o deithio i ddigwyddiadau a pherfformiadau? A fydd Covid-19 yn ein gwthio tuag at ddibyniaeth ar dechnoleg ddigidol yn y tymor hirach? Pa awydd fydd i gynulleidfaoedd ddod ynghyd ac ymgynnull fel yr oedden nhw gynt?

Mae cyrchu'r Celfyddydau ar lein yn cael ei ysgogi gan ymatebion cyflym a gwydn oddi wrth sefydliadau diwylliannol a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru. Mae llawer wedi bod yn cynnig cyngherddau, dosbarthiadau dawns, darlleniadau, clybiau a chorau wedi'u ffrydio'n fyw.

Diolch byth am hynny. Oherwydd mae'r Celfyddydau wedi rhoi rhyddhad a chysur i bobl erioed, yn enwedig ar adegau o argyfwng. Mae 'yn fyw' wedi newid yn sydyn. Ond yn y pen draw yr artistiaid eu hunain, fel sy'n wir yn aml, sy'n cymryd yr awenau ac yn ein hysbrydoli ni i brofi dimensiynau newydd o fynegiant a dealltwriaeth sy'n mynd ychydig bach ymhellach wrth helpu'r gweddill ohonom i wneud synnwyr o'r hyn sy'n digwydd o'n cwmpas.

Efallai nad yw rhai pethau'n newid, wedi'r cwbl.



**Nick Capaldi**, Prif Weithredwr



Into the Light, Theatr Hijinx (llun: Kirsten McTernan)


Creu
Meithrin talent,
creadigrwydd a gallu
Cyrraedd
Annog mwy o bobl i fwynhau
a chymryd rhan yn y
celfyddydau
Cynnal
Cefnogi sector celfyddydol
dynamig a gwydn



Illumine, Prosiect pobl ifanc, Peak

# Creu: Cyrraedd: Cynnal

## Yr egwyddorion sy'n ysgogi ein gwaith

Mae ein strategaeth wedi'i seilio ar ddatganiad syml o'r tair egwyddor sy'n ysgogi ein gwaith – **Creu: Cyrraedd: Cynnal**.

Sicrheir yr effaith fwyaf pan gaiff y tri pheth hyn – Creu: Cyrraedd: Cynnal – eu cyfuno mewn un ffordd o weithio.

Pan siaradwn am **Greu**, rydym yn golygu creu artistig. Rydym eisiau meithrin amgylchedd lle gall artistiaid, sefydliadau celfyddydol a phobl greadigol greu eu gwaith gorau.

O Greu yn dda, byddwn yn ysbrydoli. A thrwy ysbrydoli, daw'n fwy tebygol y bydd pobl yn mwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau. Credwn fod y profiad gorau o'r celfyddydau'n digwydd pan fo'n taro tant - pan fo'r hyn a grëir yn creu cyswllt. Dyma beth yw ystyr **Cyrraedd**, ac yn allweddol, cyrraedd ymhellach ac yn ddyfnach nag o'r blaen.

O wneud hyn, os caiff rhywbeth o werth ei greu yn yr hyn a wneir neu'r rhai a gofleidir, dylem ofyn sut i ddiogelu a **Chynnal** y pethau hyn mewn ffyrdd a fydd yn para.

Mae uchelgeisiau Creu: Cyrraedd: Cynnal yn cael eu hadlewyrchu yn ein tair blaenoriaeth:

1. Hybu **Cydraddoldebau** fel y sylfaen i ymrwymiad clir i ymgyrraedd yn ehangach ac yn ddyfnach i bob cymuned ledled Cymru.
2. **Cryfhau Gallu a Gwytnwch** y sector, gan ei gwneud yn bosibl i dalent greadigol ffynnu.
3. **Ei gwneud yn bosibl i Gyngor y Celfyddydau weithio'n fwy effeithiol**, gan gydweithredu mewn modd mwy dychmygus gyda phartneriaid o'r un anian ledled Cymru.

Nodir yr hyn mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl oddi wrthym yn y Llythyr Cylch Gwaith blynyddol. Nododd y Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2019/20 bedwar categori gweithgarwch. Rhestrir y rhain isod ynghyd â nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer pob un:

1. Unedig a Chysylltiedig

   *"Ein nod yw meithrin cenedl lle y mae pobl yn ymfalchïo yn eu cymunedau, yn eu hunaniaeth Gymreig a'r iaith Gymraeg, ac yn ein lle yn y byd."*

2. Uchelgeisiol ac yn Dysgu

   *"Ein nod yw creu'r awydd ym mhawb i ddysgu drwy gydol eu bywydau."*

3. Ffyniannus a Diogel

   *"Ein nod yw creu economi yng Nghymru sy'n cynnig cyfleoedd i bawb ac sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gan sicrhau ffyniant i unigolion ac i'n cenedl."*


4. Iach ac Egnïol

   *"Ein nod yw gwella iechyd a llesiant yng Nghymru, ar gyfer unigolion, teuluoedd a chymunedau… ac i newid ein ffordd o weithio, gan newid y pwyslais o drin cyflyrau i atal cyflyrau."*

A ninnau'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn gweithredu o fewn rhwydwaith cymhleth o bolisïau, strategaethau a deddfwriaeth cyhoeddus. Y pwysicaf o'r rhain yw deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae llesiant a chynaliadwyedd yn sylfaenol i'n gwaith. Mae ein gweithgareddau'n rhoi sylw i bob un o'r saith nod llesiant.



**1**
Cymru lewyrchus



**2**
Cymru gydnerth




**3**
Cymru iachach



**4**
Cymru sy'n fwy cyfartal



**5**
Cymru o gymunedau cydlynus



**6**
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu



**7**
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Rydym hefyd yn mabwysiadu, wrth gynllunio ac wrth gyflawni ein gwaith, "pum ffordd o weithio" y ddeddfwriaeth: **Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys.**



Mission Control, cynhyrchiad Gŵyl Undod National Theatre Wales a Hijinx (llun: Main House)

# Gwneud y celfyddydau'n greiddiol i fywyd a llesiant y genedl

# Budd i'r cyhoedd

Wrth bennu ein hamcanion a chynllunio ein gwaith, mae aelodau'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth ddifrifol i ganllawiau cyffredinol y Comisiwn Elusennau ar fudd i'r cyhoedd. Mae budd i'r cyhoedd yn ganolog i bob agwedd ar ein gwaith. Caiff yr ymrwymiad hwn ei gryfhau gan ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

A ninnau'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn dyrannu arian y trethdalwr er budd i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae gan yr arian a ddosbarthwn nifer o ddibenion cyhoeddus:

1. mae'n helpu i sicrhau y gall cynulleidfaoedd yng Nghymru fwynhau gweithgareddau celfyddydol o ansawdd da
2. mae'n ei gwneud yn bosibl buddsoddi mewn comisiynu, cynhyrchu ac arddangos y celfyddydau, gan helpu i gynnal gyrfaoedd gweithwyr proffesiynol creadigol yng Nghymru
3. mae'n gwneud y celfyddydau'n fwy fforddiadwy, gan ddod â hwy o fewn cyrraedd mwy o bobl
4. mae'n hybu arloesi a chymryd risgiau, gan wella ansawdd ac amrywiaeth y celfyddydau sy'n cael eu creu a'u hyrwyddo yng Nghymru
5. mae'n hyrwyddo blaenoriaethau diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd Llywodraeth Cymru

Mae arian cyhoeddus hefyd yn helpu i fynd i'r afael â 'bylchau' yn y farchnad drwy fuddsoddi yn y gweithgareddau hynny na wnaiff, neu na all, y sector masnachol eu cefnogi. Ym mhob achos, bwriedir i'r arian a roddwn hybu'r gorau o'r celfyddydau a galluogi cynifer o bobl ag sy'n bosibl i fwynhau a chymryd rhan yn y gweithgareddau hyn.

Rydym yn gwneud gwaith ymchwil manwl pob blwyddyn i asesu i ba raddau yr ydym yn cyflawni'r nodau hyn. Yn y tudalennau canlynol, rydym yn nodi prif uchafbwyntiau ein gwaith a'r budd i'r cyhoedd mae'r gweithgareddau hyn yn ei sicrhau.

# Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau


Mae Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau: cynllun gweithredu ar gyfer Cymru 2015-2020, wedi gweddnewid dysgu ac addysgu yng Nghymru dros y pum mlynedd ddiwethaf, drwy wneud y celfyddydau a chreadigrwydd yn ganolog i addysg. 2019-20 oedd blwyddyn olaf y rhaglen 5 mlynedd gychwynnol, a ddatblygwyd ac a gyflawnwyd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.

A hithau'n rhaglen hynod ei chyrhaeddiad a'i heffaith, mae Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau wedi:



ymgysylltu â mwy na **1,110 o ysgolion** yn ystod y rhaglen gyfan

darparu cyfleoedd i fwy na **119,000 o ddisgyblion** gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol a dysgu creadigol





cynnwys **604 o ysgolion** mewn prosiectau dysgu creadigol dwys drwy'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol



gweld **1,400 o weithwyr proffesiynol creadigol** yn cael eu contractio i weithio yn ein hysgolion

ei gwneud yn bosibl i fwy na **4,000 o athrawon** gymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol a hyfforddiant cysylltiedig â meithrin sgiliau creadigol yn y celfyddydau mynegiannol

Mae tystiolaeth o ysgolion ynghyd â gwaith gwerthuso annibynnol yn dangos bod effaith yr ymagwedd arloesol at ddysgu ac addysgu, a ddatblygwyd drwy'r rhaglen, yn cael effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad disgyblion â dysgu yn ogystal ag ar eu cyrhaeddiad.


Dewch i Ddathlu! Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau, Llandudno

Ym mis Chwefror 2020, roedd Cyngor Celfyddydau Cymru mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, wrth ei fodd i gyhoeddi ail gam i'r rhaglen. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod y rhaglen, yn ystod ei chyfnod o weithredu, ac yn benodol yn y flwyddyn ddiwethaf, wedi cael ei chydnabod am helpu ysgolion i baratoi at ddyfodiad y cwricwlwm newydd.

Bydd dwy flynedd arall o gyllid yn caniatáu i'r rhaglen:

ymgysylltu â mwy o ysgolion ac elwa ar wybodaeth ac arbenigedd yr ysgolion sydd eisoes yn cymryd rhan yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol

darparu cyfleoedd Dysgu Proffesiynol Parhaus i athrawon ac artistiaid

cynorthwyo â datblygiad sgiliau creadigol ymysg ein dysgwyr

parhau i ehangu cyfleoedd i ddysgwyr gael profiadau celfyddydol a diwylliannol o ansawdd da

Mae'r cynlluniau ar gyfer y cam nesaf o'r rhaglen wedi'u hatal dros dro oherwydd dyfodiad Covid-19, ond erbyn hyn mae'r rhaglen yn dechrau darparu ei phrif elfennau drwy lwyfannau ar-lein.

Mae Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn darparu dysgu creadigol sy'n canolbwyntio ar y celfyddydau ac sy'n ennyn diddordeb disgyblion i gynorthwyo athrawon a disgyblion yn yr ysgol a gartref.

Mae'r gwaith yn cynnwys **comisiynu artistiaid** o amrywiaeth o ddisgyblaethau celfyddydol i gyflwyno dosbarthiadau meistr a gweithdai ar lein, gan barhau i arwain profiadau dysgu creadigol. Mae'r tîm hefyd yn darparu **gweithdai a seminarau dysgu creadigol** ar-lein wrth iddynt barhau i weld **sector y celfyddydau'n cynorthwyo ysgolion wrth iddynt ddatblygu ymagweddau creadigol at ddysgu ac addysgu.**


Mae buddsoddiad o £3 miliwn oddi wrth Lywodraeth Cymru ac arian o'r Loteri Genedlaethol a ddosbarthir gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn ymestyn y cynllun am ddwy flynedd arall.

# Ein perfformiad

**Blwyddyn o berfformiad cryf yn erbyn ein hamcanion corfforaethol**

Ein Cynllun Gweithredol ar gyfer 2019/2020 a roddodd y ffocws ar gyfer ein gwaith. Roedd ynddo 30 o dasgau allweddol, pob un a'i thargedau ei hun. Cafodd cynnydd ei fonitro gydol y flwyddyn drwy adroddiadau cynnydd chwarterol a gyflwynwyd i'r Cyngor. Rydym hefyd yn cyfarfod pob chwarter â swyddogion Llywodraeth Cymru.

Cwblhawyd mwy na hanner ein tasgau yn 2019/20. Ar ddiwedd y flwyddyn:




Cwblhawyd llawer o'r prosiectau yr oeddem wedi'u pennu ar ddechrau'r flwyddyn. Helpodd hyn i ddangos cynnydd sylweddol at gyflawni ein prif amcanion.

Roedd canlyniadau cyffredinol hyn fel a ganlyn:

**4.2 miliwn o bobl**
a fynychodd ddigwyddiadau sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru, 10% yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol

**Cynyddodd mynychiadau a chyfranogiad** – nododd data terfynol o arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru 2018/19 fod mwy o bobl yn mwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau.

**1.1 miliwn o gyfranogwyr**
a gymerodd ran mewn sesiynau celfyddydol cyfranogol a drefnwyd gan sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru yn 2018/19, **33%** yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol.

Yn ystod y chwe mis o 1 Ebrill 2019 i 30 Medi 2019:

darparodd sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru **9,678** o ddigwyddiadau celfyddydol, a gynhyrchodd **2.3 miliwn** o fynychiadau

darparwyd **35,543**
o sesiynau celfyddydol cyfranogol, gyda **398,859** o gyfranogwyr

**Parhaodd cynllun Noson Allan i gyrraedd i mewn i gymunedau lleol ledled Cymru –** roedd mwy o ddigwyddiadau:

mynychodd **28,298** o bobl, ac roedd **60%** o'r perfformiadau yn Saesneg, **27%** yn Gymraeg ac **13%** yn ddwyieithog

ariannodd y cynllun **537** o berfformiadau, o gymharu â **513** yn 2018/19

**321** o wahanol grwpiau hyrwyddwyr yn cynrychioli **249** o wahanol leoliadau a chan gynnwys **3,120** o wirfoddolwyr unigol




Aberhenfelen, cydgynhyrchiad Theatr Bara Caws â'r Urdd (llun: Llunia Cwmni)

**Cynorthwyasom i feithrin gallu sefydliadau celfyddydol** –
drwy fuddsoddiad o'n rhaglen Gwytnwch:

ymchwil i farchnata gwaith theatr Cymraeg

cynorthwyodd y rhaglen **57** o sefydliadau

daeth gwaith gwerthuso annibynnol i'r casgliad y bu'r rhaglen yn **llwyddiannus** at ei gilydd

**Cynorthwyodd partneriaethau newydd i hybu datblygiad proffesiynol i unigolion** –
cydweithiasom gyda:

JERWOOD ARTS

Chronfa Weston Jerwood
(cytunwyd ar 7 bwrsari)

Arts & Business Cymru

creative & cultural skills

BBC cymru wales

PRS Foundation

(yn partneru ar
International Showcase Fund,
Momentum ac Y Tu Hwnt i Ffiniau)



Aisha Bywaters yn siarad mewn digwyddiad hyfforddi Pad Lansio Ffilm Cymru i dalentau creadigol duon, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol (llun: David Lennon)

**Parasom i roi ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol ar waith** – roedd y blaenoriaethau'n cynnwys:

hynt


ehangu ein cynllun cenedlaethol mynediad at docynnau, Hynt (sydd erbyn hyn â mwy na **19,000** o aelodau)

cyflawni ein rhaglen Camau Creadigol, gan feithrin gallu a gwytnwch 6 sefydliad a arweinir gan bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl

llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda 10 corff cyhoeddus arall i gytuno ar set o Amcanion Cydraddoldeb Strategol y byddem yn bwrw ymlaen â hwy mewn partneriaeth fel rhan o'n Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol newydd 2020-2024

**Gorffenasom gam cyntaf Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn llwyddiannus** – yn ystod oes y rhaglen:

nifer yr ysgolion a gymerodd ran yn y rhaglen gyfan hyd yma yw mwy na **1,110** (**76.8%** o'r ysgolion yng Nghymru)



mae mwy na **119,000** o fuddiolwyr sy'n ddisgyblion hyd yma

mae'r rhaglen wedi cael ei **hymestyn** am ddwy flynedd arall, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru

**Darparasom raglen well ym maes y Celfyddydau ac Iechyd** – roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

1. sefydlu **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** gyda Chydffederasiwn GIG Cymru
2. sefydlu swydd **cydlynydd celfyddydau arbenigol** ym mhob Bwrdd Iechyd
3. **hyrwyddo'r celfyddydau** fel rhan o gynhadledd flynyddol y Cydffederasiwn

**Cyflawnasom raglen helaeth o weithgarwch rhyngwladol** – roedd hyn yn cynnwys:

1

bod â phresenoldeb yn y Biennale fel Digwyddiad Cyfochrog Swyddogol o 58fed Arddangosfa Gelf Ryngwladol La Biennale di Venezia a ddaeth i ben 3 wythnos yn gynnar oherwydd y llifogydd digynsail yn Fenis ym mis Tachwedd. 24,954 oedd cyfanswm nifer yr ymwelwyr

2

gan weithio gyda'r British Council yn Tokyo, cynaliasom ddigwyddiad y Celfyddydau a Heneiddio'n Iach yn Japan

3

roeddem wedi hwyluso'r gwaith o gynhyrchu "Brand Diwylliannol Dyma Gymru", a llyfrgell newydd o ffilmiau a chynnwys celfyddydol

4

cefnogi lansiad Llywodraeth Cymru o'i Strategaeth Ryngwladol newydd ym mis Ionawr 2020, gan arwain cyfraniad rhanddeiliaid diwylliannol

5

roeddem we cyd-groesawu dirprwyaeth o Lydaw gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Ranbarthol Llydaw ar gyfer dathliad Dydd Gŵyl Dewis gan Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC ynghyd â Cherddorfa Symffoni Llydaw

6

rhoi 11 dyfarniad Cysylltu i sefydliadau gymryd rhan mewn rhwydweithiau rhyngwladol

7

darparu gwybodaeth am oblygiadau posibl Brexit

**Gwellasom gadernid a gwytnwch ein seilwaith TG –**
drwy gryfhau dau faes allweddol:

seiberddiogelwch

rhoi i'n staff y dechnoleg i weithio o bell

**Lansiasom wefan newydd Cyngor y Celfyddydau –** mae'n cynnwys:

llwyfan data agored er mwyn cyhoeddi data mewn fformat hygyrch

ein data amrywiaeth, a gyhoeddir yma yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb Gwasanaeth Cyhoeddus Llywodraeth Cymru

cynnwys cwbl ddwyieithog sy'n cyrraedd safonau hygyrchedd AAA. Cyhoeddasom fwy o ddeunydd mewn fformatau amgen, gan gynnwys Hawdd ei Ddeall ac Iaith Arwyddion Prydain.

**Hyrwyddasom ddathliad pen-blwydd y Loteri Genedlaethol yn 25 oed –**
a gyrhaeddodd ei anterth ym mis Hydref a mis Tachwedd 2019:

tynasom sylw at brosiectau trawsnewidiol drwy'r cyfryngau ac mewn digwyddiadau arbennig

cynaliasom ddigwyddiadau yn hyrwyddo'r celfyddydau

Lle roedd targedau wedi'u cyrraedd yn sylweddol ond nid yn llawn, y rheswm yn y rhan fwyaf o achosion oedd yr angen i roi gweithgareddau allweddol mewn trefn newydd wrth ymateb i ddyfodiad Covid-19, cyn diwedd y flwyddyn.

Y prif brosiectau y cafwyd effaith arnynt oedd:

**y strategaeth cyllido** – roeddem wedi bwriadu cynnal adolygiad sylweddol o'r ffordd yr ydym yn cyllido sefydliadau a phrosiectau allweddol:

1. mae Adolygiad Buddsoddi 2020, ein hadolygiad mawr o'r cyllid i Sefydliadau'r Portffolio, wedi cael ei ohirio
2. rydym wedi gohirio camau olaf ein hadolygiad o gyllid y Loteri oherwydd bod y cronfeydd oedd yn bodoli eisoes wedi cael eu hailddyrannu dros dro i'r ymateb i Covid 19

**oedi i rai agweddau ar ein strategaeth ar y Celfyddydau ac Iechyd** – nid oedd modd inni fwrw ymlaen mor gyflym ag yr oeddem wedi gobeithio mewn rhai meysydd:

1. bu'n rhaid ad-drefnu amserlen ein gwaith gyda'r Asiantaeth Arloesi, Nesta a Chydffederasiwn GIG Cymru i ddechrau a chefnogi cyfres o 'heriau 100 diwrnod' mewn Byrddau Iechyd
2. bu'n rhaid i'n sgyrsiau cadarnhaol gyda'r Prif Swyddog Meddygol ynghylch Rhag-nodi Cymdeithasol a'r Celfyddydau gael eu hatal dros dro


**adnewyddu ein swyddfa yng Nghaerdydd** – o gofio'r cyfyngiadau ariannol presennol, mae hyn wedi cael ei ohirio am gyfnod amhendant

Mae'r un dasg oedd heb ei chwblhau yn ymwneud â **rhoi ar waith system rheoli grantiau newydd** a'r dechnoleg sy'n cynnal derbyn a phrosesu ceisiadau am gyllid ar lein. Fe wnaethom gynnydd da drwy'r rhan fwyaf o'r flwyddyn wrth ymchwilio i ddatrysiad a chanfod un addas, er bod Covid-19 wedi gwneud inni arafu ychydig yn ystod wythnosau olaf 2019/20. Erbyn hyn rydym yn symud ymlaen yn gyflym ond, gan gofio'r effaith bosibl ar ein gweithgarwch rhoi grantiau yn y cyfnod pan gaiff ei gosod, roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig nodi'r risgiau posibl. Erbyn hyn disgwylir i'r system newydd gael ei gosod ym mis Tachwedd 2020.




# Llywodraethu Corfforaethol

## Ein hymddiriedolwyr

Aelodau'r Cyngor a wasanaethodd ers 1 Ebrill 2019 oedd:

| | | Presenoldeb mewn cyfarfodydd yn ystod 2019/20 | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyngor | Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg | Pwyllgor Cyfalaf | Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chyd-nabyddiaeth Ariannol |
| | | Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd: | | | |
| | | 6 | 5 | 3 | 4 |
|  | **Phil George**<br>Cadeirydd<br>ers 1 Ebrill 2016 | 6 | | | |
|  | **Marian Wyn Jones**<br>ers 1 Ebrill 2012<br>**Is-gadeirydd**<br>ers 1 Ebrill 2017<br><br>Cadeirydd Grŵp Monitro'r Gymraeg | 5 | | | |
|  | **Iwan Bala**<br>ers 1 Tachwedd 2016<br><br>Aelod o Bwyllgor Ymgynghorol Cymru yn Fenis | 4 | | | |
|  | **Lhosa Daly**<br>ers 1 Ebrill 2019<br><br>Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ers Mai 2019)<br>Cadeirydd Grŵp Monitro Cenedlaethau'r Dyfodol Group (ers Mai 2020) | 6 | 4 | | |

| | | Presenoldeb mewn cyfarfodydd yn ystod 2019/20 | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyngor | Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg | Pwyllgor Cyfalaf | Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chyd-nabyddiaeth Ariannol |
| | | Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd: | | | |
| | | 6 | 5 | 3 | 4 |
|  | **Devinda De Silva**<br>ers 1 Ebrill 2019<br><br>Aelod o'r Grŵp Monitro Cydraddoldebau<br>(ers Mai 2019) | 4 | | | |
|  | **Andy Eagle**<br>ers 1 Tachwedd 2016<br><br>Cadeirydd y Pwyllgor Cyfalaf. Aelod o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol<br>hyd fis Mai 2019 | 4 | | 2 | 2/2 |
|  | **Kate Eden**<br>Ers 1 Ebrill 2017<br><br>Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Aelod o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol | 6 | 5 | | 4 |
|  | **Michael Griffiths OBE**<br>ers 1 Ebrill 2012<br>Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg<br>hyd fis Mai 2019<br>Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol | 5 | n/a | | 4 |
|  | **Yr Athro Tudur Hallam**<br>ers 1 Ebrill 2019<br><br>Aelod o Grŵp Monitro'r Gymraeg<br>(ers Mai 2019) | 6 | | | |

| | | Presenoldeb mewn cyfarfodydd yn ystod 2019/20 | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyngor | Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg | Pwyllgor Cyfalaf | Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chyd-nabyddiaeth Ariannol |
| | | Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd: | | | |
| | | 6 | 5 | 3 | 4 |
|  | **Melanie Hawthorne**<br>o 1 Ebrill 2012 hyd 1 Chwefror 2020<br><br>Cadeirydd Grŵp Monitro Cenedlaethau'r Dyfodol hyd 1 Chwefror 2020 | 2/4 | | | |
|  | **Gwennan Mair Jones**<br>ers 1 Ebrill 2019<br><br>Aelod o Grŵp Monitro Cenedlaethau'r Dyfodol (ers Mai 2019) | 4 | | | |
|  | **Alison Mears Esswood**<br>ers 1 Ebrill 2019<br><br>Aelod o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol (ers Mai 2019) | 5 | | | 2/3 |
|  | **Andrew Miller**<br>ers 1 Ebrill 2012<br><br>Cadeirydd y Grŵp Monitro Cydraddoldeb (ers Mai 2019) | 6 | | | |
|  | **Victoria Provis**<br>ers 1 Ebrill 2019<br><br>Aelod o'r Pwyllgor Cyfalaf (ers Mai 2019) | 5 | | 2 | |

| | | Presenoldeb mewn cyfarfodydd yn ystod 2019/20 | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyngor | Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg | Pwyllgor Cyfalaf | Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chyd-nabyddiaeth Ariannol |
| | | Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd: | | | |
| | | 6 | 5 | 3 | 4 |
|  | **Dafydd Rhys**<br>ers 1 Ebrill 2017<br><br>Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg hyd fis Mehefin 2019<br>Aelod o'r Pwyllgor Cyfalaf (ers Mai 2019) | 6 | 2/2 | 3 | |
|  | **Dr Sarah Younan**<br>ers 1 Ebrill 2019<br><br>Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ers Mai 2019) | 4 | 4 | | |

## Presenoldeb aelodau annibynnol o Bwyllgorau mewn cyfarfodydd yn ystod 2019/20

| | Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg | Pwyllgor Cyfalaf | Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddi-aeth Ariannol |
|---|---|---|---|
| | Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd: | | |
| | 5 | 3 | 4 |
| Andrew Butler | 3 | | |
| Elid Morris | 3 | | |
| Arwel Thomas | 5 | | |
| Ruth Cayford | | 2 | |
| Mark Davies | | 2 | |
| Roland Wyn Evans | | 3 | |
| Alan Hewson | | 4 | |
| Valerie Ellis | | | 0 |
| Philip Westwood | | | 4 |

Yn unol â Chod Ymarfer Gorau'r Cyngor, mae aelodau o'r Cyngor ac aelodau annibynnol o Bwyllgorau'n gwneud datganiadau o fuddiant mewn perthynas â chyfarwyddiaethau, aelodaeth o fyrddau rheoli (neu gyrff cyfatebol) neu gyflogaeth a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau parthed Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae cofrestr buddiannau Aelodau'r Cyngor ac aelodau annibynnol o Bwyllgorau ar gael i'r cyhoedd ei gweld, o wneud apwyntiad, ym mhob un o swyddfeydd y Cyngor yn ystod oriau gwaith arferol.

Caiff pob trafodyn ariannol rhwng aelodau a'r Cyngor, ac eithrio cydnabyddiaeth ariannol y Cadeirydd, eu datgelu yn y datganiadau ariannol o dan Trafodion â phartïon cysylltiedig

### Digwyddiadau'n gysylltiedig â data personol

Mae gan y Cyngor reolaethau a pholisïau ar waith i sicrhau cyfanrwydd data. Mae systemau TGCh yn sicrhau bod rheolaeth gaeth ar ddiogelwch ffisegol y data. Hyd y gwyddom, ni chollwyd unrhyw ddata yn y cyfnod dan sylw.

**Ein Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
Nicholas Capaldi

**Ein swyddfeydd**

Canolbarth a Gorllewin Cymru:
Y Mwnt
18 Stryd y Frenhines
Caerfyrddin SA31 1JT

Gogledd Cymru:
Parc y Tywysog II
Rhodfa'r Tywysog
Bae Colwyn LL29 8PL

De Cymru a'r swyddfa genedlaethol:
Plas Bute
Caerdydd CF10 5AL

**Archwilydd – Gweithgareddau Cyffredinol**
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

**Archwilydd – Dosbarthu Arian y Loteri**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
157-197 Buckingham Palace Road
Llundain SW1W 9SP

**Archwilwyr ariannol mewnol**
Deloitte LLP
5 Sgwâr Callaghan
Caerdydd CF10 5BT

**Cyfreithwyr**
Geldards LLP
Tŷ Dumfries
Plas Dumfries
Caerdydd CF10 3ZF

**Bancwyr**
Santander UK p.l.c.
9 Heol y Frenhines
Caerdydd CF10 2UD





*Brig:* Chwarae'r Clasuron yn Fyw, Abertawe, Cerddorfa Gymreig y BBC (llun: Kirsten McTernan)
Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru (llun: Kirsten McTernan)

# Datganiad Llywodraethu

Mae'r datganiad llywodraethu hwn yn gyfrifoldeb personol i mi, Nick Capaldi, Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'n disgrifio trefniadau llywodraethu Cyngor Celfyddydau Cymru.

Mae hefyd yn disgrifio sut yr wyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau am sicrhau ein bod yn cynnal ein busnes, o ran gweithgarwch y trysorlys a'r Loteri, yn unol â'r gyfraith. Mae hyn yn cynnwys darparu'r sicrwydd angenrheidiol ein bod yn cadw at y safonau priodol ac yn sefydlu'r trefniadau diogelu angenrheidiol i amddiffyn y defnydd o arian y cyhoedd.

Rwy'n esbonio sut y cyfrifyddir yn iawn am yr arian hwn a sut y caiff ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol i gynorthwyo â chyflawni ein cynlluniau a'n blaenoriaethau.

## Y fframwaith deddfwriaethol

Rydym yn gweithredu mewn amgylchedd cyfreithiol sydd wedi'i bennu a'i reoleiddio'n ofalus. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn atebol i **Ddirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth** Llywodraeth Cymru. Mae ein gwaith hefyd yn destun craffu gan Bwyllgorau **Senedd Cymru**. Rydym yn gweithio o fewn fframwaith sy'n nodi'r telerau a'r amodau y mae Gweinidogion Cymru'n darparu ein cyllid cymorth grant o danynt, a sut y gallwn ddefnyddio'r cyllid hwn. Rydym yn rheoli ein harian gydag uniondeb ac er budd y cyhoedd ac, ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, yn cadw at yr egwyddorion a geir yn y ddogfen ***Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru***.

A ninnau'n ddosbarthwr arian y Loteri o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygiwyd), rydym yn atebol i Ysgrifennydd Gwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Cawn ein cyfarwyddiadau ariannol oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol a'n cyfarwyddiadau polisi gan Weinidogion Cymru. Mae'r rhain yn nodi sut mae'n rhaid inni weithredu o ran gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri.

Mae'n ofynnol inni roi cyfrif am ein gweithgarwch dosbarthu arian y Loteri ar wahân i weddill ein gwaith, ac mae gennym drefniadau priodol ar waith i sicrhau y cynhyrchwn ddwy set o gyfrifon cyhoeddedig. Mae ein cyfrifon Dosbarthu Arian y Loteri yn cael eu harchwilio o dan gontract gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn archwilio ein cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol.

A ninnau'n elusen, mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion Deddfau'r Elusennau 1960, 2006, 2011 a 2016. Felly, dilynwn ganllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennau, gan weithredu'n unswydd i gyflawni ein hamcanion elusennol a siartredig.

Mae'r gweithgareddau yr ydym yn eu cyflawni mewn cysylltiad â'n ***Cynllun Casglu*** yn ddarostyngedig i Ddeddf Credyd Defnyddwyr ac i'r canllawiau a gyhoeddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Rydym wedi dylunio ein systemau, ein prosesau a'n rheolaethau i gymryd i ystyriaeth y gwahanol gyfrifoldebau hyn. O fewn y fframweithiau hyn gwnawn benderfyniadau annibynnol ynghylch cyfeiriad strategol y sefydliad, cyllid grantiau, a phenderfyniadau ariannol eraill.

Mae asesu a rheoli risg yn sylfaenol i'n gweithrediadau a dylid darllen y Datganiad Llywodraethu hwn ar y cyd â'r adran Prif risgiau ac ansicrwydd yn yr Adroddiad Perfformiad.




2Faced Dance Company, Dance Days Festival 2019, Taliesin Arts Centre (image: Philip Rees)

Pe bai'r angen yn codi, gall y cyrff canlynol ymchwilio i fusnes y Cyngor: **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu**, **y Comisiwn Elusennau**, **yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol**, y Comisiynydd Gwybodaeth, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a Swyddfa Archwilio Cymru.

## Ein trefniadau llywodraethu

Cawn ein llywodraethu gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr - y Cyngor - sy'n cynnwys Cadeirydd a hyd at ddau ar bymtheg o aelodau annibynnol eraill, a phenodir un ohonynt yn Is-gadeirydd. Caiff ein Hymddiriedolwyr eu penodi gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth drwy broses ddethol agored. Gwneir penodiadau fel arfer am gyfnod o dair blynedd a gellir ei adnewyddu am ddau gyfnod ychwanegol ar y mwyaf.

Daw pob Ymddiriedolwr ag arbenigedd a gwybodaeth penodol i'r broses o arolygu a datblygu ein gweithgareddau. Ar ddiwedd Mawrth 2020, roedd ein Cyngor yn cynnwys y Cadeirydd a phedwar ar ddeg o aelodau. Ni fu unrhyw newidiadau ar adeg llofnodi'r cyfrifon hyn.

Caiff Cadeirydd y Cyngor gydnabyddiaeth ariannol ar raddfa a bennir pob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru. Mae pob Ymddiriedolwr arall yn rhoi o'i amser a'i arbenigedd yn wirfoddol. Fodd bynnag, cânt eu had-dalu am dreuliau parod yr aed iddynt ar fusnes y Cyngor.

## Rydym yn hyrwyddo gwerthoedd llywodraethu da

Rydym yn cadw at saith **Egwyddor yr Arglwydd Nolan** ar gyfer **Bywyd Cyhoeddus** ac rydym yn ymdrechu i sicrhau bod pob un o'n cyflogeion, ein Hymddiriedolwyr, aelodau o'n Pwyllgorau a'n Cydweithwyr Celfyddydol yn deall a chymhwyso'r Egwyddorion hyn ac yn cadw atynt.

I gefnogi hyn, mae gennym **God Ymarfer Gorau** sy'n helpu i sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau aelodau a swyddogion wedi'u diffinio'n glir. Mae hefyd yn cynnwys y safonau o briodoldeb y disgwylir y dylai aelodau a'r staff gadw atynt. Caiff y Cod ei adolygu a'i ddiweddaru o leiaf unwaith pob dwy flynedd. Mae copi i'w weld ar ein gwefan.

Yn unol â'r Cod, mae'n ofynnol i bob aelod o'r Cyngor, pob aelod o bob Pwyllgor a phob un o'n Cydweithwyr Celfyddydol a phob aelod o'n staff gwblhau **Datganiad o Fuddiant** blynyddol, a sicrhau nad oes oedi wrth roi gwybod inni am unrhyw newidiadau yn eu hamgylchiadau. Maent yn gwneud datganiadau o fuddiant mewn perthynas â chyfarwyddiaethau, aelodaeth o fyrddau rheoli (neu gyrff cyfatebol) neu gyflogaeth a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau parthed Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r gofrestr fuddiannau ar gael i'r cyhoedd ei gweld, o wneud apwyntiad, ym mhob un o

swyddfeydd y Cyngor yn ystod oriau gwaith arferol. Caiff pob trafodyn ariannol rhwng aelodau a'r Cyngor ei ddatgelu yn y datganiadau ariannol o dan y pennawd Trafodion â phartïon cysylltiedig.

Cyflawnodd y Cyngor, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol **adolygiad hunanasesu** o'u perfformiad yn ystod y flwyddyn. Roedd canfyddiadau'r gwerthusiadau hyn yn gadarnhaol. Caiff meysydd a nodwyd i'w gwella eu nodi mewn cynlluniau gweithredu. Yn benodol, daeth adolygiad hunanasesu blynyddol y Cyngor yntau i'r casgliad bod y mwyafrif helaeth o'i ddangosyddion effeithiolrwydd wedi'u cyflawni.

Roedd y Cyngor yn fodlon ar y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn i fynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd yn adolygiad y llynedd. Cydnabu'r Cyngor bwysigrwydd sicrhau cymysgedd ac amrywiaeth priodol o arbenigedd a sgiliau celfyddydol ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr wrth i aelodau newydd gael eu penodi. Meysydd arbennig i ganolbwyntio arnynt fydd monitro ansawdd, hybu rhagor o ymrwymiad i'r Gymraeg ymysg sefydliadau a ariennir, a'r defnydd effeithiol o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Nid yw'r cod Llywodraethu Corfforaethol a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi yn uniongyrchol berthnasol i Gyngor Celfyddydau Cymru. Fodd bynnag, a finnau'n Swyddog



Hamletmachine, 2019, Cwmni Theatr Volcano (llun: Victoria Boobyer)
Chwith i'r dde: Christopher Elson, Mairi Phillips, Cecilia Crossland, Manon Wilkinson

Cyfrifyddu, rwy'n fodlon bod y trefniadau sydd gennym ar waith yn adlewyrchu arfer da. Rwyf hefyd yn credu bod Cyngor y Celfyddydau wedi cydymffurfio â'r egwyddorion o atebolrwydd, effeithiolrwydd ac arweinyddiaeth a fynegir yng Nghod y Trysorlys, i'r graddau y bônt yn berthnasol i Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Dosbarthwyr Arian y Loteri. Mae'r Cyngor yn cytuno â'r farn hon.

## Chwythu'r chwiban

Mae gan y Cyngor bolisi sefydledig ar chwythu'r chwiban. Tynnir sylw'r staff at hwn yn ystod y cyfnod sefydlu ac mae ar gael yn llawlyfr gweithredol y Cyngor ac ar ei fewnrwyd. Caiff y polisi ei adolygu o leiaf pob tair blynedd. Ni roddwyd gwybod am unrhyw ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn

## Gwneud penderfyniadau gwybodus

Mae'r penderfyniadau a wneir gan ein Cyngor a'n Pwyllgorau'n cael eu llywio gan gyngor a ddarparwyd gan staff Cyngor y Celfyddydau. Disgwylir i bapurau ac adroddiadau a gynhyrchir gan swyddogion ddangos yn glir yr holl wybodaeth berthnasol mae ei hangen i alluogi gwneud penderfyniadau gwybodus. Mae'r holl bapurau allweddol yn nodi: goblygiadau ariannol ac o ran adnoddau dynol a 5 ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; risgiau; a datganiad o sicrwydd.

Caiff y papurau eu dosbarthu cyn pob cyfarfod o'r Cyngor a'r Pwyllgorau; ni chaiff eitemau a gyflwynir ac adroddiadau ar lafar eu derbyn ond mewn amgylchiadau eithriadol. Yn ystod y flwyddyn, roedd y Cyngor yn fodlon ar amseroldeb ac ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd ar ei gyfer. Yn yr achosion prin pan nad yw'r wybodaeth a ddarperir yn bodloni'r safonau gofynnol, caiff y papur ei wrthod a chaiff un arall ei gomisiynu yn ei le. Ni chafwyd unrhyw enghreifftiau o hyn yn 2019/20.

Lle bo'n briodol ac yn berthnasol, mae cyngor gan swyddogion yn cael ei ategu gyda chyngor arbenigol a barn gan gyfreithwyr. Bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau bod ganddo ddigon o amser a gwybodaeth i drafod polisi yn iawn ac ystyried cyfeiriad y sefydliad i'r dyfodol. Ymgynghorir â'r cyhoedd ynghylch cynigion polisi allweddol. Mae'r ymatebion a'r adborth yn darparu rhagor o wybodaeth ar gyfer trafodaethau'r Cyngor cyn y rhoddir y wedd derfynol ar bolisïau.

## Rydym yn darparu cyllid i drydydd partïon

Un o ddyletswyddau pwysicaf y Cyngor yw dosbarthu arian i ddatblygu a chynorthwyo'r celfyddydau yng Nghymru. Rydym yn ddosbarthwr pwysig o arian – oddi wrth Lywodraeth Cymru, y Loteri Genedlaethol a ffynonellau eraill, gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, cyllid o Ewrop.

Rydym wedi datblygu systemau a gweithdrefnau cadarn ac atebol i gefnogi'r gweithgarwch allweddol hwn. Mae ein prosesau rhoi a monitro grantiau'n cael eu hadolygu pob blwyddyn gan ein harchwilwyr mewnol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn archwilio ein gweithgareddau rhoi grantiau pob blwyddyn. Mae'r holl argymhellion a wneir gan ein harchwilwyr mewnol ac allanol yn cael eu monitro gan ein Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith mewn da bryd.

## Diogelwch data

Rydym yn dal llawer iawn o ddata ac rydym yn cymryd ein rhwymedigaethau o dan y **Ddeddf Diogelu Data** sy'n cynnwys y **Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol** (GDPR) o ddifrif. Mae ein **systemau a'n rheolau TGCh** yn sicrhau bod rheolaeth gaeth ar ddiogelwch data. Rydym yn asesu ein trefniadau diogelwch yn rheolaidd ac wedi cymryd camau i'w gwneud yn gadarnach.

Nid amlygodd yr adolygiad lefel uchel o reolaethau TG a wnaed gan ein harchwilwyr allanol, na'n rhaglen o adolygiadau archwilio mewnol a wnaed yn ystod y flwyddyn, na'r adolygiad diogelwch blynyddol ar ran Llywodraeth Cymru, unrhyw faterion oedd yn peri pryder difrifol yn y maes hwn. Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod y flwyddyn.

## Cwynion

Ymchwilir i gwynion am ein gwaith yn unol â'n polisi Cwynion. Weithiau mae'n ofynnol gan ein polisi i Adolygydd Cwynion Annibynnol ymchwilio i gŵyn. Am resymau bod yn agored a thryloyw, rydym yn cyhoeddi'r holl adroddiadau terfynol gan yr Adolygydd.

Yn ystod 2019/20 cawsom Gŵyn am y ffordd y gweinyddwyd ein cynllun Cydweithwyr Celfyddydol. Cafodd y gŵyn hon ei chyfeirio at yr Adolygydd Cwynion Annibynnol a gadarnhaodd y gŵyn. Derbyniodd Cyngor y Celfyddydau argymhellion yr adroddiad yn llawn ac ymddiheurodd wrth y cwynydd. Mae newidiadau wedi cael eu gwneud i weithdrefnau Cyngor y Celfyddydau i gymryd i ystyriaeth y diffygion a nodwyd ac mae'r adroddiad llawn wedi cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

## Cyfarwyddiadau gan Weinidogion

A ninnau'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn ddarostyngedig i offerynnau anstatudol, sy'n cynnwys Cyfarwyddiadau priodol. Ni chyflwynwyd inni unrhyw Gyfarwyddiadau yn ystod y flwyddyn nac unrhyw Gyfarwyddiadau oddi wrth y Gweinidogion o ran ein gweithgareddau Loteri.

I helpu i gynorthwyo â'i waith, mae'r Cyngor wedi penodi tri phwyllgor i ddarparu cyngor arbenigol. Dyma hwy: y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg; y Pwyllgor Cyfalaf; a'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol. Mae gan y Cyngor hefyd bwyllgor ymgynghorol ad hoc i'w gynghori ar bresenoldeb Cymru yn y Biennale Celf rhyngwladol yn Fenis, a thri grŵp monitro mewnol.




CultureFest 2019, Cyswllt Celf

Mae pob Pwyllgor yn cynnwys aelodau o'r Cyngor, y mae un ohonynt yn gweithredu fel Cadeirydd, ac aelodau annibynnol o'r pwyllgor a benodir drwy broses ddethol agored oherwydd eu sgiliau arbenigol a'u profiad. Darperir cofnodion pob un o gyfarfodydd y Pwyllgorau i'r Cyngor i gael eu trafod a'u nodi. Gellir gweld cylch gorchwyl pob pwyllgor, sy'n cael ei adolygu pob blwyddyn, ar ein gwefan

Mae pob aelod newydd o'r Cyngor ac o bob Pwyllgor yn mynd drwy broses sefydlu sy'n briodol i'w rôl, a chaiff ei annog i barhau â'i ddatblygiad yn ystod cyfnod ei benodiad.

Ein tri grŵp monitro mewnol yw – **Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldebau** a'r **Gymraeg.** Mae'r rhain yn helpu i symud agenda'r Cyngor ymlaen yn y meysydd hyn. Cyflwynwyd cofnodion pob cyfarfod i'r Cyngor.

Yn ystod y flwyddyn recriwtiasom gohort newydd o **Gydweithwyr Celfyddydol**. Mae'r Cydweithwyr, a ddechreuodd eu gwaith yn ystod 2019/20, yn cynorthwyo staff gweithredol. Mae eu gwybodaeth arbenigol yn cyfrannu at ddatblygu polisïau, asesu ceisiadau am grantiau, a rhoi cyngor i swyddogion.


Cyngor
Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg
Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol
Pwyllgor Cyfalaf
Grŵp Monitro Cydraddoldebau
Pwyllgor Ymgynghorol Cymru yn Fenis
Cydweithwyr Celfyddydol
Grŵp Monitro'r Gymraeg
Grŵp Monitro Cenedl-aethau'r Dyfodol
Uwch Tîm Arwain
Grwpiau Datblygu Rhaglenni / Sectorau
Grwpiau Prosiectau / Tasgau
Grwpiau Penderfyniadau Cyllid

# Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gyfeiriad strategol ein sefydliad ac am ei reoli. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau, drwy'r Prif Weithredwr, ein bod yn gweithredu o fewn y gwahanol atebolrwyddau sy'n ofynnol inni.

Mae aelodau o'r Cyngor yn gyfrifol am benderfyniadau allweddol ar bolisi corfforaethol: llunio ein Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol ac unrhyw newidiadau o bwys i delerau ac amodau gwasanaeth y staff.

Mae'r Cyngor yn pennu'r gyllideb flynyddol, yn penderfynu ar ddyraniad blynyddol y grantiau i sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru, ac yn cymeradwyo pob grant dros £50,000, neu dros £250,000 yn achos prosiectau cyfalaf a gyllidir gan arian y Loteri a dyfarniadau Gwytnwch dros £100,000. Dirprwyir y penderfyniadau ar grantiau sy'n is na'r trothwyon hyn i aelodau awdurdodedig o'r staff ac i'r Pwyllgor Cyfalaf.

Mae'r aelodau yn cynorthwyo â Phwyllgorau'r Cyngor. Maent hefyd yn mynychu digwyddiadau celfyddydol ledled Cymru fel cynrychiolwyr i'r Cyngor.



Profiad digidol, A Vixen's Tale, Opera Genedlaethol Cymru (llun: Sioned Birchall)

Mae gweithgareddau'r Cyngor a gyflawnwyd yn ystod 2019/20 yn cynnwys y canlynol:

1. Wrth iddo graffu'n barhaus ar **Lywodraethu**, paratoi a monitro'r **Cynllun Gweithredol** am y flwyddyn. Hefyd derbyniodd a nododd y Cyngor adroddiadau diwedd blwyddyn y Pwyllgorau i ddarparu gwybodaeth ar gyfer ei **Ddatganiad Llywodraethu** fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol hwn.

2. Ar ôl gwaith manwl ymgynghori â'r cyhoedd yn 2018/19, cymeradwyo'r **Rhaglenni Ariannu Strategaeth y Loteri** newydd i'w lansio yn hydref 2019.

3. Ystyried y telerau a'r paratoadau ar gyfer **Adolygiad Buddsoddi 2020** (a ohiriwyd erbyn hyn oherwydd Covid-19), gan ddefnyddio gwybodaeth o ganlyniadau'r gwaith ymgynghori â'r cyhoedd.

4. Monitro'r gwaith o gyflawni prosiectau allweddol, gan gynnwys blwyddyn olaf Cam 1 o'r rhaglen ***Dysgu Creadigol*** a dadlau dros barhau â'r rhaglen mewn cam pellach, gwerthuso rhaglen ***Gwytnwch***, cynnydd llwyddiannus parhaus rhaglen y **Celfyddydau ac Iechyd** a chamau datblygu ar gyfer yr **Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol**. Roedd yr ystyriaethau rhyngwladol yn cynnwys biennale **Cymru yn Fenis** a **Thaith Ddiwylliannol i Japan**.

5. Cymeradwyo'r bartneriaeth arloesol gyda **Maint Cymru** i liniaru ystyriaethau ôl-troed carbon ar gyfer **Menter Arddangos Dyma Gymru yng Nghaeredin**.

6. Ystyried yr **Adolygiad Cyflogau** ac, yn fwy diweddar, lliniaru effaith **Covid-19** ar y Sector a swyddogion Cyngor y Celfyddydau.

Cyfarfu'r Cyngor 6 gwaith yn ystod 2019/20 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Yn ystod y flwyddyn, mynychodd yr aelodau gyfarfodydd 78 o weithiau allan o 94 posibl. Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor oddeutu pob 6 wythnos fel arfer. Gellir gweld copïau o agendâu a chofnodion cyfarfodydd y Cyngor ar ein gwefan.

## Ein hymateb o ran llywodraethu i Covid-19

Mae gwarchod lles ein staff wedi bod yn hollbwysig. Wrth i bryder gynyddu am ledaeniad y feirws, gwnaethom benderfyniad yn gynnar i wahardd teithiau rhyngwladol ac i gyfyngu ar symudiadau yn y Deyrnas Unedig. A chyn gynted ag y daeth yn glir y byddai angen polisi caeth ar gadw pellter cymdeithasol, caeasom ein swyddfeydd a gofynasom i'n holl staff weithio o gartref.

Drwy hap a damwain, roeddem yn barod ar gyfer y newid hwn mewn arferion gweithio. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu sefydliad mwy 'chwim', roeddem wedi bod wrthi'n cyflwyno polisi Gweithio Ystwyth. Ar yr adeg y cafodd cyfyngiadau symud eu gorfodi, roedd yr holl staff eisoes wedi cael yr offer i weithio o bell. Oherwydd ein bod wedi rhoi cyfyngiadau symud ar waith cyn gynted ag yr oedd modd, nid ydym wedi gweld unrhyw salwch difrifol ymysg ein staff ac nid yw unrhyw bersonél rheoli allweddol wedi bod yn absennol.

Mae'r rhan fwyaf o'n prosesau mewnol yn electronig ac wedi gweithio'n dda o bell. Mae llofnodion electronig a thrywyddau archwilio drwy e-bost wedi disodli llofnodion ffisegol. Roedd y rhan fwyaf o'r rhaglen waith ar gyfer archwilio mewnol wedi cael ei gwblhau cyn dechrau'r cyfyngiadau symud ac mae archwiliadau perfformiad llai wedi cael eu cwblhau'n llwyddiannus o bell.

Roeddem wedi gallu trefnu nifer o ystafelloedd cyfarfod rhithwir i gynnal cyfarfodydd ein holl bwyllgorau a'r Cyngor. Mae dyletswyddau pob pwyllgor wedi aros yr un peth ac nid yw gallu'r Cyngor i wneud penderfyniadau wedi cael ei beryglu yn ystod cyfnod y Coronafeirws. Rydym wedi diweddaru ein Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol a'n Cofrestr Risgiau Gorfforaethol yn unol â hynny.

O ran ein parodrwydd i dderbyn risg, rydym wedi gorfod ymateb yn gyflym i alwadau gan y sector i greu cyllid argyfwng. Wrth wneud hynny, bu'n rhaid inni addasu ein prosesau er mwyn cael y cyllid i ble yr oedd ei angen fwyaf mewn modd effeithlon. Fel arfer, rhoddir grantiau ar ôl rhywfaint o drafodaeth datblygu ag un o swyddogion Cyngor y Celfyddydau. Yma, byddai'r swyddog yn dod i adnabod yr artist ac yn helpu i ddatblygu'r prosiect i gael ei ariannu. Gyda'r cronfeydd Ymateb Brys, gwnaeth unigolion gais heb unrhyw ymwneud gan swyddogion yn y cefndir. Roedd hyn yn golygu mwy o risg y byddai ceisiadau yn dod i law oddi wrth bobl nad oedd Cyngor y Celfyddydau yn eu hadnabod, ac o bosibl mwy o risg twyll. I liniaru'r risg hon, am y tro cyntaf defnyddiasom offeryn 'AppCheck' y Fenter Twyll Genedlaethol, oedd yn caniatáu inni wneud gwiriad ar gefndir ymgeiswyr, gan gymharu ymgeiswyr â'r gofrestr etholwyr, gwirio eu cyfeiriadau a sicrhau eu bod yn preswylio yng Nghymru. Cyflawnwyd yr holl wiriadau cefndir eraill a gâi eu gwneud cyn dyfodiad Covid-19.

O ran cynllunio strategol a'n dyletswyddau cydraddoldeb, rydym wedi ymrwymo o hyd i'n blaenoriaethau corfforaethol ac mae hyn wedi bod yn rhan o'r broses asesu ar gyfer y cronfeydd Ymateb Brys.

Yn ein barn ni nid yw effeithiolrwydd llywodraethu wedi cael ei beryglu gan y pandemig.





*Brig:* Penwythnos Celfyddydol Llandudno, Mostyn
Sblash Mawr, Glan yr Afon (llun: Kirsten McTernan)

# Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg



"Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio ein trefniadau llywodraethu mewn modd trylwyr. Mae'n craffu ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd ein systemau rheolaeth fewnol, ac yn rhoi prawf ar ein trefniadau rheoli risg. Ein rôl yw cynorthwyo'r sefydliad i fod mor effeithlon ag y gall fod, gan sicrhau bod gwaith y Cyngor wrth gyflawni gweithgarwch yn effeithiol ac yn cynnig gwerth am arian."

Kate Eden
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

A ninnau'n stiwardiaid arian cyhoeddus, rhaid inni weithredu mewn modd effeithlon ac atebol. Mae'r Cyngor yn cytuno ar ein blaenoriaethau a phenderfyniadau ariannu yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'n defnydd o arian cyhoeddus. Rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yw sicrhau ein bod yn cyflawni'r ymrwymiadau hyn, gan wneud hynny mewn ffyrdd sy'n dryloyw, yn atebol ac yn wydn.

Mae rhaglen helaeth o waith archwilio mewnol yn ein cynorthwyo gyda'r gwaith hwn, gan asesu ansawdd ein gwaith cyflawni yn erbyn y safonau rydym wedi'u gosod.

**Mae'r gweithgareddau a gyflawnodd y Pwyllgor yn ystod 2019/20 yn cynnwys y canlynol:**

1. Gwneud y ffordd mae gwaith y Cyngor yn cael ei reoli yn fwy trylwyr ac addas drwy adolygu a diweddaru ein **Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol** a'n **Cofrestr Risgiau Gorfforaethol**. Mae gwelliannau a gyflwynwyd gan y Pwyllgor wedi rhoi inni ddarlun cliriach o'r gwendidau posibl yn ein gweithrediadau.
2. Adolygu ein hamddiffynfeydd rhag **Twyll** a **Seiberdrosedd**. Rydym mewn sefyllfa well i wrthsefyll nifer fwy a natur fwy soffistigedig ceisiadau allanol i dorri ein diogelwch.
3. Craffu ar iechyd sefydliadol ac ariannol **Portffolio Celfyddydol Cymru**, gan sicrhau bod camau adfer priodol yn cael eu cymryd i ddatrys unrhyw broblemau.
4. Adrodd i'r Cyngor ar ganlyniad **adolygiadau archwilio mewnol** a gomisiynwyd gan y Pwyllgor a monitro cynnydd argymhellion ar gyfer gweithredu.
5. Deall agweddau allweddol ar weithrediadau'r Cyngor, megis **Pensiynau, rhoi grantiau** a'n hymateb i **Covid-19**, gan sicrhau bod y Pwyllgor yn wybodus ynghylch gweithgareddau ehangach y Cyngor.

Cyfarfu'r Pwyllgor 5 gwaith yn ystod 2019/20 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Yn ystod y flwyddyn, mynychodd yr aelodau gyfarfodydd 26 o weithiau allan o 32 posibl. Cynhelir cyfarfodydd Pwyllgor pob chwarter fel arfer, gyda chyfarfod ychwanegol ar ddechrau'r haf.

# Pwyllgor Cyfalaf



"Mae'r Pwyllgor wedi bod wrthi'n brysur yn goruchwylio a monitro cynnydd prosiectau adeiladu ac adnewyddu ar wahanol gamau datblygu. Gwaith heriol a manwl yw hwn. Hefyd croesawodd y Pwyllgor y ffaith fod y rhaglen arloesol Creu Cymunedau Cyfoes wedi cael ei chwblhau'n llwyddiannus."

**Andy Eagle**
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfalaf

Ers mwy nag ugain mlynedd mae'r Cyngor wedi bod yn buddsoddi arian o'r Loteri Genedlaethol mewn prosiectau cyfalaf. Ledled Cymru rydym ni'n helpu sefydliadau i wella ac ehangu eu gweithgareddau drwy ariannu'r gwaith o greu adeiladau rhagorol, gan weddnewid y lleoedd yng Nghymru lle mae pobl yn mwynhau ac yn cymryd rhan yn y celfyddydau.

Neilltuodd y Cyngor ryw £22 miliwn ar gyfer ei raglen Cyfalaf fwyaf diweddar, oedd i fod i ddod i ben yn wreiddiol ar 31 Mawrth 2017. Fodd bynnag, roedd nifer o brosiectau allweddol oedd yn dal i gael eu datblygu ac nad oeddent mewn sefyllfa i wneud cais am gyllid adeiladu cyn y dyddiad hwnnw. Cytunodd y Pwyllgor Cyfalaf a'r Cyngor y gellid bwrw gweddill y gyllideb ymlaen i 2017/18 ac ar ôl hynny ymlaen i 2020/21.

Mae'r gweithgareddau a gyflawnodd y Pwyllgor yn ystod 2019/20 yn cynnwys y canlynol:

1. Craffu ar **10 cais** am gyfanswm o £6.4 miliwn. Llwyddodd naw cais a dyfarnwyd cyfanswm o £1.4 miliwn.
2. Cynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu cynlluniau uchelgeisiol i adnewyddu **Theatr Clwyd**.
3. Goruchwylio'r gwaith o gwblhau ***Creu Cymunedau Cyfoe***s, ein rhaglen arloesol o adfywio a arweinir gan gymunedau. Mae gwerthusiad o'r rhaglen wedi cael ei gomisiynu a chaiff ei gwblhau yn rhan gyntaf 2020/21.
4. Helpu i leihau dibyniaeth sefydliadau ar gymhorthdal cyhoeddus drwy eu cyfranogiad yn ein rhaglen ***Gwytnwch***.
5. Sicrhau bod yr holl brosiectau cyfalaf mae'r Cyngor yn buddsoddi ynddynt yn bodloni safonau cynaliadwyedd **Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu** (BREEAM).

Cyfarfu'r Pwyllgor 3 gwaith yn ystod 2019/20 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Yn ystod y flwyddyn, mynychodd yr aelodau gyfarfodydd 17 o weithiau allan o 21 posibl. Cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor oddeutu pob deufis, er bod llai o gyfarfodydd yn ystod yr haf.

# Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Arianno



"Cynghori ar iechyd a lles staff y Cyngor yw prif swyddogaeth y Pwyllgor. Rydym yn hybu'r gwaith o ddatblygu polisïau ac arferion blaengar ac yn darparu her gadarnhaol a chefnogol i'r ffordd mae ein staff yn cyflawni gweithgareddau adnoddau dynol."

**Mike Griffiths**
Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol

Mae'r gweithgareddau a gyflawnodd y Pwyllgor yn ystod 2019/20 yn cynnwys y canlynol:

1. Cyhoeddi **Datganiad Polisi Cyflogau**. Mae hwn yn cynnwys dadansoddiad manwl o gyfansoddiad ein staff. Mae hefyd yn rhoi sylw i adrodd ar Gydraddoldeb Rhywiol a Chyflogau Cyfartal.
2. Monitro cynnydd yr **adolygiad gwerthuso swyddi** cynhwysfawr a llunio cynigion ar gyfer **ailstrwythuro graddfeydd tâl a chyflog.**
3. Adolygu data g**wybodaeth reoli adnoddau dynol** er mwyn monitro perfformiad a lles staff y Cyngor.
4. Gosod lefelau **cydnabyddiaeth ariannol** a monitro perfformiad y Prif Weithredwr.
5. Hybu lles y staff drwy ddarparu cwrs deuddydd **Cymorth Cyntaf Iechyd** Meddwl a arweiniwyd gan Gelfyddydau Anabledd Cymru.

Cyfarfu'r Pwyllgor 4 gwaith yn ystod 2019/20 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mynychodd yr aelodau gyfarfodydd 16 o weithiau allan o 21 posibl.





*Brig:* Dosbarth Meistr Darlunio Criw Celf gyda Jon Williams, Oriel Misson
Ned a'r Morfil gan Flossy a Boo, Theatrau Rhondda Cynon Taf (llun: Abigail Lewis Photography)

### Canlyniadau archwiliadau

Nodir canfyddiadau archwiliadau blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru mewn Llythyr Rheoli at y Cyngor. Mae ein Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ystyried y canfyddiadau ac yn eu monitro i sicrhau y cymerir camau gweithredu priodol yn brydlon. Bydd rhoi grantiau yn parhau'n ganolog i waith rheoli a sylw'r Pwyllgor.

Rhoddodd ein harchwilydd mewnol, Deloitte LLP, y farn ganlynol yn ei adroddiad blynyddol:

> "Ar sail casgliadau ein gwaith, gallwn roi i Gyngor y Celfyddydau **sicrwydd sylweddol** mewn perthynas â threfniadau'r sefydliad ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Nid yw ein barn wedi'i chyfyngu gan unrhyw ddiffyg adnoddau, absenoldeb sgiliau, neu unrhyw gyfyngiad sylweddol ar gwmpas gweithgarwch archwilio mewnol a fyddai'n cael effaith andwyol ar ein gallu i lunio barn."

### Asesiad cyffredinol o lywodraethu a rheolaeth fewnol

Yn fy marn i, mae systemau llywodraethu a rheolaeth fewnol Cyngor Celfyddydau Cymru yn ddigonol i'm galluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu.



**Nick Capaldi**, Swyddog Cyfrifyddu
4 Medi 2020

Cymeradwywyd ar ran y Cyngor:



**Phil George**, Cadeirydd
4 Medi 2020



"Y weledigaeth i Gymru yw ei bod yn wlad deg, ffyniannus a chynaliadwy, yn gwella ansawdd bywyd pobl yn ei holl gymunedau. Er mwyn cyrraedd y nod hwn, mae angen inni ymddwyn a gwneud pethau'n wahanol. Mae deddfwriaeth llesiant Llywodraeth Cymru'n ein herio i wneud penderfyniadau gwell a mwy cynaliadwy, ac i gynllunio'n ofalus ar gyfer anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n her rydym yn falch o'i derbyn."

**Lhosa Daly**
Cadeirydd Grŵp Monitro Cenedlaethau'r Dyfodol



Coed Hynaf (Gorffennaf 2019) Oriel Myrddin © Heather Birnie

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn ddeddf o bwys sydd â'r nod o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n un o'r cyrff cyhoeddus a enwir yn y ddeddf sy'n gorfod cydymffurfio â'r ddeddf. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ystyried y ddeddf yn gyfle i hyrwyddo potensial y celfyddydau wrth helpu i ysgogi'r holl nodau llesiant.

Rydym yn ymdrechu i wneud ein gwaith mewn ffordd gynaliadwy, gan ystyried yr effaith mae ein gwaith yn ei chael ar bobl sy'n byw ac yn profi a chymryd rhan yn y celfyddydau yng Nghymru – yn awr ac yn y dyfodol. Er gwaethaf y ffaith y cawn ein cyllido o flwyddyn i flwyddyn, rydym ni'n ceisio osgoi golwg byrdymor ar ein gwaith.

**Mae'r gweithgareddau a gyflawnodd Grŵp Monitro Cenedlaethau'r Dyfodol yn ystod 2019/20 yn cynnwys y canlynol:**

1. Gwreiddio **pum ffordd o weithio** Cenedlaethau'r Dyfodol (Cynnwys, Cydweithio, Atal, Integreiddio, Hirdymor) yn ein polisïau a'n strategaethau ac yn y ffordd y gwnawn ein gwaith, gan dreialu diffinio a chyflawni ein gwaith mewn **gweithdai** gyda **Swyddfa Archwilio Cymru** a **Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.**

2. Cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd drwy ein rhaglen ***Creu Cymunedau Cyfoes***, gan gydnabod sut mae cydnabyddiaeth ofalus a pharchus o'r asedau sydd gan gymunedau eu hunain yn hanfodol i ddatblygiad ystyrlon a pharhaus.

3. Cadw ein **Hachrediad Draig Werdd Lefel 5** am gynaliadwyedd amgylcheddol.

4. Ehangu'r defnydd o'n **seilwaith technoleg gwybodaeth** i ddarparu buddion busnes ac amgylcheddol. Mae gan ein holl staff liniaduron a ffonau clyfar, sy'n caniatáu iddynt weithio mewn ffordd symudol. Rydym wedi buddsoddi mewn cyfleusterau fideo-gynadledda o ansawdd da ac yn hyrwyddo'r defnydd ohonynt yn hytrach na theithio.

5. Cymryd camau penodol i **liniaru effaith amgylcheddol** ein gweithgarwch rhyngwladol.

# Perfformiad amgylcheddol

Rydym yn hybu lleihau gwastraff cymaint ag sy'n bosibl ymhlith ein staff drwy eu hannog i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu a didoli gwastraff, gan leihau'r hyn a anfonir i safleoedd tirlenwi.


| Gwastraff | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| Anariannol (tunelli) | | |
| Tirlenwi | 0.08 | 0.14 |
| Ailddefnyddiwyd/ailgylchwyd | 3.02 | 3.81 |

Rydym yn ailddefnyddio neu'n ailgylchu ein hoffer TG a swyddfa sy'n ddiangen neu'n rhy hen i'w defnyddio. Rydym yn defnyddio sefydliadau trwyddedig a phriodol i waredu ein gwastraff.

Mae gan bob un o'n prif gyflenwyr cyfarpar a chyflenwadau swyddfa bolisïau a systemau adrodd amgylcheddol ar waith ac rydym yn ystyried perfformiad ac ymwybyddiaeth amgylcheddol wrth ddethol contractwyr a chyflenwyr.

Rhoddir adroddiadau misol i'n rheolwyr a'n staff, yn dadansoddi gweithgarwch argraffu a chopïo, er mwyn eu hannog i leihau eu defnydd yn gyffredinol. Mae ein systemau adrodd mewnol yn ei gwneud yn bosibl inni gofnodi a mesur manylion ein defnydd o nwyddau traul, gwastraff, ynni a theithio gan ein staff, ac felly ein hallyriadau cyfwerth o garbon deuocsid ($CO_2e$) er mwyn i'n staff reoli eu defnydd o adnoddau.

**Allyriadau $CO_2e$ (tunelli) - tuedd 5 mlynedd**



| Ynni | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| **Allyriadau nwyon tŷ gwydr (tunelli $CO_2$e)** | | |
| Allyriadau gros, cwmpas 2 a 3 (anuniongyrchol) | **26** | 32 |
| **Defnydd ynni (kWh)** | | |
| Trydan (adnewyddadwy) | **91,332** | 100,212 |
| Nwy | **5,846** | 9,827 |
| Dangosyddion ariannol (£) | | |
| Gwariant – ynni | **15,364** | 14,936 |
| Costau cyflenwi dŵr (ystâd swyddfeydd) – methu asesu ar hyn o bryd, wedi'u cynnwys yn y tâl gwasanaeth | **Amh.** | Amh. |

Mae pob un o'n tair swyddfa'n cael eu rhannu ag eraill, gyda rhai costau wedi'u cynnwys yn ein taliadau gwasanaeth. Mae hyn yn cyfyngu ar ein gallu i asesu'n gywir ein holl effaith amgylcheddol o'r defnydd o ynni. Yn ein swyddfa yng Nghaerdydd y defnyddiwn drydan fwyaf ac mae'r landlord wedi cadarnhau y daw 100% o'r cyflenwad o ffynonellau adnewyddadwy naturiol dilysadwy (gwynt, dŵr a hydro).

Rydym yn hyrwyddo defnyddio ffyrdd amgylcheddol-gyfeillgar o deithio, ac yn annog ein staff i deithio yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl, gan roi ystyriaeth i ffactorau amgylcheddol ac ariannol. Mae'n rhaid inni gydbwyso hyn yn erbyn y gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau strategol i ddatblygu'r celfyddydau yng Nghymru, ac i hyrwyddo celfyddydau ac artistiaid Cymru'n rhyngwladol. Erys hon yn her ymarferol sylweddol. O ganlyniad, mae'n anochel bod amrywiadau yn lefel yr allyriadau $CO_2$e y gellir eu priodoli i deithio, yn enwedig pan fyddwn yn cymryd rhan mewn prosiectau rhyngwladol.

Yn y byd ar ôl Brexit, bydd y farchnad ryngwladol yn fwyfwy pwysig. Eleni, cyflawnasom raglenni sylweddol o waith rhyngwladol, llawer ohono'n cydategu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn Tsieina a Japan. Rydym yn mynd ati i leihau'r effaith amgylcheddol, er enghraifft drwy wneud y mwyaf posibl o weithgarwch etifeddiaeth yn ein prosiect Cymru yn Fenis neu wrth ddatblygu mecanwaith cyfrannu at niwtraleiddio carbon mewn partneriaeth â 'Maint Cymru' ar gyfer ein prosiect 'Cymru yng Nghaeredin'.

| Teithio Staff | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---:|---:|
| Allyriadau teithio (tunelli $CO_2$e) | | |
| Trenau | **9** | 10 |
| Awyrenna[1] | **72** | 47 |
| Ceir/faniau | **20** | 23 |
| Costau teithio (£) | | |
| Trenau | **37,883** | 39,344 |
| Awyrennau | **39,221** | 19,500 |
| Ceir/faniau | **28,585** | 34,382 |
| Teithio (milltiroedd) | | |
| Trenau | **128,827** | 135,984 |
| Awyrennau | **283,808** | 175,620 |
| Ceir/faniau | **63,522** | 73,944 |

1 Yn cynnwys dylanwad y newid yn y cydbwysedd ymbelydrol mewn allyriadau teithio mewn awyren i gofnodi'r effaith fwyaf ar yr hinsawdd. Mae'r newid yn y cydbwysedd ymbelydrol yn fesur o effaith amgylcheddol allyriadau NOx (ocsidau nitrus) ac anwedd dŵr o'u hallyrru ar uchder mawr.







*Brig:* Louder is not always clearer, Jonny Cotsen, Gŵyl Ymylol Caeredin (llun: Kirsten McTernan)
Y cyfansoddwr Teifi Emerald yn gweithio gyda Hijinx fel rhan o brosiect Codi gan Dŷ Cerdd
(llun: Matthew Thistlewood)

# Cydraddoldebau



**15,166***
sesiwn gyfranogol gan ein Portffolio a dargedai bobl â nodweddion gwarchodedig

"Mae cymdeithas gynhwysol, deg a hael yn gynhwysol yn reddfol ac yn ymdrechu dros hawl y gymdeithas gyfan i rannu a chyfranogi o ffrwyth ei chyfoeth diwylliannol, yn arbennig pan gaiff ei ariannu'n bennaf gan y trethdalwr. Cyflawni amcanion cydraddoldeb ein cynllun corfforaethol "Er budd pawb" yw ein blaenoriaeth o hyd wrth inni geisio cyflymu newid."

**Andrew Miller**
Cadeirydd y Grŵp Monitro Cydraddoldebau

* Mae'r data'n crynhoi canfyddiadau Arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru 2019/20. Rhaid i'r Portffolio lenwi arolwg bob chwe mis fel amod o gael arian. Ar hyn o bryd mae 67 sefydliad yn y Portffolio. Ond oherwydd y coronafeirws, dim ond 50 sefydliad a lenwodd yr arolwg erbyn y dyddiad cau estynedig o 5 Mehefin. Mae'r data yn dod o'r 50 sefydliad yn unig.

Mae sicrhau newid yn dal i fod yn her - mae angen inni wneud cynnydd yn gyflymach tuag at gyflawni ein nodau. Er hynny, rydym wedi dechrau gweld rhywfaint o gynnydd tuag at sicrhau bod cynulleidfaoedd, cyfranogwyr ac artistiaid yn fwy amrywiol. Dangosodd data a gafwyd oddi wrth sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru yn chwe mis cyntaf y flwyddyn gynnydd yn nifer yr arddangosfeydd a dangosiadau ffilmiau sy'n targedu pobl anabl a phobl o gefndiroedd pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Roedd hefyd cynnydd yn nifer y digwyddiadau i gynulleidfaoedd anabl gan ein lleoliadau cyflwyno, ond gostyngiad yn nifer y perfformiadau a grëwyd gan ein cwmnïau teithio. Ymddangosai tuedd i'r gwrthwyneb o ran targedu pobl o gefndiroedd pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, gyda chynnydd gan ein cwmnïau teithio a gostyngiad ymysg ein lleoliadau cyflwyno.

Dangosai ffigyrau cyfranogiad o'r Portffolio gynnydd sylweddol yn y gweithgarwch i bobl anabl a gostyngiad bach iawn yn y gweithgarwch yn targedu pobl o gefndiroedd pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Roedd nifer ychydig yn fwy o sesiynau yn targedu pobl LGB/trawsryweddol.

**Mae'r gweithgareddau a gyflawnodd y Grŵp Monitro Cydraddoldebau yn ystod 2019/20 yn cynnwys y canlynol:**

1. Monitro **cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r Cyngor o ran cydraddoldebau**, gan nodi i'r Cyngor ble mae angen mwy o gynnydd.

2. Llofnodi **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** gyda deg corff cyhoeddus arall i gytuno ar set o Amcanion Cydraddoldeb Strategol y byddwn yn bwrw ymlaen â hwy mewn partneriaeth fel rhan o'n Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol newydd 2020-2024.

3. Ymchwilio i ehangu ein cynllun cenedlaethol mynediad at docynnau, Hynt (sydd erbyn hyn â mwy na 18,000 o aelodau) ledled y Deyrnas Unedig.

4. Cynorthwyo 6 sefydliad ar eu taith datblygu busnes, trwy ein cynllun **Camau Creadigol**. Mae'r sefydliadau hyn wedi bod yn gymysgedd o rai a arweinir gan bobl anabl a chan bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

5. Cynorthwyo 4 artist anabl o Gymru i gael **comisiynau** drwy **Unlimited Presents**, a hybu mwy o gyfleoedd drwy ein cynllun teithio cymunedol **Noson Allan** i raglennu sioeau sy'n targedu cymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn benodol.



Y Cylch Sialc, Theatr Genedlaethol Cymru (llun: Kirsten McTernan)

# Y Gymraeg



10,786*
sesiwn gyfranogol Gymraeg gan ein Portffolio a oedd yn arwain at
66,042*
mynychiad

"Nid oes dim yn fwy hynod am Gymru na'r Gymraeg. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel cenedl ac mae gan Gyngor y Celfyddydau ran hanfodol i'w chwarae wrth gyrraedd targed Llywodraeth Cymru sef miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Rhaid inni ddod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o gynhyrchu a hyrwyddo creadigrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn i'r iaith ddod yn rhan annatod o ddiwylliant cyfoes ffyniannus. Rydym wedi ymrwymo i gynyddu buddsoddiad i helpu i gyflawni hyn fel un o flaenoriaethau'r Cyngor, ond mae mwy i'w wneud."

**Marian Wyn Jones,**
Cadeirydd Grŵp Monitro'r Gymraeg

* Mae'r data'n crynhoi canfyddiadau Arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru 2019/20. Rhaid i'r Portffolio lenwi arolwg bob chwe mis fel amod o gael arian. Ar hyn o bryd mae 67 sefydliad yn y Portffolio. Ond oherwydd y coronafeirws, dim ond 50 sefydliad a lenwodd yr arolwg erbyn y dyddiad cau estynedig o 5 Mehefin. Mae'r data yn dod o'r 50 sefydliad yn unig.

A ninnau'n sefydliad dwyieithog, mae ein hymrwymiad i'r Gymraeg yn rhan annatod o'n gwaith. Rydym yn hybu'n frwd hawl pobl i ymchwilio i'w diwylliant eu hunain a'u creadigrwydd eu hunain drwy eu dewis iaith, boed fel defnyddiwr, cyfranogwr neu artist.

Yn ei strategaeth, Cymraeg 2050, mae Llywodraeth Cymru'n nodi mai ei tharged hirdymor yw sicrhau 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rydym ni'n credu y gallwn, wrth weithio drwy'r celfyddydau, gynorthwyo Llywodraeth Cymru i wireddu ei themâu strategol yn hyn o beth, yn arbennig mewn perthynas â'r canlynol:

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
3. Creu amodau ffafriol yn y sector celfyddydol i'r iaith ffynnu

**Mae'r gweithgareddau a gyflawnodd Grŵp Monitro'r Gymraeg yn ystod 2019/20 yn cynnwys y canlynol:**

1. Monitro **cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r Cyngor o ran y Gymraeg**, gan nodi i'r Cyngor ble mae angen mwy o gynnydd.
2. Sicrhau y rhoddir **Safonau'r Gymraeg** ar waith yn llwyddiannus.
3. Buddsoddi mewn **Theatr Gymraeg** drwy fuddsoddi mewn 4 cynhyrchiad newydd, cynyddu nifer y cyflwyniadau **Noson Allan** i deuluoedd a phobl ifanc drwy bartneriaeth cyd-gynhyrchu rhwng **Theatr Genedlaethol Cymru** a **Theatr Iolo** a chynorthwyo **Pontio** a **Theatr Clwyd** i barhau â'u partneriaeth i gyflawni gwaith Cymraeg.
4. Gweithio gyda swyddfa **Comisiynydd y Gymraeg** i ddatblygu Pecyn Hybu Dw-yieithrwydd ar-lein newydd i'r sector celfyddydol.
5. Partneru â'r **Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol** i wella neu fireinio sgiliau iaith staff yn y sector celfyddydol.





*Brig:* Canfod y Gân project, Canolfan Gerdd William Mathias (llun: Iolo Penri)
Tŷ Gwerin, Eisteddfod Genedlaethol 2019, trac

# Y prif risgiau ac ansicrwydd

## Rheoli ein busnes yn effeithiol

A ninnau'n stiwardiaid arian cyhoeddus rhaid inni weithredu mewn modd effeithlon ac atebol. Mae'r Cyngor yn cytuno ar ein blaenoriaethau a phenderfyniadau ariannu yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'n defnydd o arian cyhoeddus. Rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yw sicrhau ein bod yn cyflawni'r ymrwymiadau hyn, gan wneud hynny mewn ffyrdd sy'n dryloyw ac yn atebol ac sy'n rhoi gwerth am arian. Mae rhaglen helaeth o waith archwilio mewnol yn ein cynorthwyo gyda'r gwaith hwn.

## Diogelu arian y cyhoedd

Rhan bwysig o waith y Pwyllgor fu adolygu ein hamddiffynfeydd yn erbyn **Twyll** a **Seiberdrosedd**. Mae ceisiadau i gael mynediad yn anghyfreithlon i'n harian a'n systemau TGCh yn digwydd yn rheolaidd. Mae'r Cyngor yn cymryd y materion hyn o ddifrif ac mae'r Pwyllgor wedi edrych yn ofalus ar ein polisïau a'n prosesau er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn ac yn ddiogel. Ni chafwyd unrhyw ymosodiadau llwyddiannus yn ystod y flwyddyn.

## Cymryd risgiau: dull cytbwys

Mynediad anawdurdodedig i'n systemau yw un yn unig o amrywiaeth o risgiau posibl a allai beryglu ein perfformiad a'n henw da. Disgwyliwn i'r sefydliadau a ariannwn fod wedi'u rheoli'n dda ac iddynt roi gwerth da am arian. Mae ein gwaith monitro drwy'r flwyddyn yn asesu i ba raddau mae hyn yn digwydd. Ond rhaid inni beidio â mynd mor ofnus o risg nes ein bod yn anwybyddu cyfleoedd pwysig i arloesi a thyfu. Ein nod yw cymryd risgiau priodol, ond yn wybodus, yn ôl yr amgylchiadau.  Serch hynny, ni fyddem yn ymddwyn yn ddi-hid; ni fyddem chwaith yn gwario arian cyhoeddus yn wastraffus nac yn peryglu ein henw da am gyflenwi mewn modd call ac effeithiol.

Mae ein systemau rheolaeth fewnol yn nodi a blaenoriaethu'r risgiau a allai ein hatal rhag cyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor. Maent yn gwerthuso'r tebygolrwydd y gwireddir y risgiau, yn ystyried eu heffaith pe digwyddent ac yn ceisio eu rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rydym yn ceisio gwella ein systemau rheolaeth fewnol o hyd.

Parhaodd y Pwyllgor i adolygu pa mor drylwyr ac addas yw'r agwedd hon ar waith y Cyngor. O ganlyniad i adborth gan y Pwyllgor, cafodd y **Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol** ei ail-fformadu a chafodd y risgiau integredig eu trosglwyddo i ffurfio **Cofrestr Risgiau Gorfforaethol** ar wahân. Rhoddodd hyn fwy o eglurder i'r aelodau am y lefelau sicrwydd sydd ar waith ar draws holl weithgarwch busnes Cyngor y Celfyddydau

ac unrhyw risgiau cyfatebol a ganfyddir. Mae'r Pwyllgor yn adolygu'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol a'r adran Sganio'r Gorwel o'r Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol ym mhob un o'i gyfarfodydd chwarterol. Caiff y Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol ei gyflwyno i'r Pwyllgor pob 6 mis.

## Risg ariannol a rheoli cyfalaf

Deil y Cyngor offerynnau ariannol yn bennaf i gyllido ei weithrediadau, er enghraifft, dyledwyr a chredydwyr masnachol a balansau arian sy'n deillio'n uniongyrchol o'i weithrediadau. Gwneir y gwaith o reoli risgiau ariannol sy'n deillio o fasnachu offerynnau ariannol, dyledwyr a chredydwyr masnachol yn bennaf, drwy gyfres o bolisïau a gweithdrefnau.



One Man, Two Guvnors, Theatr y Torch (llun: Drew Buckley Photography)

## Risg twyll

Mae Cyngor y Celfyddydau, fel y rhan fwyaf o sefydliadau eraill, yn agored i risg twyll ar raddfa gynyddol a mwyfwy soffistigedig. Rydym yn nodi'r potensial am fwy o risg twyll o gofio'r sefyllfa bresennol gyda Covid-19.

Rheolir y risgiau hyn fel a ganlyn:

*Risg hylifedd* – mae'r Cyngor yn fodlon fod ganddo adnoddau hylifedd digonol, ar ffurf arian yn y banc ac arian y cytunwyd arno ar gyfer 2019/20, i fodloni pob ymrwymiad cyfredol a gontractiwyd. Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei weithgareddau yn agored i unrhyw risg sylweddol o ran hylifedd.

*Risg cyfraddau llog* – delir balansau arian a chyfwerth ag arian mewn cyfrifon banc cyfradd amrywiol sy'n caniatáu cael yr arian ar unrhyw adeg. Ar gyfartaledd 0.5% oedd y gyfradd llog yn y flwyddyn (2018/19: 0.5%).

Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei weithgareddau yn agored i risgiau sylweddol o ran cyfraddau llog.

*Risg arian tramor* – mae newidiadau i gyfraddau cyfnewid ers y Refferendwm ar yr Undeb Ewropeaidd yn 2016 wedi arwain at ostyngiad ym mhŵer prynu'r bunt mewn gwledydd tramor. Ar hyn o bryd nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw risgiau sylweddol o ran cyfnewid arian tramor ac mae'n parhau i fonitro datblygiadau Brexit.

*Risg llif arian* – nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw risgiau sylweddol o ran llif arian.

59,269*
sesiwn gyfranogol gan ein Portffolio a oedd yn arwain at
763,064*
mynychiad

* Mae'r data'n crynhoi canfyddiadau Arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru 2019/20. Rhaid i'r Portffolio lenwi arolwg bob chwe mis fel amod o gael arian. Ar hyn o bryd mae 67 sefydliad yn y Portffolio. Ond oherwydd y coronafeirws, dim ond 50 sefydliad a lenwodd yr arolwg erbyn y dyddiad cau estynedig o 5 Mehefin. Mae'r data yn dod o'r 50 sefydliad yn unig.

## Y risgiau i'n perfformiad: y risgiau a sut y byddwn yn ymdrin â hwy

<table>
<tr><th>Prif risgiau</th><th>Camau lliniaru allweddol</th></tr>
<tr><td>Coronafeirws<br><br>Staff yn dal y feirws yn golygu nad oes modd i'r sefydliad / timau / gwasanaethau weithredu<br><br>Covid-19 yn cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar y sector gan gynnwys:<br><br>- artistiaid a gweithwyr unigol ar eu liwt eu hunain<br><br>- sefydliadau / Portffolio Celfyddydol Cymru</td><td>Trefnwyd i'r holl staff weithio o gartref ers 17 Mawrth 2020 a chaewyd ein swyddfa. Cadwyd at gyfarwyddiadau Llywodraethau'r DU a Chymru ar fesurau atal. Dosbarthwyd Arolwg Iechyd Dyddiol i gofnodi statws yr holl staff o ran iechyd a hunan-ynysu, gyda'r adran Adnoddau Dynol yn ei fonitro a'r canlyniadau'n cael eu hadrodd i'r Uwch Tîm Arwain.<br><br>Ataliwyd y gwaith o ddarparu rhaglenni'r Loteri ar gyfer 2020/21 dros dro er mwyn caniatáu i gyllid gael ei ddargyfeirio i helpu i warchod y sector rhag effaith Covid-19 ac ôl-effeithiau yn y tymor hirach.<br><br>Sicrhawyd cyllid ychwanegol oddi wrth bartneriaid allanol, rhanddeiliaid a ffynonellau eraill.<br><br>Cynlluniwyd Cronfa Gwytnwch i ddiwallu anghenion uniongyrchol ac yn y tymor hirach, gan gynnwys ystyriaethau ar wahân i'r rheiny wedi'u seilio ar weithgarwch a chynnyrch artistig (e.e. ariannol).<br><br>Cyhoeddwyd canllawiau ychwanegol rheolaidd ar ffynonellau cyllid eraill a allai fod ar gael i unigolion a sefydliadau (e.e. cynlluniau argyfwng y Llywodraeth).<br><br>Cynigiwyd taliadau refeniw wedi'u hail amserlennu i sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru er mwyn lliniaru ystyriaethau llif arian.</td></tr>
<tr><td>Llywodraethu<br><br>Arweinia rheoli gwael at fethiant sylweddol i gyflawni'r amcanion allweddol mewn cynlluniau corfforaethol a gweithredol</td><td>Caiff y canlyniadau a ragwelir eu diffinio'n glir. Defnyddiwn ddisgyblaethau rheoli prosiectau i gynorthwyo swyddogion y Cyngor i gyflawni eu gwaith. Cyflwynir adroddiad cynnydd ffurfiol i'r Cyngor bob chwarter. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn sail i'r Cyfarfodydd Monitro Chwarterol rhwng uwch tîm arwain y Cyngor a swyddogion Llywodraeth Cymru.</td></tr>
</table>

| Prif risgiau | Camau lliniaru allweddol |
|---|---|
| **Cyllid**<br><br>Gallai toriadau i gyllid sector cyhoeddus niweidio'r celfyddydau yng Nghymru | Mae incwm y Loteri Genedlaethol yn parhau i fod yn anrhagweladwy. Rydym yn rheoli'r duedd waelodol o ostyngiad yn lefel yr incwm i achosion da'r Loteri. Hefyd bu'n rhaid inni sicrhau rhagor o arbedion yn ein costau rhedeg ein hunain. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau bod cymaint o arian ag sy'n bosibl ar gael ar gyfer gwariant uniongyrchol ar y celfyddydau.<br><br>Un maes risg allweddol yw'r gostyngiadau parhaus yn arian awdurdodau lleol i'r celfyddydau. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid sy'n awdurdodau lleol i edrych ar strategaethau gwahanol i ddiogelu'r gefnogaeth i weithgarwch creadigol. |
| Sefydliadau celfyddydol allweddol yn methu o ganlyniad i doriadau mewn cyllid neu Covid-19 | Portffolio Celfyddydol Cymru sy'n cael y rhan fwyaf o'n cyllid cymorth grant. Caiff effeithiolrwydd artistig, ariannol a gweithredol y Portffolio ei fonitro'n ofalus gan swyddogion. Caiff adroddiadau rheolaidd sy'n dangos yr asesiad risg o bob un o'n sefydliadau a gyllidir yn flynyddol eu darparu i'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ac i'r Cyngor. Pan fo angen, mabwysiadwn ymagwedd ragweithiol at weithio'n uniongyrchol gyda sefydliadau sy'n cael anawsterau, gan fuddsoddi amser ac arbenigedd i'w helpu i ddatrys materion sy'n peri pryder. |
| **Rheoli grantiau**<br><br>Golyga ceisiadau gwael neu dwyllodrus am gyllid na ddefnyddir cyllid cyhoeddus at y dibenion a fwriedir | Defnyddiwn ddull seiliedig ar risg i asesu'r ceisiadau ac i fonitro'r grantiau a ddyfernir. Defnyddiwn wybodaeth a gesglir oddi wrth y rhai sy'n cael grantiau fel rhan o'n gweithdrefnau monitro er mwyn sicrhau y cafodd y canlyniadau datganedig y rhoesom gyllid ar eu cyfer eu cyflawni yn y pen draw mewn gwirionedd.<br><br>Mae'r Cyngor yn cymryd twyll, llygredigaeth a chamweinyddu o ddifrif, ac mae ganddo bolisïau i'w hatal rhag digwydd ac i ymdrin â hwy, gan gynnwys polisïau 'chwythu'r chwiban' a gwrth-dwyll. Adolygwyd y rhain yn ystod y flwyddyn. |

| Prif risgiau | Camau lliniaru allweddol |
|---|---|
| Brexit<br><br>Caiff yr ansicrwydd parhaus ynghylch cam nesaf Brexit effaith niweidiol ar weithredu'r sefydliadau a ariannwn | Rydym yn parhau i fonitro datblygiadau'n agos. Rydym wedi cynnull Grŵp Gorchwyl sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a Chynghorau Celfyddydau'r Deyrnas Unedig. Rhyngom, rydym yn nodi risgiau posibl, yn lobïo Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac yn cynnig cyngor i'r sector. |
| Prosiectau cyfalaf<br><br>Rheolaeth wael o brosiectau Cyfalaf Loteri allweddol yn achosi oedi sy'n gosod beichiau cyllidol ychwanegol ar Gyngor y Celfyddydau | Rydym yn gweithredu prosesau trylwyr i fonitro prosiectau a rhyddhau taliadau. Mae cytundebau contractiol ar waith sy'n diogelu buddsoddiad Cyngor y Celfyddydau a chaiff cyllid ei dalu yn erbyn hawliadau ardystiedig am waith a gwblhawyd. Mae aseswyr annibynnol arbenigol yn darparu adroddiadau technegol a ddefnyddir i friffio'r Pwyllgor Cyfalaf (a'r Cyngor yn y pen draw). |
| TG<br><br>Toriadau anrhagweledig neu annisgwyl i'r cyflenwad trydan yn peryglu parhad di-dor y busnes | Mae cynllun Adfer Ar Ôl Trychineb llawn yn bodoli ac yn cael ei brofi pob blwyddyn. Pe bai toriad yn digwydd, mae cyfleusterau TG eraill oddi ar y safle ar gael. Mae ein staff wedi cael yr offer i weithio o bell ac wedi gwneud hynny ers 17 Mawrth heb unrhyw broblemau sylweddol o ran TG. |
| Mae achos o dorri ein diogelwch TG. | Cynhelir profion seiberddiogelwch a hacio TG pob blwyddyn. Rydym yn cydymffurfio â safonau diogelwch IASME. |
| Data Personol<br><br>Caiff data personol eu colli, eu peryglu neu eu dwyn | Mae gan y Cyngor reolaethau a pholisïau ar waith i sicrhau cyfanrwydd data. Mae systemau TG wedi'u hamgryptio'n sicrhau bod diogelwch ffisegol data'n cael ei reoli'n gaeth. |
| Staffio<br><br>Pwysau cyson i dorri costau'n lleihau capasiti'r staff i lefel annerbyniol | Mae cyflawni rhaglen o weithgarwch sy'n ehangu gyda llai o staff yn destun pryder parhaus i'r Cyngor. Caiff y cynnydd yn erbyn cynlluniau ei fonitro'n ofalus a'i adolygu pob chwarter, a gwneir pob ymdrech i roi arferion busnes effeithlon ar waith. |

Mae gan y Cyngor ddwy brif ffynhonnell cyllido: cymorth grant oddi wrth Lywodraeth Cymru; ac, a ninnau'n un o'r cyrff sy'n gyfrifol am ddosbarthu arian ymhlith achosion da, cyfran o'r arian a godir gan y Loteri Genedlaethol. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyfrifyddu ar wahân am ei weithgareddau cymorth grant a dosbarthu arian y loteri.

## Polisïau rhoi grantiau

Mae'r Cyngor yn gwahodd ceisiadau am grantiau rheolaidd ac untro gan sefydliadau ac unigolion ac yn monitro'r defnydd priodol ac effeithiol o'r grantiau hynny. Yn ogystal â bodloni amcanion strategol y Cyngor, rhaid i geisiadau ddangos budd i bobl Cymru ledled yr holl sectorau rhanbarthol, diwylliannol ac economaidd. Caiff grantiau rheolaidd eu cyllido o gymorth grant yn unig ond gellir cyllido grantiau untro o gymorth grant neu incwm y Loteri. O dan delerau ei Gyfarwyddiadau Polisi Loteri mae'r Cyngor yn rhoi grantiau i gynorthwyo prosiectau cyfalaf ac eraill o dan gynlluniau refeniw sy'n ymwneud â'r celfyddydau yng Nghymru.

Rhoddir grantiau rheolaidd, neu refeniw blynyddol, i bortffolio o sefydliadau i ddarparu gwasanaethau artistig o ansawdd da – **Portffolio Celfyddydol Cymru**. Mae ystyried statws refeniw i unrhyw sefydliad yn dibynnu ar argaeledd cyllid, cynaliadwyedd y sefydliad, a phrawf ei fod yn cydweddu'n gryf â blaenoriaethau strategol y Cyngor.  Ar hyn o bryd, mae pob sefydliad refeniw yn ymrwymo i gytundeb cyllido am gyfnod rhwng un a thair blynedd sy'n nodi'r lefel o gyllid a ragwelir, y rhaglen weithgarwch i'w chyflawni, gofynion monitro ac adolygu pob blwyddyn, amodau safonol grant ac unrhyw amodau ychwanegol.

Mae grantiau cyfalaf y Loteri, i sefydliadau yn unig, yn cynorthwyo â phrynu, gwella, adfer, adeiladu neu greu ased a gaiff ei ddefnyddio er budd y cyhoedd i ddatblygu gwaith y sefydliad.

**Mae'r Cyngor yn dirprwyo ei waith rhoi grantiau Loteri** mewn nifer o feysydd strategol i Ffilm Cymru Wales, Nesta, BBC Cymru Wales, Llenyddiaeth Cymru a Thŷ Cerdd.  Nodir telerau'r dirprwyo allanol mewn cytundebau ffurfiol a bodlonant amodau Datganiad o Ofynion Ariannol y Cyngor.



1,417
o geisiadau am gyllid a broseswyd

2017/18: 1,356



Chwarae, Theatr Iolo (llun: Kirsten McTernan)

Ni newidir rhwymedigaethau Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor gan y dirprwyo. Ond mae wedi'i fodloni ei hun bod y sefydliadau a'u systemau'n addas i gyflawni'r swyddogaethau dirprwyedig, gan gynnwys: asesu ceisiadau am gyllid; dal arian y Loteri a ddyrennir iddynt gan y Cyngor at y diben hwnnw, rhoi cyfrif amdano a'i ddosbarthu; a monitro'r prosiectau a gyllidir.

Mae'r cytundebau dirprwyo yn caniatáu ar gyfer mynediad priodol at y sawl y dirprwyir iddynt gan archwilwyr mewnol y Cyngor a chan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol er mwyn adolygu'r ffordd y gweithredir y swyddogaethau dirprwyedig.

Mae grantiau untro ar gael i helpu i gyllido prosiectau artistig cyfyngedig o ran amser, o ansawdd da, a fodlona flaenoriaethau cyllido'r Cyngor yn y modd gorau. Mae gwaith i fonitro ein rhaglenni cymorth grant yn barhaus yn ein rhybuddio am unrhyw broblemau penodol o ran risg. Mae risgiau a nodir yn arwain at godi lefel y monitro ac, os oes angen, yn gallu arwain at beidio â thalu cyllid a/neu ohirio ei dalu.

## Cronfeydd arian parod wrth gefn – Gweithgareddau Cyffredinol

Polisi'r Cyngor ar gronfeydd cyfyngedig yw cofnodi ar wahân grantiau, rhoddion a ffynonellau incwm eraill a geir ar gyfer diben neu brosiect penodol, neu lle bo'r cyfyngiadau a osodir yn gulach nag amcanion cyffredinol y Cyngor. Mae'r holl adnoddau hyn a ddaeth i mewn wedi cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn at eu diben bwriadedig.

Neilltuir y rhan fwyaf o gyllid anghyfyngedig y Cyngor yn ystod y flwyddyn, yn unol ag amodau'r cymorth grant a roddir gan Lywodraeth Cymru. Caiff unrhyw arian dros ben ei gario ymlaen a'i ddefnyddio i hyrwyddo amcanion siartredig y Cyngor yn y flwyddyn wedyn. Nid oedd unrhyw arian dynodedig ar 31 Mawrth 2020.

Cyfyngir ar ein gallu i ddal cronfeydd arian parod wrth gefn gan gyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru ar hyblygrwydd diwedd mis a diwedd blwyddyn. O fewn y paramedrau hynny, ein polisi yw rheoli llif arian drwy dynnu arian i lawr bob mis i dalu gwariant wedi'i gynllunio, gyda lwfans bach ar gyfer gofynion arian parod tymor byr nas rhagwelwyd. Adolygwn y polisi hwn a'n sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn bob blwyddyn.

Ar 31 Mawrth 2020, £1.796 miliwn oedd y cronfeydd arian parod anghyfyngedig (2019: £1.766 miliwn).

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi ar sail busnes hyfyw ac nid oes unrhyw ansicrwydd sylweddol ynghylch ein gallu i barhau i weithredu.

## Buddsoddi

Rheolir pwerau buddsoddi gan Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000, y Ddogfen Fframwaith a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru a'r Cyfarwyddiadau Ariannol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Polisi'r Cyngor yw cael yr elw mwyaf posibl o fewn y telerau hyn. Cawn log ar gyfradd wedi'i negodi cysylltiedig â chyfradd sylfaenol y banc ar bob balans credyd yng nghyfrifon cyfredol y Cyngor. O bryd i'w gilydd, gallai cyfraddau uwch fod ar gael ar gyfer cronfeydd cyfyngedig ar adnau hirdymor.

Darperir gwasanaeth bancio'r Cyngor gan Santander UK plc.


Caiff yr holl log ac incwm arall o fuddsoddiadau a enillir ar arian parod a balansau banc sy'n codi o ganlyniad i gyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru ei ildio i Drysorlys Ei Mawrhydi drwy Gronfa Gyfunol Cymru.

Erys balansau a ddelir yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, felly, er bod y Cyngor yn cael incwm o fuddsoddiadau ar ei gyfran yntau o'r fath falansau, nid oes gan y Cyngor unrhyw bwerau buddsoddi dros y Gronfa.

Talu credydwyr

Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Deddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998 a Chod Ymarfer Talu Gwell Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'n ofynnol i'r Cyngor dalu anfonebau cyflenwyr lle na cheir anghydfod yn eu cylch cyn pen 30 diwrnod ar ôl cael nwyddau neu wasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf.

Ein nod yw talu'r holl anfonebau, gan gynnwys anfonebau y cafwyd anghydfod yn eu cylch ar ôl i'r anghydfod gael ei ddatrys, yn unol â'r telerau hyn. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020, talodd y Cyngor 99% (2018/19: 99%) o'r holl anfonebau yn unol â thelerau ei bolisi talu.




Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, mae gan y Cyngor nod pellach o dalu anfonebau cyn pen 10 diwrnod. Ar gyfer 2019/20 talwyd 95% (2018/19: 92%) o anfonebau cyn pen 10 diwrnod.

Ni ragwelir y bydd ein polisi'n newid yn y blynyddoedd i ddod a byddwn yn parhau i fabwysiadu targedau perfformiad heriol.

# Canlyniadau ariannol – Gweithgareddau Cyffredinol

| | 2019/20 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| **Penawdau o'r cyfrifon Gweithgareddau Cyffredinol:** | | |
| • Cyfanswm incwm am y flwyddyn | **35,787** | 35,386 |
| • Gwarged gwariant dros incwm | **(6)** | (636) |
| • Asedau cyfredol net | **2,747** | 2,741 |
| • Cyfanswm y balansau arian ar 31 Mawrth | **2,840** | 2,846 |
| • Blaenymrwymiadau grantiau ar gyfer y flwyddyn wedyn | **27,082** | 26,790 |
| **Dengys y cyfrifon Dosbarthu Arian y Loteri ar wahân:** | | |
| • Cyfran y Cyngor o'r derbyniadau o'r Loteri Genedlaethol | **17,761** | 16,000 |
| Y cyfuniad:<br>Cyfanswm yr incwm ar gyfer gweithgareddau cyffredinol a Loteri oedd | **53,687** | 51,524 |
| a<br>Chyfanswm y gwariant elusennol ar y celfyddydau ar gyfer gweithgareddau cyffredinol a Loteri oedd | **48,433** | 47,886 |

Roedd incwm y Cyngor ar gyfer 2019/20 £0.401 miliwn (1.1%) yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Y cynnydd mewn incwm cyfyngedig oddi wrth Lywodraeth Cymru tuag at weithgareddau rhyngwladol oedd y prif reswm.

Roedd gostyngiad net o £6,000: gostyngodd cyllid anghyfyngedig £387,000 a chynyddodd cyllid cyfyngedig £381,000.

Mae'r gostyngiad mewn cyllid anghyfyngedig yn adlewyrchu ein defnydd o gronfeydd wrth gefn, a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol, ar gyfer gweithgarwch a ohiriwyd. Roedd hyn wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a chafodd ei fonitro drwy gydol y flwyddyn.

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd gennym ymrwymiadau parhaus ar gyfer gweithgarwch cyfyngedig, yn benodol ein rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau a'n rhaglenni rhyngwladol. Cafodd dyfodiad pandemig Covid-19 effaith ar ein cynlluniau ac, o ganlyniad, roeddem yn dal i fod â lefel gymharol uchel o incwm cyfyngedig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Ar 31 Mawrth 2020 roedd gennym gronfeydd wrth gefn anghyfyngedig o £2 miliwn (2019: £2.4 miliwn) a chronfeydd wrth gefn cyfyngedig o £0.8 miliwn (2019: £0.4 miliwn). Ceir effaith uniongyrchol ar lefel ein cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig gan bolisi Llywodraeth Cymru ar falansau arian parod diwedd blwyddyn, fel y nodir yn yr adran *Cronfeydd arian parod wrth gefn* uchod. Caniateir i'r Cyngor gario drosodd o'r naill flwyddyn ariannol i'r nesaf dim mwy na 2% o gyfanswm ei incwm na ddaw o'r Loteri. Mae'n rhaid i'n hadran noddi yn Llywodraeth Cymru gytuno ar unrhyw gynnig i gario drosodd symiau sy'n fwy na hyn, fel eleni.

Er mwyn talu costau yr ymrwymwyd iddynt eisoes a darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol i ymateb i bwysau costau yn y dyfodol, cyflwynwyd cais i Lywodraeth Cymru i gario ymlaen £1.166 miliwn ychwanegol i gael ei ddefnyddio at ddiben gwahanol sef cronfa ymateb argyfwng i effaith Covid-19.

Croesawyd y gymeradwyaeth i'r cais hwn ac mae hyn, ynghyd â chyhoeddiad cyllido interim ar gyfer 2020/21, wedi rhoi inni ein gofynion cynllunio ac adnoddau dros y flwyddyn nesaf.



Denis & Katya by Philip Venables a Ted Huffman, Music Theatre Wales 2020 (llun: Clive Barda)

# Canlyniadau ariannol – Dosbarthu Arian y Loteri

| | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|
| Penawdau o gyfrifon Dosbarthu Arian y Loteri: | | |
| • Cyfran o'r derbyniadau o'r Loteri Genedlaethol | **17,761** | 16,000 |
| • Grantiau net a roddwyd | **10,388** | 9,571 |
| • Gwarged incwm dros wariant | **3,268** | 2,376 |
| • Balans a ddaliwyd yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol ar 31 Mawrth | **18,036** | 14,894 |
| • Cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth | **7,963** | 4,695 |

Grantiau a broseswyd

| | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| Nifer y ceisiadau a ddaeth i law: | | |
| Cynlluniau cyfalaf | 11 | 16 |
| Cynlluniau refeniw | 654 | 705 |
| | **666** | 721 |
| **Nifer y grantiau a roddwyd:** | **411** | 436 |
| **Gwerth y grantiau a roddwyd:** | £'000 | £'000 |
| Cynlluniau cyfalaf | 1,406 | 1,098 |
| Cynlluniau refeniw | 9,305 | 8,629 |
| | **10,711** | 9,727 |
| **Grantiau oedd yn daladwy ar 31 Mawrth:** | | |
| Cynlluniau cyfalaf | 4,024 | 4,445 |
| Cynlluniau refeniw | 6,546 | 6,744 |
| | **10,570** | 11,189 |

Roedd ein derbyniadau o'r Loteri Genedlaethol yn fwy na'r hyn a gyllidebwyd yn wreiddiol, yn bennaf oherwydd cynnydd sydyn mewn incwm tua diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau i fonitro'n fanwl y duedd o ran y gyfran o'r derbyniadau a geir gan yr achosion da a'r effaith bosibl ar raglenni a ariennir gan y Loteri yn y dyfodol.

Mae neilltuo cyllid ar gyfer ein rhaglen Cyfalaf barhaus a chynnydd gwaith datblygu'r prosiectau allweddol hynny yn dal i gael effaith ar ein llif arian blynyddol. Neilltuodd y Cyngor £22 miliwn ar gyfer y rhaglen yn 2012/13 am gyfnod o bum mlynedd. Fodd bynnag, mae nifer o brosiectau'n dal i gael eu datblygu felly mae'r dyraniad o'r gyllideb sy'n weddill sef oddeutu £5 miliwn wedi cael ei fwrw drwodd i 2020/21.

Cafodd ein hymgynghoriad mawr â'r cyhoedd, a symud i raglenni grantiau diwygiedig o hydref 2019 ymlaen, effaith ar roi grantiau eleni hefyd. Yna ym mis olaf y flwyddyn gwelwyd ôl-effeithiau cyntaf y pandemig Covid-19, pan fu effaith andwyol ar gynifer o'r prosiectau a ariannwn. Rydym wedi gweithio i ddefnyddio ein cyllid at ddiben arall ers diwedd y flwyddyn ariannol, er mwyn darparu cymorth i'r sector.

Ar ddiwedd y flwyddyn £10.570 miliwn oedd cyfanswm y grantiau taladwy (2018/19: £11.189 miliwn). £19.160 miliwn oedd cyfanswm yr arian nas tynnwyd i lawr yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol plws arian parod a chyfwerth ag arian parod (2018/19: £16.267 miliwn). Cynyddodd ein cyfran ni o'r balansau a ddelir yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol oddeutu 21% o'r flwyddyn ddiwethaf.

**960**
o fenthyciadau'r **Cynllun Casglu** i gynorthwyo â phrynu celfyddyd gyfoes

2017/18: 998

# Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff

## Cyfle cyfartal

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i bolisi cyfle cyfartal yn ei arferion cyflogi. Yn benodol, nod y Cyngor yw sicrhau nad yw unrhyw ddarpar gyflogai neu gyflogai gwirioneddol yn cael triniaeth fwy neu lai ffafriol ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhywedd, statws o ran priodas neu fod yn rhiant, cenedligrwydd, cred wleidyddol, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi **Datganiad Polisi Cyflogau** bob blwyddyn. Mae hwn yn cynnwys dadansoddiad manwl o gyfansoddiad ein staff. Mae hefyd yn rhoi sylw i adrodd ar Gydraddoldeb Rhywiol a Chyflogau Cyfartal.

Mae'r Cyngor yn sicrhau bod cyfleusterau priodol ar gael i gyflogeion anabl. Mae arwyddion cyhoeddus hefyd yn hyrwyddo'r Cyngor fel sefydliad dwyieithog.

## Ein polisïau Adnoddau Dynol

Nod y Cyngor yw bod yn gyflogwr blaengar sy'n ystyriol o deuluoedd. Rydym yn gweithredu nifer o bolisïau Adnoddau Dynol sy'n adlewyrchu ein rhwymedigaethau cyfreithiol fel cyflogwr. Mae polisïau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau perthnasol yn y ddeddfwriaeth. Caiff y ffordd y rheolir polisïau Adnoddau Dynol y Cyngor ei monitro gan y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol.

## Cyfathrebu, ymgynghori a negodi â'r cyflogeion

Unite yw'r undeb llafur a gydnabyddir gan y Cyngor, ac mae wedi dod i gytundeb gweithdrefnol ag ef; mae cynrychiolwyr y rheolwyr a'r undeb yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion o bryder cyfredol.

Rydym yn cynnal arolygon staff yn rheolaidd er mwyn canfod unrhyw broblemau neu feysydd ar gyfer gwella.

## Gwerthuso swyddi

Yn ystod 2019/20, buom yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn yr undeb i gynnal proses gynhwysfawr o **adolygu a gwerthuso swyddi**. Treuliwyd blwyddyn bron ar y broses o adolygu, cymedroli a gwerthuso'r holl ddisgrifiadau swydd, ond mae wedi ei chwblhau. Mae cyd-gynnig gan yr Uwch Tîm Arwain a Gweithrediaeth yr Undeb yn barod i'w roi gerbron y Cyngor a Llywodraeth Cymru, ond ni fydd y cam hwn o'r broses yn mynd yn ei flaen hyd y bydd busnes yn ôl i'r arfer.

## Cydnabyddiaeth ariannol

Cytunir â Llywodraeth Cymru ar delerau penodi'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

Mae'r Cyngor yn talu gweddill y staff yn unol â system gyflog a graddio y cytunwyd arni.

Bob blwyddyn, mewn ymgynghoriad â'r undeb llafur cydnabyddedig, **caiff cylch gwaith cyflog** ei lunio a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Mae'r pecyn cyflog a'r amodau canlyniadol yn gyfrwymol ar y Cyngor cyfan tan y cylch negodi nesaf. Mae cynnydd o dan y cylch gwaith cyflog yn dibynnu ar berfformiad a brofir gan system y Cyngor o adolygiadau datblygiad personol. Cytunwyd ar Gylch Gwaith Cyflog 2019/20 gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Mawrth 2020.

Gyda chymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau caiff y Cadeirydd gydnabyddiaeth ariannol ar gyfradd a bennir gan Lywodraeth Cymru sy'n adlewyrchu ymroddiad amser lleiaf i fusnes y Cyngor. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi cyngor ar y cynnydd blynyddol yng nghyflog y Cadeirydd ond ni chaiff daliadau bonws ac nid yw'n aelod o gynllun pensiwn Cyngor y Celfyddydau.

Mae cydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr yn cynnwys cyflog sylfaenol a chymhwysedd i gael bonws blynyddol. Mae'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol yn argymell bonysau blynyddol i'r Cyngor ar ôl ystyried perfformiad y Prif Weithredwr yn ôl nifer o amcanion a bennir ymlaen llaw. Cafodd argymhelliad y Pwyllgor y dylid cynnig bonws llawn i'r Prif Weithredwr ei gymeradwyo gan y Cyngor. Fodd bynnag, ildiodd y Prif Weithredwr ei hawl i fonws anghyfunol ar gyfer 2019/20 ac mae wedi derbyn cynnydd cyfunol ar yr un lefel ag aelodau cymwys eraill o'r staff.

Caiff aelodau'r Cyngor eu penodi gan Weinidogion Cymru am gyfnod o dair blynedd a gellir eu hailbenodi am gyfnod pellach. Cymerodd y Cadeirydd presennol, Phil George, y gadeiryddiaeth drosodd ar 1 Ebrill 2016. Mae bellach yn cyflawni ei ail dymor, a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2022.

Caiff y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr – yr Uwch Tîm Arwain – eu cyflogi ar gontractau parhaol yn unol â thelerau ac amodau safonol y Cyngor. Mae hawl ganddynt i gael rhybudd o 13 wythnos o derfynu eu cyflogaeth.

Dyddiadau dechrau a therfyn y gyflogaeth yw:



**Phil George**
Cadeirydd

1 Ebrill 2016



**Nicholas Capaldi**
Prif Weithredwr


15 Medi 2008



**Dr Katherine Davies**

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllido'r Celfyddydau
1 Chwefror 2012 ymlaen

24 Awst 1998 i 31 Rhagfyr 2019



**Diane Hebb**

Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Celfyddydau
o 1 Chwefror 2012 ymlaen

13 Ionawr 1992



**Rebecca Nelson**

Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes

17 Mehefin 2019



**Siân Tomos**

Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau
o 1 Chwefror 2012 ymlaen

3 Mai 1994

Absenoldeb salwch

Ar draws y Cyngor cyfan:

| | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| Diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch | **556** | 579 |
| Nifer gyfartalog y cyflogeion (cyfwerth ag amser llawn) | **80.48** | 77.30 |
| Nifer gyfartalog y diwrnodau a gollwyd fesul cyflogai | **6.91** | 7.49 |

Cyfradd absenoldeb o 2.74% (2018/19: 2.98%) yw hon, ar sail 252 (2018/19: 251) o ddyddiau gweithio.

## Ymgynghoriaeth

Yn ystod 2019/20 talodd y Cyngor gostau ymgynghoriaeth o lai na £1,000 (2018/19: £3,000) mewn perthynas â chyngor a barn arbenigol a gafwyd i gynorthwyo â gwneud penderfyniadau strategol. Codir meintiau llai na £1,000 yn y datganiadau Gweithgareddau Cyffredinol (2018/19: £1,000) a Dosbarthu Arian y Loteri (2018/19: £2,000).

Y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am gyfarwyddo gweithgareddau'r Cyngor. Roedd eu gwir daliadau a'u buddion pensiwn fel y'u dangosir yn y tablau canlynol.

Mae swm y buddion pensiwn am y flwyddyn sy'n cyfrannu at gyfanswm ffigurau unigol cydnabyddiaeth ariannol yn cael ei gyfrifo mewn ffordd debyg i'r dull a ddefnyddir i ddeillio gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth, ac wedi'i seilio ar wybodaeth a gafwyd oddi wrth actiwari Cynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994.

Dyma sut y cyfrifir gwerth buddion pensiwn:

> (gwir gynnydd yn y pensiwn* x 20) + (gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad) - (cyfraniadau a wnaed gan yr aelod)
>
> *gan eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu leihad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn

Nid swm yw hwn a dalwyd i unigolyn gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn, ond cyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall llawer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn, e.e. newidiadau yng nghyflog rhywun, a yw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol at y cynllun pensiwn o'i gyflog ai peidio, a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn gyffredinol.

Cyfanswm ffigurau unigol cydnabyddiaeth ariannol yr Uwch Tîm Arwain (yn amodol ar archwilio):

| Enw<br>Swydd | 2019/20<br>Band taliadau<br>£'000 | 2019/20<br>Buddion pensiwn<br>£'000 | 2019/20<br>Cyfanswm unigol cydnabyddiaeth ariannol<br>£'000 | 2018/19<br>Band taliadau<br>£'000 | 2018/19<br>Buddion pensiwn<br>£'000 | 2018/19<br>Cyfanswm unigol cydnabyddiaeth ariannol<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nicholas Capaldi**<br>Prif Weithredwr | 95-100 | 24 | 120-125 | 95-100 | 16 | 110-115 |
| **David Alston**<br>Cyfarwyddwr y Celfyddydau hyd 31 Ionawr 2019<br>Cyfwerth â blwyddyn lawn | - | - | - | 65-70<br>70-75 | 9 | 75-80 |
| **Katherine Davies**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllido'r Celfyddydau hyd 31 Rhagfyr 2019<br>Cyfwerth â blwyddyn lawn | 55-60<br>70-75 | 16 | 70-75 | 70-75 | 2 | 70-75 |
| **Diane Hebb**<br>Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Celfyddydau | 70-75 | 19 | 90-95 | 70-75 | 9 | 80-85 |
| **Rebecca Nelson**<br>Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes o 17 Mehefin 2019 ymlaen<br>Cyfwerth â blwyddyn lawn | 55-60<br>70-75 | 13 | 65-70 | - | - | - |
| **Siân Tomos**<br>Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau | 70-75 | 22 | 95-100 | 70-75 | 6 | 75-80 |
| **Gwyn Williams** (0.6 FTE)<br>Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes hyd 31 Mawrth 2019 | - | - | - | 40-45 | 10 | 50-55 |

Buddion pensiwn yr Uwch Tîm Arwain (yn amodol ar archwilio):

| Enw<br>Swydd | | 2019/20<br>Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig yn 65 oed | | 2019/20<br>Cyfanswm pensiwn cronedig yn 65 oed ar 31/03/20 a chyfandaliad cysylltiedig | 2019/20<br>Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod[1] ar 31/03/20 neu ddyddiad gadael os yn gynt | 2018/19<br>Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/19 | 2019/20<br>Gwir gynnydd[2] yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Nicholas Capaldi**<br>Prif Weithredwr | Pensiwn<br>Cyfandaliad | 0-2.5<br>2.5-5 | Pensiwn<br>Cyfandaliad | 10-15<br>40-45 | 309 | 264 | 22 |
| **Katherine Davies**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllido'r Celfyddydau hyd 31 Rhagfyr 2019 | Pensiwn<br>Cyfandaliad | 0-2.5<br>0-2.5 | Pensiwn<br>Cyfandaliad | 25-30<br>85-90 | 630 | 574 | 14 |
| **Diane Hebb**<br>Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Celfyddydau | Pensiwn<br>Lump sum | 0-2.5<br>2.5-5 | Pensiwn<br>Cyfandaliad | 15-20<br>50-55 | 400 | 355 | 18 |
| **Rebecca Nelson**<br>Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes o 17 Mehefin 2019 ymlaen | Pensiwn<br>Cyfandaliad | 0-2.5<br>0-2.5 | Pensiwn<br>Cyfandaliad | 0-5<br>0-5 | 12 | N/A | 9 |
| **Siân Tomos**<br>Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau | Pensiwn<br>Cyfandaliad | 0-2.5<br>5-7.5 | Pensiwn<br>Cyfandaliad | 25-30<br>80-85 | 600 | 527 | 20 |

[1] **Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod** - Ystyr Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalafol buddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol ac a aseswyd gan actiwari. Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol a ddelir i'w briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymdrin â'r buddion mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w holl aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronnodd yr aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Caiff Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod eu cyfrifo yn unol â'r canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan y Sefydliad a'r Gyfadran Actiwariaid ac nid ydynt yn cymryd i ystyriaeth unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.


[2] **Gwir gynnydd mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod** - Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a gyllidir, i bob pwrpas, gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod..


Caiff y Cadeirydd gydnabyddiaeth ariannol am ei wasanaethau ond ni chaiff unrhyw daliadau bonws ac nid yw'n aelod o'r cynllun pensiwn. Nid yw Aelodau eraill o'r Cyngor nac Aelodau o'r Pwyllgorau yn cael unrhyw dâl am eu gwasanaethau.  Ad-dalwyd swm crynswth o £15,216 (2018/19: £10,136) i 14 (2018/19: 10) o aelodau'r Cyngor am gostau teithio a chynhaliaeth yr aed iddynt ar fusnes y Cyngor. Y swm crynswth a ddyrennir i weithgareddau cyffredinol oedd £8,223 (2018/19: £5,402) a £6,993 (2018/19: £4,734) i weithgareddau dosbarthu arian y Loteri.


Roedd cyfanswm y gwir daliadau i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cynnwys (yn amodol ar archwilio):

| | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **Cadeirydd** | | |
| Cyflog | 43,810 | 43,810 |
| **Prif Weithredwr** | | |
| Cyflog | 99,346 | 99,341 |
| Cyfraniad pensiwn y cyflogwr | 21,260 | 21,259 |
| | 120,606 | 120,600 |
| Caiff 68% (2018/19: 68%) o daliadau'r Cadeirydd a 70% (2018/19: 70%) o daliadau'r Prif Weithredwr eu codi ar weithgareddau cyffredinol a 32% (2018/19: 32%) o daliadau'r Cadeirydd a 30% (2018/19: 30%) o daliadau'r Prif Weithredwr eu codi ar ddosbarthu arian y Loteri. | | |
| Costau teithio a chynhaliaeth yr aed iddynt ac a ad-dalwyd ar fusnes y Cyngor: | | |
| Cadeirydd | £4,631 | £3,628 |
| Prif Weithredwr | £5,963 | £9,188 |
| Caiff 53% (2018/19: 54%) o gostau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr eu codi ar weithgareddau cyffredinol a 47% (2018/19: 46%) ar ddosbarthu arian y Loteri. | | |
| Dyma'r gydnabyddiaeth ariannol flynyddol ganolrifol (cyfwerth ag amser llawn) ar 31 Mawrth (Cyngor cyfan) (yn amodol ar archwilio): | £33,063 | £33,062 |
| Dyma ystod y gydnabyddiaeth ariannol flynyddol (cyfwerth ag amser llawn) ar 31 Mawrth (Cyngor cyfan) (yn amodol ar archwilio): | £21,013 i £99,346 | £21,012 i £99,341 |
| Dyma'r gymhareb rhwng y gydnabyddiaeth ariannol flynyddol ganolrifol a chydnabyddiaeth ariannol flynyddol yr aelod o'r staff â'r cyflog uchaf (Cyngor cyfan) (yn amodol ar archwilio): | 1:3 | 1:3 |

**Cyfansoddiad y staff ar 31 Mawrth** (cyfwerth ag amser llawn – Cyngor cyfan)



**Cynlluniau iawndal – pecynnau ymadael** (Cyngor cyfan) (yn amodol ar archwilio):

| Band cost pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | | Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul band cost | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2019/20** | 2018/19 | **2019/20** | 2018/19 | **2019/20** | 2018/19 |
| Hyd at £10,000 | 4 | - | - | - | 4 | - |
| £10,001 i £25,000 | 1 | - | - | - | 1 | - |
| **Cyfanswm y pecynnau ymadael** | 5 | - | - | - | 5 | - |
| **Cyfanswm y gost** (£'000) | 32 | - | - | - | 32 | - |

Mae costau dileu swyddi wedi cael eu pennu'n unol â darpariaethau polisi'r Cyngor ar ddileu swyddi. Fel arfer mae'r Cyngor yn talu costau ymadael pan fo'r gyflogaeth yn dod i ben ond yn darparu ar gyfer y costau ymadael yn llawn ar yr adeg pan fo gwybodaeth ddigon manwl ar gael i wneud hynny.

Caiff yr holl gostau eu codi ar weithgareddau cyffredinol.

# Atebolrwydd Seneddol ac Adroddiad Archwilio

### Rhwymedigaethau wrth gefn annhebygol

Mae'r Cyngor yn gyflogwr sydd wedi'i dderbyn i Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Mae'r Cynllun yn gynllun buddion diffiniedig a gyllidir a hefyd yn gynllun cyflogwyr lluosog lle na all y cyflogwyr sy'n cyfranogi nodi eu cyfrannau o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol.

Pe bai cyflogwr yn tynnu'n ôl, byddai'r ddyled a gâi ei hysgogi o dan adran 75 o Ddeddf Pensiynau 1995 yn cael ei chyfrifo gan ddefnyddio diffyg solfedd y Cynllun cyfan, nid cyfran asedau a rhwymedigaethau'r cyflogwr ei hun. Hefyd, pe câi'r Cynllun ei ddirwyn i ben, gan mai trefniant "y dyn olaf ar ei draed" yw'r Cynllun, byddai'r holl gyflogwyr yn atebol ar y cyd ac yn unigol am gyfanswm y diffyg yn y Cynllun.

Nid yw'n ymarferol amcangyfrif yr effaith ariannol.

### Colledion, taliadau arbennig a rhoddion

Ni chafodd y Cyngor unrhyw golledion yn ystod y flwyddyn ac ni roddodd unrhyw daliadau arbennig na rhoddion.

### Incwm ffioedd a thaliadau

Nid oes gan y Cyngor unrhyw incwm perthnasol o'r math hwn.



**Nick Capaldi**, Swyddog Cyfrifyddu
4 Medi 2020

Cymeradwywyd ar ran y Cyngor:



**Phil George**, Cadeirydd
4 Medi 2020





*Brig:* Gorffennol a Phresennol - 80 mlynedd o gasglu, Oriel Glynn Vivian Abertawe (llun: Polly Thomas)
UNITe 2019, g39. Tessa Waite, Dan Clark a Natasha MacVoy (llun Tess Emily Seymour)

# Rydym yn gweithredu yn ystod y cyfnod anoddaf un i'n sector. Golyga argyfwng Covid-19 mai ein nod ar gyfer y dyfodol agos yw cynnal a chynorthwyo ein sefydliadau ac artistiaid allweddol yng Nghymru ac ar yr un pryd canolbwyntio ar yr angen i ddarparu celfyddydau 'Er Budd Pawb...'

## Yr effaith ar y celfyddydau

Mae'n amlwg bod y sefyllfa bresennol gyda phandemig byd-eang yn ddifrifol iawn. Ar wahân i iechyd a lles y bobl sy'n gweithio yn y celfyddydau, mae iechyd ariannol y sefydliadau maent yn gweithio iddynt hefyd yn destun pryder sylweddol. Mae atal perfformiadau byw a gweithgarwch diwylliannol cyhoeddus dros dro yn ysgytwad enfawr i ymdeimlad y gymdeithas o lesiant, yn ogystal ag i'r economi.

Bydd 2020/21 yn heriol i bawb, ond yn enwedig i leoliadau. Bydd yn arbennig o anodd i'r lleoliadau masnachol hynny sy'n cael cyfran fawr o'u hincwm o werthiant tocynnau, incwm manwerthu a gwariant eilaidd arall. Ond nid y sefydliadau yw'r darlun cyfan. Caiff y celfyddydau yng Nghymru eu cynnal gan nifer ddi-rif o ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol creadigol unigol. Mae llawer o'r rhain mewn perygl o galedi gwirioneddol wrth i drefniadau a chontractau gael eu canslo.



Lexicon, Nofit State (llun: Sigrid Spinnox)

O gofio hyn i gyd, mae ein hamcanion ar gyfer 2020/21 fel a ganlyn:

### Cynnal y sector yn 2020/21

Yn 2020/21, bydd Cyngor y Celfyddydau'n defnyddio'r rhan fwyaf o'i gyllid o'r Loteri at ddiben gwahanol, sef ymateb i'r bygythiad cychwynnol i'n sector, ac i'w helpu i ddod drwy argyfwng y Coronafeirws/Covid-19.

Ynghyd â Llywodraeth Cymru, mae arian o gyllidebau presennol cymorth grant a'r Loteri wedi cael ei ailddyrannu i greu cronfa ymateb brys werth £7.0 miliwn – Cronfa Gwytnwch y Celfyddydau yng Nghymru. At hynny, cytunwyd ar rodd werth £500,000 oddi wrth Sefydliad Freelands ar ddechrau 2020/21.

Ar ddechrau 2020/21, addaswyd y gofynion cyllido i'r unigolion a sefydliadau hynny er mwyn helpu i leddfu'r pwysau i'r rheiny sydd eisoes wedi cael arian Loteri. Nid oes modd cyflawni llawer o'r prosiectau hyn ar eu ffurf wreiddiol mwyach. Rydym wedi ysgrifennu at bawb sydd wedi cael grant er mwyn canfod union statws eu dyfarniadau. Rydym yn hyblyg ac yn sensitif, ar sail y dybiaeth y dylid talu unrhyw gostau yr aed iddynt. Ar gyfer pob prosiect y mae modd ei gyflawni o hyd, byddwn yn disgwyl cael adroddiad cwblhau boddhaol cyn inni ryddhau'r swm llawn a ddyfarnwyd. Fodd bynnag, os yw'n glir nad oes modd defnyddio'r arian a ddyfarnwyd mewn modd dilys, rydym yn gofyn am i'r arian gael ei ddychwelyd. Bydd yr arian a gaiff ei ddychwelwyd yn cael ei roi yn y Gronfa Gwytnwch.

Mae tri 'llinyn' i'r Gronfa Gwytnwch:

1. Cronfa Ymateb Brys i Unigolion
2. Cronfa Sefydlogi i Unigolion
3. Cronfa Sefydlogi i Sefydliadau

Wrth greu'r cronfeydd hyn, rydym yn parhau i ddefnyddio ein prosesau gwirio manwl a byddwn yn cynnwys gwiriadau gwrth-dwyll ychwanegol ar yr ymgeiswyr, gan ddefnyddio offeryn 'AppCheck' y Fenter Twyll Genedlaethol.

Y camau nesaf i Gyngor y Celfyddydau yw datblygu llwybr newydd i'r sector yn strategol. Bydd angen i hwn fod yn hyblyg er mwyn ymateb i'r sefyllfa sy'n newid o hyd, cyngor gan y Llywodraeth a natur anrhagweladwy'r feirws.

Fel rhan o becyn cenedlaethol i achub y celfyddydau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, gall Cyngor Celfyddydau Cymru dynnu i lawr £27.5 miliwn ychwanegol i ariannu mwy o gymorth yn y sector, sef y Gronfa Adferiad Diwylliannol. O 17 Awst ymlaen, gall ymgeiswyr wneud cais ac rydym yn bwriadu rhyddhau'r rhan fwyaf o'r arian cyn Nadolig 2020.


Pa un ai mynychu'r celfyddydau, cymryd rhan ynddynt neu weithio ynddynt fel artist, cyflogai neu aelod o fwrdd, mae angen i boblogaeth ehangach Cymru gael ei chynrychioli'n well yn y gweithgarwch a ariannwn. Rydym wedi gosod targedau penodol, a nodir yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol.

## Bydd ein hymagwedd yn parhau i adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru

Mae'n amlwg bod y celfyddydau'n cyfrannu at ein llesiant ac ansawdd ein bywydau. A gwyddom y gall y celfyddydau ddod â sylwedd a dychymyg i'r gwaith o gyflawni amrywiaeth fawr o strategaethau sifil. Mae sicrhau y gwnawn gyfraniad cadarnhaol i'r agenda llesiant yn dal i fod yn flaenoriaeth sy'n llywio pob agwedd ar ein gwaith yn 2020/21.

Bydd datblygu cynaliadwy'n un o'n prif egwyddorion trefniadol a byddwn yn gwneud llesiant pobl Cymru, yn awr ac yn y dyfodol, yn greiddiol i'n prosesau penderfynu.

Byddwn yn defnyddio'r pum ffordd o weithio i sicrhau ymateb cyfannol i ddyfodol y sector, gan ymgysylltu ag amrywiaeth fawr o randdeiliaid er mwyn arwain y drafodaeth. Bydd ein cyflawniadau hefyd yn cael eu cynnal gan Grŵp Monitro Cenedlaethau'r Dyfodol a fydd yn edrych ar sut y bydd ein gweithgarwch yn gweithredu yn ystod ac ar ôl argyfwng y Coronafeirws.




o gostau cynnal Cyngor y Celfyddydau fel cyfran o'i holl incwm (y Cyngor cyfan)

2018/19: 6.9%

## Ehangu ymgysylltiad

*Mae angen inni newid y ffordd rydym yn edrych ar arian cyhoeddus i'r celfyddydau. Golyga hyn gwneud mwy i gydnabod hunan-fynegiant a diddordebau diwylliannol unigolion a chymunedau – creadigrwydd pob dydd.*

Gall diffiniadau traddodiadol o ddiwylliant, creadigrwydd a'r celfyddydau weithiau fod yn rhwystrau ynddynt eu hunain i bobl gymryd rhan. Mae angen inni wneud yn siŵr bod ein cyllid yn cefnogi gwahanol fathau o gelfyddydau, a'i fod yn cyrraedd amrywiaeth fwy o artistiaid a chymunedau.

Rydym ni eisiau i fwy o bobl yng Nghymru allu dewis gwneud y celfyddydau'n rhan o'u bywydau. Ni ddylai'r cyfle i ymgysylltu â'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt fod yn ddibynnol ar le yr ydych yn byw. Ond mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod buddion buddsoddi cyhoeddus yn y celfyddydau wedi'u cyfyngu o hyd i gyfran fach o'r boblogaeth (fel arfer y cyfoethocaf a mwyaf hyddysg a lleiaf amrywiol yn ethnig, yn yr ardaloedd mwyaf poblog). Ein huchelgais yw cymdeithas sy'n coleddu cydraddoldeb ac sy'n dathlu gwahaniaeth, boed o ran hil, rhywedd, rhywioldeb, oedran, iaith, anabledd, cyfoeth neu gymuned.

Mae cymdeithas hael, deg a goddefgar yn gynhwysol yn reddfol, ac yn gwerthfawrogi a pharchu creadigrwydd ei holl ddinasyddion. A gwyddom y bydd y celfyddydau yng Nghymru'n gryfach, yn fwy cyffrous ac yn fwy perthnasol os ydynt yn cyrraedd mwy o bobl. Y duedd o hyd yw gweld y celfyddydau'n rhywbeth i'r mwyaf breintiedig yn ein cymdeithas. Mae angen inni newid hyn, yn enwedig wrth i gymdeithas ar ôl Covid-19 ddechrau ailymgysylltu â'i hun ac â gweithgarwch diwylliannol.

Ein 3 phrif gam gweithredu:

1. Sicrhau bod ein holl raglenni Arian y Loteri yn targedu'r sefydliadau sy'n cyrraedd cymunedau ehangach a chynulleidfaoedd mwy amrywiol, ac ymysg pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl a siaradwyr Cymraeg yn arbennig.  Byddwn yn cynnal ymgyrch gyhoeddus i hyrwyddo hyn.

2. Datblygu rhaglenni newydd i ehangu ymgysylltiad â'r celfyddydau yng Nghymru a'u rhoi ar waith, drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, gan roi ystyriaeth i'r adborth a gawn oddi wrth gymunedau.

3. Ymestyn cyrhaeddiad y cynllun Noson Allan drwy gynnal prosiect peilot gyda phum gwasanaeth llyfrgell ar draws Cymru.

Adeiladu ar ein gwaith gwytnwch a chynaliadwyedd

*Mae gan wytnwch ystyr newydd yn 2020/21 gyda'r sector mewn sefyllfa ansicr. Yn ychwanegol at y Cronfeydd sefydlogi, bydd y Cyngor yn edrych ar sut yr ydym yn cynnal y sector a gwarchod y celfyddydau yng Nghymru, gan mai ar ein sector ni yn benodol y bydd camau cadw pellter cymdeithasol yn effeithio.*

Rydym yn parhau i wneud popeth a allwn i ddarbwyllo partneriaid ariannu i gadw eu ffydd yn y celfyddydau, a byddwn yn parhau i feithrin ein perthynas ag awdurdodau lleol ac arianwyr eraill.

Er mor difrifol yw'r effaith a gafwyd ar sefydliadau, mae angen inni hefyd gydnabod nad digwyddiadau cyfle cyfartal yw argyfyngau iechyd cyhoeddus: y rhai tlotaf, y rhai sydd wedi'u hymyleiddio mwyaf a'r anabl sy'n dioddef yr effeithiau gwaethaf yn gyffredinol, tra bod y rhai cyfoethog, sydd â chysylltiadau ac sy'n iach yn gallu goroesi'r argyfwng yn well fel arfer. Felly ni ddylem anghofio blaenoriaeth gyffredinol y Cyngor i roi sylw arbennig i anghenion y rhai lleiaf cefnog, er y bydd angen brys am ddatrysiadau cyflym.

Ein 3 phrif gam gweithredu:

1. Helpu i warchod hyfywedd a sefydlogrwydd ariannol artistiaid a sefydliadau celfyddydol, yn arbennig y rhai a arweinir gan bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig neu bobl anabl. Yn 2020, byddwn yn canolbwyntio'n bennaf ar liniaru effaith y Coronafeirws/Covid-19.

2. Darparu cymorth i artistiaid a sefydliadau celfyddydol ddatblygu'r sgiliau sy'n eu galluogi i weithio ar lein ac i gydweithredu'n llwyddiannus yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol hyd ddiwedd cyfnod y Coronafeirws/Covid-19.

3. Cefnogi canlyniadau'r gweithgaredd creu gweledigaeth a mapio er mwyn datblygu cynulleidfaoedd ar gyfer gwaith Cymraeg yng Nghymru ac yn rhyngwladol.



Parc Bedwellty, ParCelf, Celfyddydau ar y Blaen (llun: Kate Strudwick)

## Llwybrau creadigol

*Bydd ansawdd y gwaith a gefnogwn yn parhau i fod o bwys mawr inni. Drwy'r arian cyhoeddus a roddwyd yn ein gofal, rydym eisiau galluogi artistiaid i ddefnyddio'u dychymyg gorau, eu chwilfrydedd mwyaf holgar, i greu gwaith cyffrous a difyr. Mae'n ymwneud â Chelfyddyd sydd wedi'i llunio ag angerdd a dychymyg. Celfyddyd sydd wedi'i saernïo a'i chynhyrchu'n dda, ac sy'n estyn allan ac yn cyffwrdd â ni.*

Creadigrwydd, unplygrwydd, dychymyg, arloesedd, ymrwymiad – erys y rhain yn ffyn mesur pwysig ar gyfer barnu ansawdd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi cydnabod bod rhaid inni ehangu ein gweledigaeth i weld y gwahanol gyd-destunau lle gallai'r priodweddau hyn fodoli.

Ond nid yw pysgod ond mor iach â'r dŵr maen nhw'n nofio ynddo. Mae ar artistiaid a sefydliadau celfyddydol angen amgylchedd cefnogol i ffynnu. Byddwn yn chwarae rhan gliriach a mwy entrepreneuraidd wrth ganfod, meithrin a hyrwyddo doniau creadigol gorau ein gwlad ar draws pob math o gelfyddyd, ac ar bob cam yn eu datblygiad proffesiynol.

Gwyddom y gallwn ddarparu cefnogaeth ar adegau allweddol yng ngyrfa artist. P'un ai'n gweithio'n unigol neu gyda'n gilydd, yn lleol neu'n fyd-eang, ein nod yw creu'r amgylchiadau lle rhoddir i'n hartistiaid y sgiliau a'r cyfleoedd i ddilyn gyrfaoedd cynaliadwy, hyfyw o fan gweithio yng Nghymru.

Ein 3 phrif gam gweithredu:

1. Ymchwilio, datblygu a hyrwyddo dewislen gynhwysol o ddatblygiadau gweithlu a chyfleoedd i artistiaid a gweithwyr proffesiynol creadigol unigol, yn enwedig pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl, i greu gwaith a datblygu eu sgiliau proffesiynol a sicrhau cyflogaeth yn y celfyddydau yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ein gwaith Camau Creadigol, Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, y BBC, a'n cynlluniau i ddatblygu cyfleoedd prentisiaeth.

2. Sefydlu partneriaethau, yn genedlaethol a/neu'n rhyngwladol, ag o leiaf dau sefydliad neu ddarparwr arbenigol i gynyddu cyfleoedd hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chyflogadwyedd yn y sector celfyddydol a chreadigol.

3. Datblygu ffyrdd o fonitro ac adrodd ar effaith yr ymrwymiad yn ein rhaglenni ariannu i artistiaid gael eu talu'n briodol.

Hyrwyddo buddion y Celfyddydau ac Iechyd

*Mae pwysigrwydd y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles yn cael ei dderbyn fwyfwy. Drwy weithgarwch prosiect yr ydym wedi'i gefnogi o'r blaen rydym wedi gallu dangos bod gwaith y Celfyddydau ac Iechyd yn cael effaith fuddiol ar draws holl ystod oedran, dosbarth a daearyddiaeth yng Nghymru.*

Bach yw ein hadnoddau o ran Iechyd, a chyn yr argyfwng roedd gennym gynlluniau mawr i ehangu'r rhaglen hon.

Fodd bynnag, mae'r sector iechyd o dan bwysau enfawr na welwyd mo'u tebyg erioed o'r blaen. Dyna pam yr ydym yn glir ynghylch ble y bydd ein hymyriadau yn cael yr effaith fwyaf, a bydd ein gwaith yn 2020/21 yn ymwneud â rhoi ffocws o'r newydd ar sut y gall y celfyddydau sicrhau'r iechyd a lles gorau posibl.

Mae alinio ein gwaith â blaenoriaethau'r Llywodraeth a'r Byrddau Iechyd yn allweddol i hyn, felly hefyd ymateb i'r her o greu ymyriadau y gellir eu cynyddu i raddfa fwy ym meysydd allweddol llesiant ac iechyd poblogaeth Cymru. Ein nod yw sicrhau dull partneriaethol a fydd yn hanfodol er mwyn i'n strategaeth lwyddo.

Ein 3 phrif gam gweithredu:

1. Ymchwilio i ffyrdd o barhau i gefnogi Byrddau Iechyd ledled Cymru drwy rwydwaith cenedlaethol o swyddi Cydgysylltwyr a gyd-ariennir.
2. Cynorthwyo Y Lab (Nesta a Phrifysgol Caerdydd) i gydweithio i ddeall sut y gall ymyriadau celfyddydol chwarae rhan fwy blaenllaw yn iechyd a lles pobl Cymru.
3. Gweithio gyda phartneriaid, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, i ymchwilio i ddulliau effeithiol o ymwreiddio'r celfyddydau yn y strategaethau Rhagnodi Cymdeithasol.

*Gall ymgysylltu'n weithredol â'r celfyddydau weddnewid y ffordd mae plant a phobl ifanc yn dysgu ac yn ymchwilio i'r byd o'u cwmpas. Gall newid y ffordd maen nhw'n gweld eu hunain – hyd yn oed beth maen nhw'n breuddwydio amdano ar gyfer y dyfodol – yn ogystal â'u helpu i feithrin yr hunan-barch a'r hunan-werth a fydd yn rhan mor bwysig o'u sgiliau bywyd yn y dyfodol.*

O'r oedran ifancaf ystyrir llythrennedd a rhifedd yn seiliau i lwyddiant academaidd. Mae llwyddiant mewn bywyd yn dibynnu ar fwy na hynny – sef integreiddio Creadigrwydd. Mae ein strategaeth yn parhau i arloesi ffyrdd y gall mwy o ysgolion fanteisio ar ffyrdd ymarferol o ddod â chyffro ac ysbrydoliaeth y celfyddydau i'r ystafell ddosbarth fel sydd wedi'u hymgorffori yn ein rhaglen Dysgu Creadigol. Caiff ein rhaglen Dysgu Creadigol newydd ei lansio yn 2020/21 a bydd yn gweithio gydag Asiantau Creadigol, Ymarferwyr Creadigol ac ysgolion ar sut y gallwn greu'r effaith fwyaf yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud ac ar ei ôl.

Ein 3 phrif gam gweithredu:

1. Rhoi ar waith blwyddyn gyntaf Cam 2 o'r rhaglen Dysgu Creadigol, gan fynd ymlaen ag elfennau allweddol o'r rhaglen gychwynnol a chefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm ysgolion newydd, sydd â Chreadigrwydd a'r Celfyddydau Mynegiannol yn ganolog iddo.

2. Drwy ein rhaglen Loteri Plant a Phobl Ifanc, cefnogi 5 prosiect arloesol sydd â phobl ifanc yn gyd-gynhyrchwyr, a ddaw o'r cymunedau mwyaf difreintiedig ac yn benodol rhai o gefndiroedd pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac sy'n anabl.

3. Cefnogaeth bellach i'r gwaith o sefydlu Anthem Cronfa Gerdd Cymru a'i gwaith gyda phobl ifanc drwy ymchwilio i opsiynau ar gyfer diogelu'r sefydliad rhag effaith uniongyrchol ystyriaethau Coronafeirws a diogelu mecanweithiau at y dyfodol.



Kizzy Crawford, Derbynwest Dydd Gŵyl Dewi, Dulyn (llun: Aaron Daly Photography)

## Ehangu ein gweithgareddau rhyngwladol

*Mae gweithio'n rhyngwladol yn allweddol i'r broses o ddatblygu gwlad ddynamig a chyffrous, agored a chroesawgar â chreadigrwydd yn ganolog iddi. Fodd bynnag, roedd yn un o'n meysydd gwaith cyntaf a welodd effaith y Coronafeirws/ Covid-19.*

Oherwydd natur anrhagweladwy y pandemig byd-eang hwn, mae'n anodd rhagweld pa mor gyflym y gallwn ailddechrau ein rhaglen lawn o weithgareddau. Fodd bynnag, ar ôl cyfnod maith o synfyfyrio mewnblyg, credwn y bydd cymaint â hynny'n bwysicach i ail-arfarnu (ac ail-fywiogi) partneriaethau a dulliau gweithio rhyngwladol.

Ein celfyddydau, ein diwylliant a'n hieithoedd sy'n rhoi i Gymru ei phersonoliaeth fyd-eang unigryw. Mae'r cyd-destun diwylliannol unigryw hwn yn taro tant gyda llawer o ieithoedd a diwylliannau lleiafrifol eraill a gellir uniaethu â'n stori mewn llawer o fannau o gwmpas y byd.

Mae creu cyd-destun diwylliannol newydd sy'n meithrin dealltwriaeth a goddefgarwch rhyngwladol drwy ymgysylltu â'r cymunedau rhyngwladol amrywiol yng Nghymru, gan sicrhau cyfleoedd cyfartal i bawb a rhannu arferion da o ran gwaith cynhwysol, wrth wraidd ein strategaeth ryngwladol newydd. Daw hyn yn bwysicach byth mewn cyd-destun ôl-Brexit, a ohiriwyd yn sylweddol oherwydd y Coronafeirws/Covid-19, lle bydd rhaid inni ail-ddiffinio ein perthynas ag Ewrop.

Ni fu ymrwymiad y Cyngor i weithio'n rhyngwladol erioed yn bwysicach. Mae strategaeth ryngwladol Cyngor Celfyddydau Cymru yn adlewyrchu blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol ac mae wedi'i bwriadu i gefnogi'r broses o gyflawni strategaeth Llywodraeth Cymru. Rydym yn gweld nifer gynyddol o sefydliadau'n datblygu rhaglenni pwysig o weithgareddau rhyngwladol.

Gall gweithgarwch rhyngwladol greu cyfalaf diwylliannol, codi proffil ac agor marchnadoedd newydd. Er y cydnabyddwn bod llwyddiant rhyngwladol yn 'nod barcut' artistig pwysig, nid rhywbeth er mwyn y lleiafrif yn unig yw gwaith rhyngwladol. Mae artistiaid rhyngwladol a diwylliannau amrywiol yn ysgogi a chysylltu pobl mewn neuaddau cymunedol ledled Cymru. Mae plant a phobl ifanc yn ymgysylltu â cherddoriaeth a chelf o bedwar ban byd yn ddyddiol drwy blatfformau digidol.

Ein 3 phrif gam gweithredu:

1. Rhoi ar waith y camau gweithredu yn Strategaeth Ryngwladol Cyngor y Celfyddydau fel rhan o bartneriaeth fwy ffurfiol â Llywodraeth Cymru ym maes gweithio'n rhyngwladol gan adlewyrchu strategaeth ryngwladol y Llywodraeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar.
2. Adeiladu pontydd diwylliannol â'r cymunedau rhyngwladol sy'n byw a gweithio yng Nghymru, gan fanteisio ar botensial Degawd Ieithoedd Cynhenid UNESCO.
3. Cynnal y deialog presennol â Llywodraeth Cymru, partneriaid a rhwydweithiau rhyngwladol i ddatblygu cyfleoedd ôl-Brexit i'r celfyddydau yng Nghymru.

## Deall effaith ein buddsoddiad

*Mae ymchwil a gwerthuso yn rhan hanfodol o'n gwaith. Mae'n darparu gwybodaeth ar gyfer ein gwaith wrth roi polisïau ar waith a'u monitro, gan roi inni well dealltwriaeth o effaith ein gwaith ariannu a datblygu.*

Tîm ymchwil bach sydd gennym, felly bydd yn bwysig inni feithrin partneriaethau er mwyn ehangu a gwella ein gallu o ran ymchwil. Ar hyn o bryd rydym yn casglu ac yn cadw llawer o ddata, ac mae'n rhaid inni integreiddio a rhannu ein defnydd o'n data er mwyn sicrhau'r wybodaeth, gwaith adrodd ac arbedion effeithlonrwydd mwyaf posibl i'r sefydliad.

Ein 3 phrif gam gweithredu:

1. Cyhoeddi ymchwil sy'n dangos effaith buddsoddiad Cyngor y Celfyddydau.

2. Cyhoeddi ymchwil sy'n disgrifio i ba raddau mae'r cyhoedd yng Nghymru'n mynychu ac yn cymryd rhan yn y celfyddydau.

3. Monitro effaith ein harian Loteri ac adrodd yn ôl yn flynyddol.

## Adolygiad Buddsoddi - gohiriwyd

Mae angen inni ddiogelu ein hyblygrwydd a'n gallu trefniadol er mwyn ymateb i'r annisgwyl. Rydym wedi gohirio Adolygiad Buddsoddi 2020/21 am flwyddyn er mwyn rhyddhau amser y swyddogion ac i osgoi rhoi mwy o waith i staff y Portffolio o dan amgylchiadau mor anodd.

## A ninnau'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru rydym hefyd yn gweithio mewn fframwaith strategol y cytunir arno gyda'r Llywodraeth

Mae'r digwyddiadau cyfredol wedi darbwyllo Llywodraeth Cymru i beidio â chyhoeddi ein Llythyr Cylch Gwaith blynyddol ar gyfer 2020/21. Yn ogystal â chadarnhau cyllid ar gyfer y flwyddyn, mae'r Llywodraeth fel arfer yn nodi'r hyn mae'n ei ddisgwyl gennym yn y Llythyr. Cawsom Lythyr Interim byr yn ei le. Rydym yn ystyriol o'r ffaith nad oes gwarant y byddwn yn cael yr un lefel o gyllid ag a gawn ar hyn o bryd, ac efallai y caiff ei gostwng yn ystod y flwyddyn er mwyn caniatáu i Lywodraeth Cymru ail-ddyrannu'r cyllid i feysydd gwariant eraill. Er bod hyn yn ddealladwy oherwydd y pwysau a ddaw o bandemig y Coronafeirws, byddai gan unrhyw ostyngiadau yn awr oblygiadau (negyddol) sylweddol iawn i'r sector. Rydym yn monitro sefyllfa ein llif arian yn rheolaidd ac yn mynychu cyfarfodydd monitro rheolaidd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru.

Pryder posibl arall yw lefel y cyllid a ddaw o'r Loteri Genedlaethol. Mae'n amhosibl rhagweld beth sy'n debyg o ddigwydd, ond rydym wedi dewis cynllunio ar gyfer cael llai o incwm am y tro.

Bydd 2020/21 yn flwyddyn heriol. Fodd bynnag, rydym yn argyhoeddedig y gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r sector ac i bobl Cymru.

**7,690*** digwyddiad celfyddydol gan ein Portffolio a oedd yn arwain at **2.89 miliwn*** mynychiad

* Mae'r data'n crynhoi canfyddiadau Arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru 2019/20. Rhaid i'r Portffolio lenwi arolwg bob chwe mis fel amod o gael arian. Ar hyn o bryd mae 67 sefydliad yn y Portffolio. Ond oherwydd y coronafeirws, dim ond 50 sefydliad a lenwodd yr arolwg erbyn y dyddiad cau estynedig o 5 Mehefin. Mae'r data yn dod o'r 50 sefydliad yn unig.

# Datganiadau Ariannol
## Gweithgareddau Cyffredinol

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Erthygl 11 o'r Siarter Frenhinol ddyddiedig 30 Mawrth 1994 (fel y'i diwygiwyd) mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi am bob blwyddyn ariannol ddatganiad cyfrifon ar y ffurf ac ar y sail a benderfynir gan Weinidogion Cymru. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Cyngor ac o'i incwm a'i wariant, Mantolen a llifau arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir: Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 ac, i'r graddau ei fod yn egluro neu'n adeiladu ar ofynion y Datganiad, Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a gweithredu polisïau cyfrifyddu addas ar sail gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn y Datganiad a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw; a
- chadarnhau bod yr Adroddiad a Datganiadau Ariannol yn gyffredinol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad a Datganiadau Ariannol a'r farn sy'n ofynnol er mwyn pennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor. Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros gadw cofnodion cywir a thros ddiogelu asedau'r Cyngor, yn y ddogfen Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

A finnau'n Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd pob cam y dylaswn ei gymryd i beri fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilydd y Cyngor yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Cymeradwywyd ar ran y Cyngor:

**Nick Capaldi**, Swyddog Cyfrifyddu
4 Medi 2020

**Phil George,** Cadeirydd
4 Medi 2020

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Ymddiriedolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru

## Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

### Barn

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyfrifon Gweithgareddau Cyffredinol Cyngor Celfyddydau Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 o dan Erthygl 11 o Siarter Frenhinol y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen Gyfunol, y Datganiad Llif Arian Cyfunol a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu pwysig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Cyngor Celfyddydau Cymru ar 31 Mawrth 2020 a'i wariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a

- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Erthygl 11 o Siarter Frenhinol Cyngor Celfyddydau Cymru.

### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r adran datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol o'r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

### Casgliadau yn ymwneud â busnes hyfyw

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu

- nid yw'r Swyddog Cyfrifyddu wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

### Gwybodaeth arall

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad fel archwilydd arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, mae'r gwariant a'r incwm a nodir yn y datganiadau ariannol wedi eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ym mhob ffordd berthnasol ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Adrodd ar ofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Er nad oes unrhyw ofynion deddfwriaethol ar Gyngor Celfyddydau Cymru i baratoi Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff, mae'r Cyngor wedi paratoi'r adroddiad, ac yn fy marn i, mae'r rhan ohono i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Erthygl 11 o Siarter Frenhinol Cyngor Celfyddydau Cymru.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru;

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad ar Berfformiad, Adolygiad Gweithredol ac Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad ar Berfformiad, Adolygiad Gweithredol ac Adroddiad Atebolrwydd wedi'u paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir i Elusennau (FRS102).

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yn sgil gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad ar Berfformiad, Adolygiad Gweithredol ac Adroddiad Atebolrwydd na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- nid yw'r datganiadau ariannol na'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a bennwyd gan Weinidogion Cymru o ran y gydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen ar gyfer fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Erthygl 11 o Siarter Frenhinol Cyngor Celfyddydau Cymru a chyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan honno, am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg ac am y fath reolaeth fewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn y Swyddog Cyfrifyddu i allu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel sy'n gymwys, faterion yn ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio sail gyfrifyddu busnes hyfyw oni thybir nad yw hynny'n briodol.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

## Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Rwy'n cael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd, CF11 9LJ

10 Medi 2020

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw hygrededd gwefan Cyngor Celfyddydau Cymru a'r gwaith o gynnal y wefan honno; nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilwyr yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldebau am unrhyw newidiadau a allai fod wedi cael eu cyflwyno i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

# Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 mawrth 2020

| | Nodyn | Cronfeydd anghyfyngedig £'000 | **Cronfeydd cyfyngedig** £'000 | **2019/20 Cyfanswm** £'000 | 2018/19 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| INCWM | | | | | |
| Rhoddion: | | | | | |
| Cymorth grant oddi wrth Lywodraeth Cymru | | 31,282 | 300 | 31,582 | 31,627 |
| Grantiau a rhoddion eraill | 3 | - | 3,984 | 3,984 | 3,194 |
| | | 31,282 | 4,284 | 35,566 | 34,821 |
| Incwm o weithgareddau elusennol: | | | | | |
| Gwasanaethau a nawdd | 4 | 180 | - | 180 | 186 |
| Incwm o fuddsoddiadau: | | | | | |
| Llog banc | | 11 | 3 | 14 | 23 |
| Incwm arall | 5 | 27 | - | 27 | 356 |
| **Cyfanswm incwm** | | **31,500** | **4,287** | **35,787** | 35,386 |
| GWARIANT | | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 6 | 31,703 | 4,003 | 35,706 | 35,933 |
| Costau llywodraethu | 8 | 76 | - | 76 | 75 |
| Llog banc a ildiwyd i Gronfa Gyfunol Cymru | | 11 | - | 11 | 14 |
| **Cyfanswm gwariant** | | **31,790** | **4,003** | **35,793** | 36,022 |
| **Incwm net (gwariant)** | | **(290)** | **284** | **(6)** | (636) |
| Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd | 15 | (97) | 97 | - | - |
| **Symudiad net mewn cronfeydd** | | **(387)** | **381** | **(6)** | (636) |
| **Cysoni cronfeydd** | | | | | |
| Balansau cronfeydd a ddygwyd ymlaen | 15 | 2,383 | 463 | 2,846 | 3,482 |
| **Cyfanswm yr arian a gariwyd ymlaen** | | **1,996** | **844** | **2,840** | 2,846 |

Nid oes unrhyw enillion na cholledion ac eithrio'r rhai a ddangosir uchod.

Nid oes unrhyw weithgareddau sydd wedi peidio ac ni chafwyd unrhyw gaffaeliadau yn ystod y flwyddyn.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 130  i 157 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Mantolen Gyfunol

ar 31 Mawrth 2020

| | | 31 Mawrth 2020 | | 31 Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau sefydlog anniriaethol | 9a | | 2 | | - |
| Asedau sefydlog diriaethol | 9b | | 91 | | 106 |
| **Cyfanswm asedau sefydlog** | | | **93** | | 106 |
| | | | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Grantiau a dalwyd ymlaen llaw | 10 | 140 | | 302 | |
| Dyledwyr | 11 | 2,079 | | 1,701 | |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | | 2,301 | | 2,448 | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **4,520** | | 4,451 | |
| | | | | | |
| **Rhwymedigaethau:** yn ddyledus o fewn blwyddyn | | | | | |
| Credydwyr | 12a | (1,744) | | (1,710) | |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau | 13 | - | | - | |
| | | (1,744) | | (1,710) | |
| **Asedau cyfredol net** | | | **2,776** | | 2,741 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | **2,869** | | 2,847 |
| | | | | | |
| Credydwyr: yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | | | | | |
| Credydwyr | 12b | (29) | | (1) | |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau | 13 | - | | - | |
| | | | (29) | | (1) |
| | | | | | |
| **Asedau net** | | | **2,840** | | 2,846 |
| | | | | | |
| **Arian yr elusen** | | | | | |
| Cronfeydd anghyfyngedig | 15 | | 1,996 | | 2,383 |
| Cronfeydd cyfyngedig | 15 | | 844 | | 463 |
| | | | **2,840** | | 2,846 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 130 i 157 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'u llofnodi ar ei ran gan

Nicholas Capaldi

**Nicholas Capaldi**, Swyddog Cyfrifyddu
4 Medi 2020

Phil George

**Phil George**, Cadeirydd
4 Medi 2020

# Datganiad Cyfunol Llifau Arian Parod

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

| | Note | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu | 17a | (105) | (837) |
| Mewnlif arian parod net o weithgareddau buddsoddi | 17b | 3 | 9 |
| All-lif arian parod net cysylltiedig ag asedau cyfalaf | 17c | (45) | (91) |
| **Newid mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn ystod y flwyddyn** | | **(147)** | (919) |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod a ddygwyd ymlaen | | 2,448 | 3,367 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod a gariwyd ymlaen | | **2,301** | 2,448 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 130 i 157 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Nodiadau sy'n rhan o'r datganiadau ariannol
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

## 1. Polisïau cyfrifyddu

### a. Sail y paratoi

Paratoir y datganiadau ariannol hyn ar sail busnes hyfyw ac o dan y confensiwn cost hanesyddol a addasir i gynnwys rhai asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r Cyngor ar sail cost gyfredol. Fe'u paratowyd yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru a bodlonant ofynion Deddfau Elusennau 2006, 2011 a 2016, y Datganiad o Arfer a Argymhellir: Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 a'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102). Yn ogystal â chydymffurfio â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir, rhoddir ystyriaeth i ofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi i'r graddau ei fod yn egluro neu'n adeiladu ar ofynion y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir. Nodir isod grynodeb o'r prif bolisïau cyfrifyddu sydd wedi'u cymhwyso'n gyson.

**Effaith safonau nad ydynt mewn grym eto**

Caiff cymhwyso unrhyw safonau cyfrifyddu newydd neu ddiwygiedig ei lywodraethu pan gânt eu mabwysiadu gan y Comisiwn Elusennau a'r Llawlyfr Adrodd Ariannol.  Mae'r Cyngor yn cymhwyso newidiadau i safonau pan ddônt i rym. Nid oes unrhyw effeithiau perthnasol hysbys o newidiadau i safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd ac nad ydynt mewn grym eto ar y datganiadau ariannol yn y cyfnod cymhwyso cyntaf.

### b. Is-gymeriadau – Cerdd Cymru:Music Wales Limited

Mae Cerdd Cymru:Music Wales yn gwmni masnachu preifat, wedi'i gyfyngu drwy warant a'i gofrestru yng Nghymru (rhif 7759122). Fe'i corfforwyd ar 1 Medi 2011 fel cyd-drefniant 50% gyda Sefydliad Cerddoriaeth Cymru i ddatblygu a gwella, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, wybodaeth, dealltwriaeth, ymarfer a chynaliadwyedd y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol, ac yn arbennig cerddoriaeth, yng Nghymru.

Daeth Cerdd Cymru:Music Wales Limited yn is-gwmni dan berchnogaeth lwyr y Cyngor yn ystod 2016/17 yn dilyn datodiad Sefydliad Cerddoriaeth Cymru.

Mae trafodion yr is-gwmni wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol cyfunol yn ôl y dull 'llinell wrth linell' (gweler nodyn 20).

### c. Incwm

Rhoddir cyfrif am bob incwm ar sail croniadau, heblaw am gymynroddion, rhoddion ariannol a rhoddion a gydnabyddir dim ond pan ddônt i law. Trinnir grantiau cyfalaf sy'n dderbyniadwy fel incwm.

Ni chofnodir unrhyw incwm heb wariant yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

d. **Dosbarthu arian y Loteri**

Nid yw'r datganiadau ariannol hyn yn ymdrin â swyddogaeth y Cyngor o ran dosbarthu arian y Loteri y paratowyd datganiadau ariannol ar wahân ar ei chyfer yn unol â'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Â'r Cyngor i gostau sy'n cynnal ei weithgareddau cyffredinol a'i swyddogaethau o ran dosbarthu arian y Loteri. Yn unol â'i Gyfarwyddiadau Ariannol mae'r Cyngor yn dosrannu costau anuniongyrchol yn briodol rhwng y ddau faes gweithgarwch hyn gan gyfeirio at yr amser a dreuliwyd ar y gweithgareddau priodol neu'r adnoddau perthnasol a ddefnyddiwyd ganddynt.

Fel arfer caiff y dosraniadau eu hadolygu pob dwy flynedd a phryd bynnag y ceir newid arwyddocaol i'r strwythur staff neu'r rhaglenni gweithgareddau.

e. **Gwariant**

Rhoddir cyfrif am bob gwariant ar sail croniadau ac mae wedi'i ddosbarthu o dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Lle na ellir priodoli costau'n uniongyrchol i benawdau penodol maent wedi'u dyrannu i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o'r adnoddau.

f. **Grantiau a ddyfarnwyd**

Ceir gwariant cymhorthdal ar ffurf grantiau a gynigir yn ffurfiol i sefydliadau a gyllidir gan y Cyngor. Caiff grantiau eu cynnig i gynnal rhaglen o weithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer blwyddyn ariannol benodol, neu sy'n cychwyn ynddi, a gan amlaf, cânt eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y flwyddyn honno.

Ni chaiff blaenymrwymiadau a wneir yn y flwyddyn sy'n gysylltiedig â gweithgarwch y flwyddyn nesaf, fel y'u datgelir yn nodyn 19, eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Ni ellir cydnabod y cymorth grant i gyflawni'r ymrwymiadau hyn nes ei fod wedi dod i law, felly nid ydym wedi gallu cymhwyso holl egwyddorion paragraff 7 o'r Datganiad Arferion a Argymhellir. Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn credu y byddai cynnwys y blaenymrwymiadau'n rhoi darlun gwir a theg o'r ffordd y defnyddir adnoddau'r Cyngor.

Caiff grantiau heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn eu dangos fel credydwyr yn y Fantolen. Caiff unrhyw daliadau ymlaen llaw a wnaed mewn perthynas â grantiau a gymeradwywyd sy'n gysylltiedig â gweithgareddau yn y flwyddyn nesaf eu dangos yn y Fantolen fel asedau cyfredol.

Rhestrir yr holl grantiau a gynigiwyd yn yr atodiad i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

g. **Gwasanaethau a nawdd**

Mae gwasanaethau a nawdd yn cynnwys y costau uniongyrchol, gan gynnwys staff a dibrisiad, y gellir eu priodoli i weithgareddau elusennol.

h. **Dyrannu costau gweithredu**

Mae costau gweithredu wedi cael eu dyrannu yn y lle cyntaf rhwng gweithgareddau elusennol a llywodraethu. Mae costau gweithredu sy'n gysylltiedig â gweithgareddau elusennol wedi cael eu dosrannu i adlewyrchu'r amser mae'r staff yn ei dreulio wrth ddarparu gweithgareddau uniongyrchol ac i gynorthwyo â'r gwaith o'u darparu. Mae dyraniad a dadansoddiad y costau hyn yn nodiadau 6 a 7.

i. **Costau llywodraethu**

Mae costau llywodraethu yn cynnwys pob cost sy'n ymwneud ag atebolrwydd cyhoeddus y Cyngor fel elusen a'i gydymffurfiaeth â rheoleiddio ac arferion da. Dadansoddir y costau hyn yn nodyn 8.

j. **Arian tramor**

Caiff arian refeniw a gafwyd a gwariant yr aed iddo mewn arian tramor eu trosi yn unol â'r gyfradd gyfnewid oedd yn weithredol ar adeg y trafodyn. Caiff balansau a ddelir mewn arian tramor eu trosi yn unol â'r gyfradd oedd yn weithredol ar ddyddiad y Fantolen. Caiff trafodion a balansau a gwmpesir gan flaengontractau eu trosi yn unol â chyfradd y contract.

k. **Cydnabod rhwymedigaethau**

Cydnabyddir rhwymedigaethau pan fo rhwymedigaeth yn codi i drosglwyddo buddion economaidd o ganlyniad i drafodion neu ddigwyddiadau yn y gorffennol.

l. **Cyfrifyddu cronfeydd**

Cronfeydd cyfyngedig yw'r rheiny sydd i gael eu defnyddio yn unol â chyfyngiadau penodol a orfodir gan roddwyr neu sydd wedi'u codi gan y Cyngor at ddibenion penodol. Mae'r gost o godi a gweinyddu cronfeydd o'r fath wedi'i chodi ar y gronfa benodol. Nodir amcan a defnydd pob cronfa gyfyngedig yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Cronfeydd anghyfyngedig yw'r rheiny sydd ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn y Cyngor i hyrwyddo amcanion ei siarter ac nad ydynt wedi'u dynodi at ddibenion eraill.

Lle dyrennir costau cynnal i weithgareddau elusennol cyfyngedig trosglwyddir swm o'r cronfeydd anghyfyngedig i dalu'r costau hyn.

m. **Asedau sefydlog**

Mae'r Cyngor yn berchen ar ddau eiddo rhydd-ddaliadol, Theatr Sherman a Stiwdio Rubicon Dance, sydd wedi'u gosod ar brydlesi hir am rent rhad i denantiaid na chânt eu rheoli gan y Cyngor a heb unrhyw ddarpariaeth i'r Cyngor eu hailfeddiannu. Ar sail cyngor gan syrfewyr siartredig allanol ac annibynnol, bernir bod gwerth gweddilliol y buddiannau rhydd-ddaliadol hyn yn fach iawn felly caiff yr asedau hyn eu dal yn y cyfrifon ar ddim gwerth.

Trinnir costau datblygu gwefan, yn unol â FRS 102, fel asedau sefydlog diriaethol.

Trinnir trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol fel asedau sefydlog anniriaethol os cwmpasant fwy na blwyddyn.

Ac eithrio eiddo rhydd-ddaliadol, caiff yr holl asedau sefydlog diriaethol ac anniriaethol eu cynnwys ar gost hanesyddol llai lwfans am ddibrisiad ac amorteiddiad. Ym marn y Cyngor, nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y gwerth ar bapur a gwerth y farchnad.

## n. Amorteiddiad a dibrisiad

Caiff asedau unigol sy’n costio £1,000 neu fwy eu cyfalafu a darperir blwyddyn gyfan o amorteiddiad neu ddibrisiad ym mlwyddyn eu caffael. Darperir amorteiddiad ar asedau sefydlog anniriaethol a dibrisiad ar asedau sefydlog diriaethol ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu cost neu brisiad pob ased i’w werth gweddilliol ar sail linol dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol | dros 3 blynedd |
| Gwelliannau prydlesol | dros gyfnod y brydles |
| Celfi, gosodiadau a ffitiadau | dros 10 mlynedd |
| Offer | dros 4 blynedd |
| Costau datblygu gwefan | dros 3 blynedd |
| System gyfrifiadurol | dros 3 blynedd |

## o. Prydlesi

Caiff costau prydlesi gweithredu eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar sail linol dros oes y brydles.

## p. Pensiynau

Mae’r Cyngor yn gyflogwr sydd wedi’i dderbyn i Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994 sy’n darparu buddion diffiniedig i gyflogeion y Cyngor. Caiff costau cyfraniadau’r Cyngor eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol fel y gellir lledaenu cost pensiynau dros oes waith y cyflogeion.

Mae’r Cynllun yn gynllun buddion diffiniedig a gyllidir a hefyd yn gynllun cyflogwyr lluosog lle na all y cyflogwyr sy’n cyfranogi nodi eu cyfrannau o’r asedau a’r rhwymedigaethau sylfaenol. Felly rhoddwyd cyfrif am y cynllun fel pe bai’n gynllun cyfraniadau diffiniedig, yn unol â FRS 102. Mae’r Cyngor wedi gwneud taliadau i gyllido diffyg sy’n gysylltiedig â gwasanaeth a roddwyd. Os oes angen rhagor o daliadau tuag at y diffyg yn dilyn ailbrisiadau yn y dyfodol, bydd y Cyngor yn cydnabod darpariaeth ar gyfer gwerth presennol cyfraniadau sy’n daladwy yn unol â thelerau unrhyw gytundeb cyllido perthnasol. Caiff pob cyfraniad tuag at y diffyg ei godi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

Mae gan y Cyngor hefyd gynllun cyfraniadau diffiniedig, Pensiwn y Bobl, fel dewis amgen i ddiwallu anghenion deddfwriaeth Cofrestru Awtomatig. Rhoddir cyfrif am y cynllun yn unol â FRS 102.

q. **Trethiant**

Caiff Treth Ar Werth nad oes modd ei hadennill sy'n deillio o wariant ar weithgareddau nad ydynt yn rhai busnes ei chodi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol neu ei chyfalafu fel ased sefydlog lle bo'n berthnasol.

r. **Offerynnau ariannol**

Asedau ariannol: Nid yw dyledwyr masnachol yn cario unrhyw log a chânt eu datgan ar eu gwerth nominal fel y'i gostyngir gan lwfansau priodol ar gyfer symiau amcangyfrifedig nad oes modd eu hadennill. Mae arian parod yn cynnwys arian mewn llaw ac arian yn y banc ac arian wedi'i gadw ar adnau tymor byr ar delerau sy'n caniatáu ei gael ar unrhyw adeg.

Rhwymedigaethau ariannol: Nid yw credydwyr masnachol yn cario llog a chânt eu datgan ar eu gwerth nominal.

## 2. Gweithgareddau cyffredinol a dosbarthu arian y Loteri: incwm cyfunol a gwariant elusennol ar y celfyddydau

Dengys y cyfrif dosbarthu arian y Loteri sydd ar wahân mai £17,761,000 (2018/19: £16,000,000) oedd cyfran y Cyngor o'r arian oddi wrth y Loteri Genedlaethol yn 2019/20. Ar gyfer 2019/20, cyfanswm cyfunol yr incwm o weithgareddau cyffredinol a'r Loteri oedd £53,687,000 (2018/19: £51,524,000). Ar gyfer 2019/20, cyfanswm cyfunol y gwariant elusennol uniongyrchol ar y celfyddydau oedd £48,433,000 (2018/19: £47,886,000).

## 3. Incwm

### Rhoddion: Grantiau a rhoddion eraill

| | Cronfeydd anghyfyngedig | Cronfeydd cyfyngedig | 2019/20 Cyfanswm | 2018/19 Cyfanswml |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| *Rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau* (nodyn 21): | | | | |
| Grant gan Lywodraeth Cymru | - | 2,000 | 2,000 | 1,997 |
| Grant gan y Loteri i Gyngor Celfyddydau Cymru | - | 1,299 | 1,299 | 1,081 |
| Grantiau'r flwyddyn flaenorol a ad-dalwyd | - | 7 | 7 | 12 |
| Cyfraniad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cymru Ryngwladol | - | 425 | 425 | 60 |
| Cyfraniad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau eraill | - | 179 | 179 | 33 |
| Cyfraniad gan Lywodraeth Cymru (Hyrwyddwyr Ifainc) | - | 10 | 10 | - |
| Rhoddion preifat | - | 64 | 64 | 8 |
| Ymddiriedolaeth Eirian Llwyd | - | - | - | 3 |
| | - | **3,984** | **3,984** | 3,194 |

## 4. Incwm o weithgareddau elusennol - Gwasanaethau a nawdd

| | Cronfeydd anghyfyngedig | Cronfeydd cyfyngedig | 2019/20 Cyfanswm | 2018/19 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cynllun *Noson Allan:* | | | | |
| - cyfraniadau gan leoliadau/hyrwyddwyr | 136 | - | 136 | 141 |
| Celfyddydau Rhyngwladol Cymru: | | | | |
| - cyfraniadau gan Lywodraeth Cymru | 2 | - | 2 | 9 |
| *Cynllun Casglu* - ffioedd orielau | 33 | - | 33 | 34 |
| Incwm arall | 9 | - | 9 | 2 |
| | **180** | - | **180** | 186 |

## 5. Incwm arall

| | Cronfeydd anghyfyng-edig | Cronfeydd cyfyngedig | 2019/20 Cyfanswm | 2018/19 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyfraniad o gyfrif Dosbarthu Arian y Loteri: | | | | |
| am ddefnyddio asedau sefydlog | 27 | - | 27 | 12 |
| am daliad blynyddol tuag at y diffyg pensiynau | - | - | - | 193 |
| Incwm Cerdd Cymru:Music Wales (nodyn 20) | - | - | - | 150 |
| Derbyniadau o waredu asedau diriaethol | - | - | - | 1 |
| | **27** | - | **27** | 356 |

## 6. Gwariant – Gweithgareddau elusennol

| | Gweithgareddau union-gyrchol | Arian grant[1] | Costau cynnal[2] | 2019/20 Cyfanswm | 2018/19 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rhoi grantiau a datblygu'r celfyddydau | 730 | 27,864 | 1,872 | 30,466 | 29,850 |
| Rhaglen *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau* (nodyn 21) | 1,368 | 1,612 | 36 | 3,016 | 3,301 |
| Strategaeth y celfyddydau | 412 | - | 27 | 439 | 1,313 |
| Rhyngwladol | 820 | - | 54 | 874 | 511 |
| Gwasanaethau: *Noson Allan* a'r *Cynllun Casglu* | 595 | - | 39 | 634 | 584 |
| Dadleuaeth ac ymchwil | 260 | - | 17 | 277 | 211 |
| Gwariant Cerdd Cymru: Music Wales (nodyn 20) | - | - | - | - | 163 |
| | 4,185 | 29,476 | 2,045 | 35,706 | 35,933 |
| O gronfeydd anghyfyngedig | | | | 31,703 | 31,290 |
| O gronfeydd cyfyngedig | | | | 4,003 | 4,643 |
| | | | | 35,706 | 35,933 |

[1] Arian grant:

| | I sefydliadau | I unigolion | 2019/20 Total | 2018/19 Total |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| O gronfeydd anghyfyngedig | | | | |
| Portffolio Celfyddydol Cymru | 26,490 | - | 26,490 | 26,490 |
| Dyfarniadau strategol | 862 | 62 | 924 | 820 |
| O gronfeydd cyfyngedig | | | | |
| Portffolio Celfyddydol Cymru | 300 | - | 300 | 300 |
| Rhaglen *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau* | 1,612 | - | 1,612 | 1,560 |
| Dyfarniadau strategol | 150 | - | 150 | - |
| Dyfarniadau coffa | - | - | - | 6 |
| | 29,414 | 62 | 29,476 | 29,176 |

Rhestrir yr holl grantiau yn yr atodiad i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

[2] Costau cynnal

| | Costau gros | Didynnu taliadau a ailgodwyd ar Gronfa Dosbarthu Arian y Loteri | 2019/20 Swm net a godir ar Weith-gareddau Cyffredinol | 2018/19 Swm net a godir ar Weith-gareddau Cyffredinol |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Staff a chostau cysylltiedig | 2,417 | 1,123 | 1,294 | 1,291 |
| Pensiynau | 400 | 188 | 212 | - |
| Seilwaith | 698 | 327 | 371 | 350 |
| Costau rhedeg swyddfa | 11 | 5 | 6 | 18 |
| Ffioedd proffesiynol a hyrwyddo | 138 | 98 | 40 | 37 |
| Darpariaethau | - | - | - | (49) |
| TAW nad oes modd ei hadennill | 145 | 81 | 64 | 73 |
| Amorteiddiad a dibrisiad | 58 | - | 58 | 27 |
| | 3,867 | 1,822 | 2,045 | 1,747 |

## 7. Costau staff

### a. Mae cyfanswm costau staff yn cynnwys:

| | Cyflogwyd yn barhaol | Arall | Costau gros | Didynnu taliadau a ailgodwyd ar Gronfa Dosbarthu Arian y Loteri | 2019/20 Swm net a godir ar Weith-gareddau Cyffredinol | 2018/19 Swm net a godir ar Weith-gareddau Cyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 2,665 | 526 | 3,191 | 808 | 2,383 | 2,231 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 253 | 53 | 306 | 79 | 227 | 226 |
| Costau pensiwn eraill | 513 | 81 | 594 | 164 | 430 | 465 |
| Ardoll brentisiaethau | 1 | - | 1 | - | 1 | - |
| Costau dileu swyddi | 32 | - | 32 | - | 32 | - |
| Costau asiantaeth | - | 3 | 3 | 1 | 2 | 5 |
| | 3,464 | 663 | 4,127 | 1,052 | 3,075 | 2,927 |

| | Costau gros | Didynnu | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|
| Caiff costau staff eu corffori yn y datganiadau ariannol fel a ganlyn: | | | | |
| A godir ar Weithgareddau Uniongyrchol (nodyn 6) | 1,852 | - | 1,852 | 1,681 |
| A godir ar Gostau Cynnal (nodyn 6) | 2,226 | 1,036 | 1,190 | 1,213 |
| A godir ar Lywodraethu (nodyn 6) | 49 | 16 | 33 | 33 |
| | 4,127 | 1,052 | 3,075 | 2,927 |

Nifer gyfartalog y staff (cyfwerth ag amser llawn)
a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn oedd:

| | Cyflogwyd yn barhaol | Arall | Ar draws y Cyngor cyfan | Ar weith-gareddau Dosbarthu Arian y Loteri | 2019/20 Ar Weith-gareddau Cyffredinol | 201819 Ar Weith-gareddau Cyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar weithgareddau elusennol: | | | | | | |
| a godir yn uniongyrchol | 7 | 13 | 20 | - | 20 | 19 |
| a ailgodwyd | 28 | - | 28 | - | 28 | 25 |
| I gynorthwyo â'n gweithgareddau elusennol | 31 | 2 | 33 | 24 | 9 | 10 |
| Staff asiantaeth | - | - | - | - | - | 0 |
| | **66** | **15** | **81** | **24** | **57** | 54 |

**Cyfansoddiad y staff ar 31 Mawrth**

| (cyfwerth ag amser llawn – y Cyngor cyfan) | 2020 Gwryw | 2020 Benyw | 2020 Cyfanswm | 2019 Gwryw | 2019 Benyw | 2019 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Uwch Tîm Arwain | 1 | 3 | 4 | 2 | 3 | 5 |
| Rheolwyr Portffolio / Penaethiaid Adrannau | 6 | 8 | 14 | 6 | 8 | 14 |
| Uwch Swyddogion | 9 | 7 | 16 | 9 | 5 | 14 |
| Swyddogion/Swyddogion Datblygu | 7 | 21 | 28 | 9 | 22 | 31 |
| Cydgysylltwyr Timau / Cynorthwywyr Personol | 2 | 14 | 16 | 2 | 14 | 16 |
| | **25** | **53** | **78** | 28 | 52 | 80 |
| | 32% | 68% | | 35% | 65% | |

| | 2020 | 2019 |
|---|---|---|
| Dyma'r gydnabyddiaeth ariannol flynyddol ganolrifol (cyfwerth ag amser llawn) ar 31 Mawrth (y Cyngor cyfan): | £33,063 | £33,062 |
| Dyma ystod y gydnabyddiaeth ariannol flynyddol (cyfwerth ag amser llawn) ar 31 Mawrth (y Cyngor cyfan): | £21,013 i £99,346 | £21,012 i £99,341 |
| Dyma'r gymhareb rhwng y gydnabyddiaeth ariannol flynyddol ganolrifol a chydnabyddiaeth ariannol flynyddol yr aelod o'r staff â'r cyflog uchaf (y Cyngor cyfan): | 1:3 | 1:3 |

**Cynlluniau iawndal – pecynnau ymadael** (y Cyngor cyfan):

| **Band cost y pecyn ymadael** | **Nifer y diswyddiadau gorfodol** | | **Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt** | | **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2019/20** | 2018/19 | **2019/20** | 2018/19 | **2019/20** | 2018/19 |
| Hyd at £10,000 | 4 | - | - | - | 4 | - |
| £10,001 i £25,000 | 1 | - | - | - | 1 | - |
| **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael** | 5 | - | - | - | 5 | - |
| **Cyfanswm costau** (£'000) | 32 | - | - | - | 32 | - |

Mae costau dileu swyddi wedi cael eu pennu yn unol â darpariaethau polisi'r Cyngor ar ddileu swyddi. Fel arfer mae'r Cyngor yn talu costau ymadael pan fo'r gyflogaeth yn dod i ben ond yn darparu ar gyfer y costau ymadael yn llawn ar yr adeg pan fo gwybodaeth ddigon manwl ar gael i wneud hynny.

Codwyd 100% o'r costau yn y datganiadau ariannol hyn.

b. Y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr – yr Uwch Tîm Arwain – sy'n gyfrifol am gyfarwyddo gweithgareddau'r Cyngor. Roedd eu gwir daliadau a'u buddion pensiwn fel y'u dangosir yn y tablau canlynol.

Mae swm y buddion pensiwn am y flwyddyn sy'n cyfrannu at gyfanswm ffigurau unigol cydnabyddiaeth ariannol yn cael ei gyfrifo mewn ffordd debyg i'r dull a ddefnyddir i ddeillio gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth, ac wedi'i seilio ar wybodaeth a gafwyd oddi wrth actiwari Cynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994.

Dyma sut y cyfrifir gwerth buddion pensiwn:

(gwir gynnydd yn y pensiwn* x 20) + (gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad) – (cyfraniadau a wnaed gan yr aelod)

*gan eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu leihad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn

Nid swm yw hwn a dalwyd i unigolyn gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn, ond cyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall llawer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn, e.e. newidiadau yng nghyflog rhywun, a yw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol at y cynllun pensiwn o'i gyflog ai peidio, a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn gyffredinol.

Cyfanswm ffigurau unigol cydnabyddiaeth ariannol yr Uwch Tîm Arwain:

| | 2019/20 | | | 2018/19 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw**<br>Swydd | **Band taliadau**<br>£'000 | **Buddion pensiwn**<br>£'000 | **Cyfanswm unigol cydnabyddiaeth ariannol**<br>£'000 | Band taliadau<br>£'000 | Buddion pensiwn<br>£'000 | Cyfanswm unigol cydnabyddiaeth ariannol<br>£'000 |
| **Nicholas Capaldi**<br>Prif Weithredwr | 95-100 | 24 | 120-125 | 95-100 | 16 | 110-115 |
| **David Alston**<br>Cyfarwyddwr y Celfyddydau hyd 31 Ionawr 2019<br>Cyfwerth â blwyddyn lawn | - | - | - | 65-70<br>70-75 | 9 | 75-80 |
| **Katherine Davies**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannu'r Celfyddydau hyd 31 Rhagfyr 2019<br>Cyfwerth â blwyddyn lawn | 55-60<br>70-75 | 16 | 70-75 | 70-75 | 2 | 70-75 |
| **Diane Hebb**<br>Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Celfyddydau | 70-75 | 19 | 90-95 | 70-75 | 9 | 80-85 |
| **Rebecca Nelson**<br>Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes o 17 Mehefin 2019 ymlaen<br>Cyfwerth â blwyddyn lawn | 55-60<br>70-75 | 13 | 65-70 | - | - | - |
| **Siân Tomos**<br>Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau | 70-75 | 22 | 95-100 | 70-75 | 6 | 75-80 |
| **Gwyn Williams** (0.6 FTE)<br>Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes hyd 31 Mawrth 2019 | - | - | - | 40-45 | 10 | 50-55 |

Buddion pensiwn yr Uwch Tîm Arwain:

| | 2019/20 | 2019/20 | 2019/20 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Enw<br>*Swydd* | Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig yn 65 oed | Cyfanswm pensiwn cronedig yn 65 oed ar 31/03/20 a chyfandaliad cysylltiedig | Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod[1] neu'r dyddiad ymadael os yw'n gynharach | Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod ar 31/03/19 | Gwir gynnydd[2] yn y Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Nicholas Capaldi**<br>*Prif Weithredwr* | Pensiwn 0-2.5<br>Cyfandaliad 2.5-5 | Pensiwn 10-15<br>Cyfandaliad 40-45 | 309 | 264 | 22 |
| **Katherine Davies**<br>*Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannu'r Celfyddydau*<br>hyd 31 Rhagfyr 2019 | Pensiwn 0-2.5<br>Cyfandaliad 0-2.5 | Pensiwn 25-30<br>Cyfandaliad 85-90 | 630 | 574 | 14 |
| **Diane Hebb**<br>*Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Celfyddydau* | Pensiwn 0-2.5<br>Cyfandaliad 2.5-5 | Pensiwn 15-20<br>Cyfandaliad 50-55 | 400 | 355 | 18 |
| **Rebecca Nelson**<br>*Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes*<br>o 17 Mehefin 2019 ymlaen | Pensiwn 0-2.5<br>Cyfandaliad 0-2.5 | Pensiwn 0-5<br>Cyfandaliad 0-5 | 12 | N/A | 9 |
| **Siân Tomos**<br>*Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau* | Pensiwn 0-2.5<br>Cyfandaliad 5-7.5 | Pensiwn 25-30<br>Cyfandaliad 80-85 | 600 | 527 | 20 |

[1] **Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod** - Ystyr Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalafol buddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol ac a aseswyd gan actiwari. Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol a ddelir i'w briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymdrin â'r buddion mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w holl aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronnodd yr aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Caiff Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod eu cyfrifo yn unol â'r canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan y Sefydliad a'r Gyfadran Actiwariaid ac nid ydynt yn cymryd i ystyriaeth unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

[2] **Gwir gynnydd mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod** - Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a gyllidir, i bob pwrpas, gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Caiff y Cadeirydd, gyda chymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau, gydnabyddiaeth ariannol am ei wasanaethau ond ni chaiff unrhyw daliadau bonws ac nid yw'n aelod o'r cynllun pensiwn. Nid yw Aelodau eraill o'r Cyngor nac Aelodau o'r Pwyllgorau yn cael unrhyw dâl am eu gwasanaethau. Mae costau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2019/20 yn cynnwys swm crynswth o £15,216 (2018/19: £10,136) a ad-dalwyd i 14 (2018/19: 10) o aelodau o'r Cyngor.

Roedd cyfanswm y gwir daliadau i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cynnwys:

| | 2019/20<br>£ | 2018/19<br>£ |
|---|---|---|
| **Cadeirydd** | | |
| Cyflog | 43,810 | 43,810 |
| **Prif Weithredwr** | | |
| Cyflog | 99,346 | 99,341 |
| Cyfraniad pensiwn y cyflogwr | 21,260 | 21,259 |
| | 120,606 | 120,600 |

Caiff 68% (2018/19: 68%) o daliadau'r Cadeirydd a 70% (2018/19: 70%) o daliadau'r Prif Weithredwr eu codi yn y datganiadau ariannol hyn a chaiff y gweddill eu codi ar weithgareddau dosbarthu arian y Loteri.

Costau teithio a chynhaliaeth yr aed iddynt ac a ad-dalwyd ar fusnes y Cyngor:

| | 2019/20<br>£ | 2018/19<br>£ |
|---|---|---|
| Cadeirydd | 4,631 | 3,628 |
| Prif Weithredwr | 5,963 | 9,188 |

Caiff 53% (2018/19: 54%) o dreuliau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr eu codi yn y datganiadau ariannol hyn a chaiff y gweddill eu codi ar weithgareddau dosbarthu arian y Loteri.

c. Mae'r rhan fwyaf o'r cyflogeion yn aelodau o Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Mae'r gronfa yn gynllun buddion diffiniedig. Mae hefyd yn gynllun cyflogwr lluosog felly ni all y Cyngor nodi ei gyfran o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Felly rhoddwyd cyfrif am y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig, yn unol â FRS 102.

Fel arfer digwydd prisiad actiwaraidd annibynnol o Bensiwn Ymddeol Cyngor y Celfyddydau pob tair blynedd. Daeth y prisiad diweddaraf, fel ar 31 Mawrth 2019, i rym ar 1 Ebrill 2020. Cyflwynodd y prisiad gyfraddau cyfrannu newydd i'r Cyngor o ran cronni buddion. Mae'n rhagdybio gofyniad parhaus i lefel leiaf o daliadau gael eu gwneud pob blwyddyn tuag at ddiffyg gwasanaeth y gorffennol, ar gyfradd a argymhellir gan actiwari'r cynllun, hyd 31 Mawrth 2029.

Gan dybio y byddai'r symiau a argymhellwyd yn cael eu talu i'r Cynllun, roedd yr actiwari o'r farn bod adnoddau'r cynllun yn debygol, yn nhrefn arferol pethau, o gyflawni'n llawn holl rwymedigaethau'r cynllun wrth iddynt ddod yn ddyledus. Dyma'r prif ragdybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd:

- Codiadau yn y Mynegai Prisiau Adwerthu (RPI) – cromlin chwyddiant y RPI a ymhlygir gan y farchnad gyda lwfans am bremiwm risg chwyddiant o 0.3% y flwyddyn
- Codiadau yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) – cromlin RPI llai 1.0% y flwyddyn
- Codiadau pensiwn – cyfwerth â'r rhagdybiaeth berthnasol ynghylch chwyddiant
- Codiadau cyflog – yn unol â chwyddiant CPI
- Cyfradd disgownt (gwasanaeth y gorffennol) - cromlin arenillion giltiau a ymhlygir gan y farchnad plws 1.25%  y flwyddyn
- Cyfradd disgownt (gwasanaeth y dyfodol) – cromlin arenillion giltiau a ymhlygir gan y farchnad plws 1.60% y flwyddyn

Dyma'r cyfraniadau gan y Cyngor a'i gyflogeion:

| I staff a ymaelododd â'r Cynllun: | Cyngor | | Cyflogeion | |
|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2018/19 | 2019/20 | 2018/19 |
| hyd at 1 Awst 2006 | 21.4% | 21.4% | 6.0% | 4.5% |
| ar neu ar ôl 1 Medi 2006 | 21.4% | 21.4% | 6.0% | 6.0% |

Hefyd, talodd y Cyngor gyfandaliad o £400,000 yn ystod y flwyddyn (2018/19: £372,000) a chytunwyd gyda'r actiwariaid na fyddai angen rhagor o daliadau tuag at y diffyg hyd yr ailbrisiad nesaf. Cyfrannodd cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri y Cyngor £188,000 (2018/19: £193,000) o daliadau tuag at y diffyg.

O 1 Ebrill 2020 newidiodd y cyfraniadau i:

| | Cyngor | Cyflogeion |
|---|---|---|
| I'r holl staff | 20.9% | 6.0% |

Mae'r Cyngor hefyd yn talu cyflog pensiynadwy o 0.2% mewn perthynas â phob aelod sy'n cael yswiriant

O dan ddeddfwriaeth Cofrestru Awtomatig mae'n ofynnol i bob cyflogai cymwys ymaelodi â chynllun pensiwn cymwys, oni fo'n optio allan yn ffurfiol. Mae gennym gynllun cyfraniadau diffiniedig, Pensiwn y Bobl, fel dewis amgen i gyflogeion nad ydynt yn aelodau o Bensiwn Ymddeol Cyngor y Celfyddydau. Cyfrannodd y Cyngor 5% a'r cyflogai 3% yn ystod y flwyddyn. Mae'n bosibl y bydd y cyfraddau hyn yn newid yn y dyfodol, yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth.

## 8. Adnoddau a wariwyd
### Costau llywodraethu

| | Costau gros | Didynnu taliadau a ailgodwyd ar Ddosbarthu Arian y Loteri | 2019/20 Swm net a godwyd ar Weith-gareddau Cyffredinol | 2018/19 Swm net a godwyd ar Weith-gareddau Cyffredinol |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cydnabyddiaeth ariannol y Cadeirydd | 49 | 16 | 33 | 33 |
| Cydnabyddiaeth ariannol yr archwilydd - Archwilio | 44 | 21 | 23 | 22 |
| Archwilio mewnol | 17 | 8 | 9 | 12 |
| Ffioedd ymgynghoriaeth | 1 | - | 1 | 1 |
| Cyfarfodydd y Cyngor, gan gynnwys teithio a chynhaliaeth | 16 | 8 | 8 | 5 |
| Cyfarfodydd pwyllgorau, gan gynnwys teithio a chynhaliaeth | 5 | 3 | 2 | 2 |
| | 132 | 56 | 76 | 75 |

## 9. Asdedau sefydlog

### a. Asedau sefydlog anniriaethol

| | Trwyddedau meddalwedd cyfrifiaduro |
|---|---|
| | £'000 |
| Cost ar 1 Ebrill 2019 | 550 |
| Ychwanegiadau | 3 |
| Gwarediadau | (256) |
| Cost ar 31 Mawrth 2020 | 297 |
| | |
| Amorteiddiad ar 1 Ebrill 2019 | 550 |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 1 |
| Gwarediadau | (256) |
| Amorteiddiad ar 31 Mawrth 2020 | 295 |
| | |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2020** | **2** |
| | |
| Net book value at 1 April 2019 | - |

b. Asedau sefydlog diriaethol

| | Addasiadau i eiddo prydlesol £'000 | System gyfrifiadurol, celfi ac ati £'000 | Gwefan £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cost ar 1 Ebrill 2019 | 107 | 649 | 95 | 851 |
| Ychwanegiadau | - | 42 | - | 42 |
| Gwarediadau | - | (19) | - | (19) |
| Cost ar 31 Mawrth 2020 | 107 | 672 | 95 | 874 |
| | | | | |
| Dibrisiad ar 1 Ebrill 2019 | 107 | 543 | 95 | 745 |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | - | 57 | - | 57 |
| Gwarediadau | - | (19) | - | (19) |
| Dibrisiad ar 31 Mawrth 2020 | 107 | 581 | 95 | 783 |
| | | | | |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2020** | - | **91** | - | **91** |
| | | | | |
| Gwerth net ar bapur ar 1 Ebrill 2019 | - | 106 | - | 106 |

Mae'r amorteiddiad a dibrisiad a godwyd wedi'u dyrannu i weithgareddau elusennol o dan gostau cynnal (nodyn 6).

c. Cynrychiola'r gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2020 yr asedau sefydlog a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i gynnal ei weithgareddau elusennol.

Mae eiddo rhydd-ddaliadol y Cyngor yng Nghaerdydd, Theatr Sherman a Stiwdio Rubicon Dance, wedi'u gosod ar brydlesi hir am rent rhad i denantiaid na chânt eu rheoli gan y Cyngor a heb ddarpariaethau naill ai i adolygu'r rhent neu ailfeddiannu'r eiddo gan y Cyngor.

Prynwyd Theatr Sherman gan hen Gyngor Celfyddydau Cymru, isadran o Gyngor Celfyddydau Prydain, ym mis Medi 1987 am £897,000 a chafodd ei gosod ar unwaith am gyfnod o 125 o flynyddoedd. Pan ddiddymwyd Cyngor Celfyddydau Prydain ym mis Mawrth 1994 trosglwyddwyd y buddiant rhyddfreiniol i Gyngor Celfyddydau Cymru a oedd newydd ei ffurfio.

Prynwyd Stiwdio Rubicon Dance gan hen Gyngor Celfyddydau Cymru ym mis Chwefror 1988 am £11,315 ac yn ddarostyngedig i brydles o 999 o flynyddoedd oedd yn bodoli eisoes ac a ddechreuasai ar 1 Ionawr 1986. Trosglwyddwyd y buddiant rhyddfreiniol i Gyngor Celfyddydau Cymru ym mis Mawrth 1994.

Roedd y prisiad allanol, annibynnol diweddaraf o eiddo rhyddfreiniol y Cyngor fel ar 31 Mawrth 2004. Fe'i gwnaed gan Elizabeth Hill, Aelod o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, dros ac ar ran Cooke ac Arkwright, Syrfewyr Siartredig. Oherwydd effaith y prydlesi, barn y syrfëwr oedd nad oedd dim gwerth neu werth nominal yn unig i'r buddiannau rhyddfreiniol, felly caiff yr asedau hyn eu dal yn y cyfrifon ar ddim gwerth.

Nid yw'r Cyngor o'r farn bod angen gwneud prisiad arall nes y bydd lleihad sylweddol yn hyd y prydlesi sy'n weddill neu eu bod yn cael eu terfynu'n gynt.

## 10. Grantiau a dalwyd ymlaen llaw

Mewn rhai amgylchiadau, sy'n gofyn am awdurdod y Prif Weithredwr, gwna'r Cyngor daliadau ymlaen llaw cyn y flwyddyn y mae'r grant yn perthyn iddi. Mae'r grym yn gyfyngedig i sefyllfaoedd lle byddai'r sefydliad derbyn yn dioddef caledi ariannol fel arall.

| | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Taliadau mewn perthynas â grantiau'r flwyddyn ddilynol | 140 | 302 |

## 11. Dyledwyr (sy'n ddyledus o fewn blwyddyn)

| | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Benthyciadau'r *Cynllun Casglu* [1] | 422 | 453 |
| Dyledwyr masnachol | 140 | 68 |
| Dyledwyr eraill | 1,050 | 800 |
| | 1,612 | 1,321 |
| *Didynnu* Darpariaeth benodol ar gyfer dyledion amheus | - | - |
| *Is-gyfanswm: Dyledwyr* | 1,612 | 1,321 |
| Rhagdaliadau | 267 | 234 |
| | **1,879** | 1,555 |
| Yn ddyledus o gronfa dosbarthu arian y Loteri am gostau yr ailgodir tâl amdanynt: | | |
| Dosraniadau costau | 200 | 146 |
| | **2,079** | 1,701 |

[1] Cynllun benthyciadau heb log y Cyngor yw'r *Cynllun Casglu,* sydd ar gael i'r cyhoedd i'w cynorthwyo i brynu gweithiau celf a chrefft cyfoes o'r orielau sy'n cymryd rhan ledled Cymru. Ad-delir benthyciadau rhwng £50 a £5,000 drwy randaliadau misol dros gyfnod heb fod yn fwy na blwyddyn.

## 12. Credydwyr

| | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **a. Credydwyr:** sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | | |
| Grantiau sy'n daladwy | 932 | 1,142 |
| Trethi a nawdd cymdeithasol | 111 | 82 |
| Credydwyr masnachol | 238 | 53 |
| Credydwyr eraill | 118 | 116 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 320 | 292 |
| Rhwymedigaethau cyfredol Cerdd Cymru:Music Wales (nodyn 20) | 25 | 25 |
| | **1,744** | 1,710 |
| **b. Credydwyr:** sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | | |
| Grantiau sy'n daladwy | **29** | 1 |

## 13. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau

| | 2019/20 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| Darpariaeth ar gyfer y diffyg pensiwn ar 1 Ebrill | - | 471 |
| Swm a godwyd yn erbyn y ddarpariaeth yn ystod y flwyddyn | - | (422) |
| Darpariaeth nas defnyddiwyd a ryddhawyd | - | (49) |
| **Darpariaeth ar 31 Mawrth** | - | - |

Ymrwymodd y Cyngor i gytundeb i gyllido diffyg yng Nghynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau mewn perthynas ag amcan cyllido statudol y Cynllun, a chydnabu ddarpariaeth ar gyfer gwerth cyfredol y cyfraniadau sy'n daladwy. Yn ystod 2018/19 talodd y Cyngor gyfandaliad ychwanegol i'r Cynllun a chytunwyd â'r actiwariaid na fyddai angen rhagor o daliadau tuag at y diffyg hyd yr ailbrisiad nesaf. Digwyddodd yr ailbrisiad hwnnw ar 31 Mawrth 2019 a thalodd y Cyngor gyfandaliad arall yn 2019/20 i ddileu'r diffyg y gellir ei briodoli.

## 14. Rhwymedigaeth wrth gefn

Mae'r Cyngor yn gyflogwr sydd wedi'i dderbyn i Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Mae'r Cynllun yn gynllun buddion diffiniedig a gyllidir cyflogwyr lluosog lle na all y cyflogwyr sy'n cyfranogi nodi eu cyfrannau o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol.

Pe bai cyflogwr yn tynnu'n ôl, byddai'r ddyled a gâi ei hysgogi o dan adran 75 o Ddeddf Pensiynau 1995 yn cael ei chyfrifo gan ddefnyddio diffyg solfedd y Cynllun cyfan, nid cyfran asedau a rhwymedigaethau'r cyflogwr ei hun. Hefyd, pe câi'r Cynllun ei ddirwyn i ben, gan mai trefniant "y dyn olaf ar ei draed" yw'r Cynllun, byddai'r holl gyflogwyr yn atebol ar y cyd ac yn unigol am gyfanswm y diffyg yn y Cynllun.

## 15. Datganiad o gronfeydd

| | Ar 1 Ebrill 2019 £'000 | Adnoddau i mewn £'000 | Adnoddau a wariwyd £'000 | Trosglwydd-iadau £'000 | Ar 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd incwm anghyfyngedig** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | 2,383 | 31,500 | (31,790) | (97) | 1,996 |
| **Cyfanswm cronfeydd anghyfyngedig** | **2,383** | **31,500** | **(31,790)** | **(97)** | **1,996** |
| **Cronfeydd cyfyngedig** | | | | | |
| Incwm | | | | | |
| Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglen Cymru yn Tsieina | 12 | - | (5) | 0 | 7 |
| Llywodraeth Cymru at weithgarwch penodol arall ym maes y celfyddydau | 24 | 914 | (956) | 60 | 42 |
| Rhaglen *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau* | 314 | 3,322 | (3,016) | 36 | 656 |
| Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | - | 40 | (6) | - | 34 |
| Celfyddydau Rhyngwladol Cymru: cronfeydd cyfyngedig eraill | - | 10 | - | - | 10 |
| Celfyddydau Rhyngwladol Cymru: cyfraniadau gan y British Council | 21 | - | (20) | 1 | 2 |
| | 371 | 4,286 | (4,003) | 97 | 751 |
| Cyfalaf | | | | | |
| Cronfa Goffa Alun Llywelyn Williams (incwm i ddarparu bwrsari i artist ifanc) | 13 | 0 | - | - | 13 |
| Cronfa Goffa Brian Ross (incwm i ddarparu bwrsari i artist gweledol ifanc) | 79 | 1 | - | - | 80 |
| | 92 | 1 | - | - | 93 |
| **Cyfanswm cronfeydd cyfyngedig** | **463** | **4,287** | **(4,003)** | **97** | **844** |
| **Cyfanswm cronfeydd** | **2,846** | **35,787** | **(35,793)** | **-** | **2,840** |

Caiff Cronfeydd Coffa Alun Llywelyn Williams a Brian Ross eu cynrychioli gan arian yn y banc ac maent yn y cyfanswm o £2,301,000 a ddangosir ar y Fantolen.

## 16. Dadansoddiad o asedau net rhwng mathau o gronfeydd

| | Cronfeydd anghyfyngedig | Cronfeydd cyfyngedig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cynrychiolir balansau cronfeydd ar 31 Mawrth 2020 gan: | | | |
| Asedau sefydlog | 93 | - | **93** |
| Asedau cyfredol | 3,008 | 1,512 | **4,520** |
| Credydwyr: sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | (1,076) | (668) | **(1,744)** |
| Credydwyr: sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | (29) | - | **(29)** |
| **Cyfanswm asedau net** | **1,996** | **844** | **2,840** |

## 17. Gwybodaeth am lifau arian

| | | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| a. | **Llifau arian o weithgareddau gweithredu** | | |
| | Adnoddau i mewn/(allan) net | (6) | (636) |
| | Llog banc a dderbyniwyd (net o'r ildiad) | (3) | (9) |
| | Amorteiddiad a dibrisiad (nodyn 9) | 58 | 27 |
| | Colled/(Gwarged) o werthu asedau diriaethol | - | (1) |
| | (Cynnydd)/Gostyngiad yn y grantiau a dalwyd ymlaen llaw | 162 | (34) |
| | (Cynnydd)/Gostyngiad yn y dyledwyr | (378) | 1,511 |
| | Cynnydd/(Gostyngiad) yn y credydwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 34 | (1,028) |
| | Cynnydd/(Gostyngiad) yn y credydwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 28 | (667) |
| | **Mewnlif (all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu** | **(105)** | (837) |
| b. | **Llifau arian o weithgareddau buddsoddi** | | |
| | Llog banc a dderbyniwyd | 14 | 23 |
| | Llog banc a ildiwyd i Gronfa Gyfunol Cymru | (11) | (14) |
| | **Mewnlif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | **3** | 9 |
| c. | **Llifau arian cysylltiedig ag asedau cyfalaf** | | |
| | Taliadau i gaffael asedau sefydlog anniriaethol (nodyn 9a) | (3) | - |
| | Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol (nodyn 9b) | (42) | (92) |
| | Derbyniadau o waredu asedau diriaethol | - | 1 |
| | **All-lif arian parod net cysylltiedig ag asedau cyfalaf** | **(45)** | (91) |

## 18. Ymrwymiadau o ran prydlesi gweithredu

Ar 31 Mawrth 2020 roedd gan y Cyngor yr ymrwymiadau canlynol o ran taliadau yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredu nad oedd modd eu diddymu:

| | Tir ac adeiladau | | Offer | |
|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2018/19 | 2019/20 | 2018/19 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyfanswm sy'n ddyledus | | | | |
| o fewn blwyddyn | 132 | 145 | 2 | 2 |
| rhwng blwyddyn a phum mlynedd | 499 | 504 | 2 | 4 |
| ar ôl pum mlynedd | 488 | 615 | - | - |
| | 1,119 | 1,264 | 4 | 6 |

Cafodd taliadau prydlesi gwerth £215,000 eu cydnabod fel treuliau yn ystod y flwyddyn (2018/19: £214,000). Caiff 53% (2018/19: 54%) o'r costau eu codi yn y datganiadau ariannol hyn a'r gweddill ar weithgareddau dosbarthu arian y Loteri.

## 19. Blaenymrwymiadau

| | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Grantiau | | |
| Blaengyllido - grantiau a gynigiwyd yn ffurfiol | **27,082** | 26,790 |

Mae'r blaengyllido ar 31 Mawrth 2020 yn cynrychioli dyraniadau i sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru ar gyfer 2020/21.

## 20. Cerdd Cymru:Music Wales Limited

Mae Cerdd Cymru:Music Wales yn gwmni masnachu preifat, wedi'i gyfyngu drwy warant a'i gofrestru yng Nghymru (rhif 7759122). Fe'i corfforwyd ar 1 Medi 2011 yn gyfrwng i gydweithio â Sefydliad Cerddoriaeth Cymru ar brosiectau a fydd yn datblygu a gwella, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, wybodaeth, dealltwriaeth, ymarfer a chynaliadwyedd y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol, ac yn arbennig cerddoriaeth, yng Nghymru.

Daeth Cerdd Cymru:Music Wales Limited yn is-gwmni dan berchnogaeth lwyr y Cyngor yn ystod 2016/17 yn dilyn datodiad Sefydliad Cerddoriaeth Cymru. Mae trafodion canlynol yr is-gwmni wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol cyfunol yn ôl y dull 'llinell wrth linell'.

| | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Cyfrif Elw a Cholled** | | |
| Incwm (nodyn 5) | - | 150 |
| Gwariant (nodyn 6) | - | (154) |
| Adnoddau i mewn/(allan) net | - | (4) |
| **Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol** | | |
| Asedau cyfredol: | | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 2 | 2 |
| Rhwymedigaethau cyfredol (nodyn 12) | (25) | (25) |
| Asedau/(rhwymedigaethau) net | (23) | (23) |
| Cronfeydd wrth gefn | (23) | (23) |

## 21. Rhaglen *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau*

Mae Rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau wedi'i bwriadu i:

- wella cyrhaeddiad addysgol
- adeiladu system addysg a fydd yn cyfrannu'n uniongyrchol i economi gryfach, mwy o arloesi, mwy o greadigrwydd, ac i gyfalaf diwylliannol y genedl
- creu newid sylweddol yn ystod ac ansawdd y cyfleoedd a roddir i blant a phobl ifanc i ymgysylltu â'r celfyddydau a diwylliant a dysgu amdanynt

Mae'r cam cyntaf, o 2015 i 2020, wedi cael ei ariannu gan gydfuddsoddiad o £20 miliwn gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru, gan gydweithio â'r consortia addysg rhanbarthol, ysgolion, awdurdodau lleol a'r sector celfyddydol a diwylliannol ehangach. Mae'r Rhaglen yn gofyn am ymgyfranogiad gweithredol artistiaid, gweithwyr creadigol proffesiynol a sefydliadau ym meysydd y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth gan weithio mewn partneriaeth ag athrawon ac ysgolion.

Daw buddsoddiad y Cyngor o £10 miliwn o gronfeydd y Loteri. Rhoddir cyfrif am hyn, ynghyd â chyfraniad Llywodraeth Cymru a holl wariant y Rhaglen, yn y datganiadau ariannol hyn. Cytunwyd ar y dull hwn gydag archwilwyr allanol y Cyngor a'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

| | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Incwm | | |
| Grant gan Lywodraeth Cymru | 2,000 | 1,997 |
| Grant Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru | 1,299 | 1,081 |
| Ad-dalu grantiau'r flwyddyn flaenorol | 7 | 12 |
| Incwm partneriaeth | 14 | - |
| Llog banc | 2 | 4 |
| | 3,322 | 3,094 |
| **Gwariant** | | |
| Ysgolion Creadigol Arweiniol | 911 | 1,030 |
| Rhaglen y celfyddydau ac addysg | 600 | 800 |
| Traws-raglen y celfyddydau a dysgu creadigol | 562 | 652 |
| Costau rheoli canolog | 907 | 78 |
| Costau cynnal (o gronfeydd anghyfyngedig) | 36 | 35 |
| | 3,016 | 3,301 |

## 22. Offerynnau ariannol

Mae Safon Adrodd Ariannol 102 yn ei gwneud yn ofynnol datgelu'r rôl a fu gan offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y risgiau mae'r Cyngor yn eu hwynebu wrth gyflawni ei swyddogaethau.

*Risgiau hylifedd* – Yn 2019/20 deilliai £34,196,000 neu 95% o incwm y Cyngor o Lywodraeth Cymru (2018/19: £33,717,000 neu 95%). O'r incwm sy'n weddill, deilliai £1,299,000 neu 4% o gyfrif Dosbarthu Arian Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer y Rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau (2018/19: £1,081,000 neu 3%) a deilliai £292,000 neu 1% o incwm o fuddsoddiadau ac incwm amrywiol (2018/19: £588,000 neu 2%). Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei weithgareddau cyffredinol yn agored i unrhyw risg sylweddol o ran hylifedd, ac mae'n fodlon bod incwm y dyfodol yn ddigon i gyflawni ei ymrwymiadau.

*Risgiau cyfraddau llog* – Caiff balansau arian a gaiff y Cyngor oddi wrth Lywodraeth Cymru i dalu ymrwymiadau grant a chostau gweithredu eu cadw mewn cyfrif banc cyfradd amrywiol sy'n caniatáu cael yr arian ar unrhyw adeg. Ar gyfartaledd 0.5% oedd y gyfradd llog yn y flwyddyn (2018/19: 0.50%). Balans arian parod anghyfyngedig i bob pwrpas ar ddiwedd y flwyddyn oedd £1,796,000 (2019: £1,766,000). Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei weithgareddau cyffredinol yn agored i risgiau sylweddol o ran cyfraddau llog.

*Risg arian tramor* – Nid yw gweithgareddau cyffredinol y Cyngor yn agored i unrhyw risgiau sylweddol o ran cyfnewid arian tramor.

*Risg llif arian* – Nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw risgiau sylweddol o ran llif arian.

## 23. Treth Gorfforaethol

Mae'r Cyngor yn gorff elusennol a noddir gan Lywodraeth Cymru ac felly mae'n cael ei eithrio rhag treth gorfforaethol o dan Adran 505 o Ddeddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988

## 24. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

### Awdurdodi'r datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi

Awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifyddu ar yr un dyddiad ag yr ardystiodd Archwilydd Cyffredinol Cymru hwy.

## 25. Trafodion â phartïon cysylltiedig

### Cyrff cyhoeddus

Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru yw'r Cyngor.

Ystyrir Senedd Cymru/Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn ni chafodd y Cyngor unrhyw drafodion perthnasol â Senedd Cymru/Llywodraeth Cymru ar wahân i'r cymorth grant a ddatgelwyd yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol a'r grantiau cyfyngedig a ddatgelwyd yn nodyn 3.

### Is-gwmni

Mae Cerdd Cymru:Music Wales Limited yn is-gwmni dan berchnogaeth lwyr y Cyngor a chofnodwyd trafodion y cwmni yn nodyn 20. Nid oedd unrhyw falansau'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.

### Unigolion

Ymgymerodd aelodau o'r Cyngor, o'r Pwyllgorau, o'r staff neu bartïon cysylltiedig eraill (sef perthnasau agos) â thrafodion ariannol (a restrir isod) â'r Cyngor yn ystod y flwyddyn.

Lle roedd yr unigolion a/neu berthnasau agos iddynt yn aelodau o Fyrddau Rheoli (neu eu cyfateb) neu'n uwch gyflogeion mewn sefydliadau a gafodd gynnig grantiau neu daliadau eraill gan y Cyngor yn 2019/20, ym mhob achos o'r fath, yn unol â Chod Ymarfer Gorau'r Cyngor, gadawodd yr unigolyn dan sylw unrhyw gyfarfod lle cafwyd trafodaeth neu benderfyniad ynghylch cyllid.

O dan God Ymarfer Gorau'r Cyngor, bernir bod buddiant yn parhau am flwyddyn o leiaf ar ôl i'r unigolyn adael y swydd a greodd y buddiant. Adlewyrchir y polisi hwn yn y datgeliadau canlynol.

Cofnodir trafodion â'r Cyngor fel un o ddosbarthwyr arian y Loteri yn y nodyn cyfatebol i'r Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri ar wahân.

| Aelod<br>Rôl | Sefydliad | Trafodion 2019/20 (nifer) | Cyfanswm Gwerth 2019/20 £ | Cyfanswm y balans oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2020 £ |
|---|---|---|---|---|
| Aelodau o'r Cyngor | | | | |
| **Iwan Bala** | | | | |
| Doethur mewn Ymchwil | Prifysgol De Cymru | Anfoneb (1) | 1,127 | Dim |
| **Lhosa Daly** | | | | |
| Cyflogaeth | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol | Anfoneb (2) | 686 | Dim |
| **Devinda De Silva** | | | | |
| Cyflogaeth | National Theatre Wales | Grant (1) | 1,606,405 | Dim |
| | | Anfoneb (1) | 1,020 | Dim |
| Aelod o'r Bwrdd | Dirty Protest | Grant (3) | 26,475 | 8,475 |
| | | Anfoneb (1) | 750 | |
| Aelod o'r Bwrdd | Coleg Caerdydd a'r Fro | Anfoneb (3) | 2,074 | Dim |
| **Andy Eagle** | | | | |
| Cyflogaeth | Chapter | Grant (1) | 675,391 | Dim |
| | | Anfoneb (3) | 1,071 | Dim |
| **Kate Eden** | | | | |
| Cyfarwyddwr Anweithredol | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Anfoneb (1) | 2,000 | Dim |
| **Michael Griffiths** | | | | |
| Aelod o fwrdd prosiect | Prifysgol De Cymru | Anfoneb (1) | 1,127 | Dim |

| Aelod<br>Rôl | Sefydliad | Trafodion 2019/20 (nifer) | Cyfanswm Gwerth 2019/20 £ | Cyfanswm y balans oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2020 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Professor Tudur Hallam** | | | | |
| Cyflogaeth | Prifysgol Abertawe | Anfoneb (1) | 9,225 | Dim |
| Llywodraethwr | Ysgol Maes-y Gwendraeth | Grant (1) | 720 | Dim |
| **Marian Wyn Jones** | | | | |
| Aelod o'r Bwrdd | Canolfan Gerdd William Mathias | Grant (2) | 80,551 | 300 |
| Cyfarwyddwr Anweithredol | Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr | Grant (1) | Dim | 2,500 |
| Aelod o'r Cyngor | Prifysgol Bangor | Grant (2)<br>Anfoneb (4) | 311,882<br>6,152 | 31,764<br>5,000 |
| **Gwennan Mair** | | | | |
| Cyflogaeth | Theatr Clwyd | Grant (2) | 1,810,969 | 800 |
| Aelod o'r Bwrdd Drama | Eisteddfod Genedlaethol | Grant (1) | 48,000 | Dim |
| **Andrew Miller** | | | | |
| Aelod o'r Bwrdd | Opera Cenedlaethol Cymru | Grant (1) | 4,533,977 | Dim |
| **Victoria Provis** | | | | |
| Aelod o'r Bwrdd | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | Grant (1)<br>Anfoneb (5) | 151,740<br>4,325 | 134,078<br>2,075 |
| Aelod o'r Bwrdd | Amgueddfa Genedlaethol Cymru | Grant (1)<br>Anfoneb (2) | 13,950<br>1,680 | 1,395 |

| Aelod<br>Rôl | Sefydliad | Trafodion 2019/20 (nifer) | Cyfanswm Gwerth 2019/20 £ | Cyfanswm y balans oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2020 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Dafydd Rhys**<br>Cyflogaeth | Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth | Grant (5) | 564,89 | 2,695 |
| **Dr Sarah Younan**<br>Cyflogaeth | Amgueddfa Genedlaethol Cymru | Grant (1)<br>Anfoneb (2) | 13,950<br>1,680 | 1,395<br>Dim |
| **Aelodau o bwyllgorau** | | | | |
| **Andrew Butler**<br>Cyflogaeth<br>(Perthynas) | Swyddfa Archwilio Cymru | Anfoneb (1) | 22,421 | Dim |
| **Roland Evans**<br>Cyflogaeth | Cyngor Gwynedd | Anfoneb (5) | 10,992 | 4,512 |
| **Ruth Cayford**<br>Cyflogaeth | Cyngor Caerdydd (gan gynnwys Neuadd Dewi Sant) | Anfoneb (5) | 2,109 | Dim |
| **Aelodau o'r Uwch Tîm Arwain** | | | | |
| **Katherine Davies**<br>Cyflogaeth<br>(Perthynas) | Cyngor Caerdydd (gan gynnwys Neuadd Dewi Sant) | Anfoneb (5) | 2,109 | Dim |

| Aelod<br>Rôl | Sefydliad | Trafodion 2019/20 (nifer) | Cyfanswm Gwerth 2019/20 £ | Cyfanswm y balans oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2020 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Diane Hebb** | | | | |
| Aelod o'r Corff Llywodraethu | Ysgol Uwchradd Gwernyfed | Grant (1) | 5,000 | 500 |
| | | Anfoneb (3) | 546 | Dim |
| **Aelodau eraill o'r staff** | | | | |
| **Ann Wright** | | | | |
| Cyflogaeth<br>(Perthynas) | KK Solutions | Anfoneb (10) | 6,768 | Dim |
| **Eluned Hâf Williams** | | | | |
| Aelod o'r Bwrdd<br>(Perthynas) | Canolfan Gerdd William Mathias | Grant (2) | 80,551 | 300 |
| **Judith Musker Turner** | | | | |
| Cyflogaeth<br>(Perthynas) | Canolfan Gerdd William Mathias | Anfoneb (1) | 756 | Dim |
| **Osian Gwynn** | | | | |
| Cyflogaeth<br>(Perthynas) | Cwmni Pluen | Grant (1) | 4,650 | Dim |

# Datganiadau Ariannol
## Dosbarthu Arian y Loteri

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 35 o Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd) mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi am bob blwyddyn ariannol ddatganiad cyfrifon ar gyfer ei weithgareddau dosbarthu arian y Loteri ar y ffurf ac ar y sail a benderfynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Cyngor ac o'i incwm a'i wariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a llifau arian am y flwyddyn ariannol

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion ***Llawlyfr Adroddiadau Ariannol*** y Llywodraeth ac yn benodol:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a gweithredu polisïau cyfrifyddu addas ar sail gyson;

- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;

- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;

- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw; a

- chadarnhau bod yr Adroddiad a Datganiadau Ariannol yn gyffredinol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad a Datganiadau Ariannol a'r farn sy'n ofynnol i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor. Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros gadw cofnodion cywir a thros ddiogelu asedau'r Cyngor, yn y ddogfen Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Managing Public Money a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

A finnau'n Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd pob cam y dylaswn ei gymryd i beri fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod archwilydd y Cyngor yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Cymeradwywyd ar ran y Cyngor:

**Nick Capaldi**, Swyddog Cyfrifyddu
4 Medi 2020

**Phil George,** Cadeirydd
4 Medi 2020

## Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd ac Aelodau o Senedd Cymru

### Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau o Incwm Net Cynhwysfawr, y Sefyllfa Ariannol, Llifau Arian a Newidiadau Mewn Ecwiti; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Hefyd, archwiliais y wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth a archwiliwyd.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru ar 31 Mawrth 2020 ac o'r incwm net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac

- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dani.

#### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

#### Sail barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Ceir disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn yr adran ar gyfrifoldebau'r Archwilydd am yr archwiliad o'r datganiadau ariannol ar fy nhystysgrif. Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol imi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig 2016 y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf yn annibynnol ar Gyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad a'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig. Mae fy staff a finnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i fy marn.

#### Casgliadau yn ymwneud â busnes hyfyw

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu

- nid yw'r Swyddog Cyfrifyddu wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

### Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio ac ardystio'r datganiadau ariannol ac adrodd arnynt yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

Mae archwiliad yn golygu cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gyflawnir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall a bernir eu bod yn berthnasol os gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU), rwyf yn arfer barn broffesiynol ac yn cynnal amheuaeth broffesiynol drwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd:

- yn nodi ac yn asesu risgiau camddatganiad perthnasol o'r datganiadau ariannol, boed drwy dwyll neu wall, yn llunio ac yn cyflawni gweithdrefnau archwilio sy'n ymatebol i'r risgiau hynny, ac yn cael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol i roi sail i fy marn. Mae risg peidio â darganfod camddatganiad perthnasol sy'n deillio o dwyll yn fwy nag un sy'n deillio o wall, gan y gall twyll olygu cydgynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camliwiadau, neu ddiystyru rheolaeth fewnol.

- yn sicrhau dealltwriaeth o reolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn llunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol yn yr amgylchiadau, ond nid at ddiben mynegi barn ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru.

- yn gwerthuso priodoldeb y polisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd a rhesymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu a'r datgeliadau cysylltiedig a wnaed gan y rheolwyr.

- yn gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys cyffredinol y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, ac a yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli'r trafodion a digwyddiadau sylfaenol mewn modd sy'n sicrhau cyflwyniad teg.

- yn dod i gasgliad ynghylch priodoldeb defnydd Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru o sail cyfrifyddu busnes hyfyw, ac, ar sail y dystiolaeth archwilio a gafwyd, a oes ansicrwydd perthnasol yn bodoli mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a allai greu amheuaeth sylweddol ynghylch gallu Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru i barhau fel busnes hyfyw. Os dof i'r casgliad bod ansicrwydd perthnasol yn bodoli, mae'n ofynnol imi dynnu sylw yn fy adroddiad archwilydd at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol, neu, os nad yw'r fath ddatgeliadau'n ddigonol, newid fy marn. Mae fy nghasgliadau wedi'u seilio ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd hyd at ddyddiad fy adroddiad archwilydd. Fodd bynnag, gallai digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol achosi i'r endid beidio â pharhau fel busnes hyfyw.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chasgliadau arwyddocaol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol o ran rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Yn ogystal, mae'n ofynnol imi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant a nodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Gwybodaeth arall

Y Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth yn yr Adroddiad sy'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol, heblaw'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel rhai sydd wedi'u harchwilio, y datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad o ran sicrwydd arni. Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, o wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gefais yn yr archwiliad neu'n ymddangos fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn berthnasol. Os, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, y dof i'r casgliad bod yna gamddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc.1993;

- yng ngoleuni'r wybodaeth a dealltwriaeth o Gyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad na'r Adroddiad Atebolrwydd; ac

- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

**Materion yr wyf yn cyflwyno adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi mewn perthynas â'r materion canlynol a adroddaf wrthych os, yn fy marn i:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol neu na chafwyd ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth ganghennau nad ymwelodd fy staff â hwy; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio'n gyson â'r cofnodion a ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud am y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

10 Medi 2020

National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria, Llundain
SW1W 9SP

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw hygrededd gwefan Cyngor Celfyddydau Cymru a'r gwaith o gynnal y wefan honno; nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilwyr yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldebau am unrhyw newidiadau a allai fod wedi cael eu cyflwyno i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

# Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

| | | 2019/20 | | 2018/19 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwariant** | | | | | |
| Rheoli a gweinyddu: | | | | | |
| Costau staff | 2a | 1,240 | | 1,191 | |
| Costau gweithredu eraill | 2b | 665 | | 618 | |
| | | | 1,905 | | 1,809 |
| Gwariant ar y celfyddydau: | | | | | |
| Grantiau a roddwyd | | 10,711 | | 9,727 | |
| Llai: Grantiau a aeth yn ddi-rym ac a dynnwyd yn ôl | | (323) | | (156) | |
| Grantiau a roddwyd net | 7 | | 10,388 | | 9,571 |
| Dosbarthwyr dirprwyedig | 9 | | 2,038 | | 1,686 |
| Dyfarniadau celfyddydau eraill | 3 | | 45 | | 275 |
| Costau uniongyrchol rhoi grantiau | 2c | | 256 | | 421 |
| | | | 12,727 | | 11,953 |
| **Cyfanswm gwariant** | | | **14,632** | | 13,762 |
| **Incwm** | | | | | |
| Cyfran o'r arian oddi wrth y Loteri Genedlaethol | 4 | | 17,761 | | 16,000 |
| Incwm buddsoddiad ar falansau yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol | 4 | | 86 | | 82 |
| Llog derbyniadwy | | | 10 | | 14 |
| Grantiau mae modd eu hadennill | | | 43 | | 42 |
| **Cyfanswm incwm** | | | **17,900** | | 16,138 |
| **Incwm cynhwysfawr net am y flwyddyn** | | | **3,268** | | 2,376 |

Nid oes unrhyw weithgareddau sydd wedi peidio ac ni chafwyd unrhyw gaffaeliadau yn ystod y flwyddyn.

Nid oes unrhyw enillion na cholledion ac eithrio'r rhai a ddangosir uchod.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 168 i 178 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad o’r Sefyllfa Ariannol

ar 31 Mawrth 2020

| | Nodyn | 31 Mawrth 2020 £’000 | 31 Mawrth 2020 £’000 | 31 Mawrth 2019 £’000 | 31 Mawrth 2019 £’000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnach a symiau eraill sy’n dderbyniadwy | 5a | | 150 | | 150 |
| **Asedau cyfredol:** | | | | | |
| Asedau ariannol: | | | | | |
| Buddsoddiadau – balans a ddelir yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol | 4 | 18,036 | | 14,894 | |
| Symiau masnach a symiau eraill sy’n dderbyniadwy | 5b | - | | - | |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 8 | 1,124 | | 1,373 | |
| *Cyfanswm asedau cyfredol* | | | 19,160 | | 16,267 |
| **Cyfanswm asedau** | | | 19,310 | | 16,417 |
| **Symiau masnach sy’n daladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill – symiau sy’n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | | | | |
| Symiau masnach a symiau eraill sy’n daladwy | 6 | (298) | | (217) | |
| Rhwymedigaethau eraill: | | | | | |
| Dosbarthwyr dirprwyedig | 6 | (479) | | (316) | |
| Grantiau | 6 | (8,104) | | (9,725) | |
| *Cyfanswm symiau sy’n daladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill* | | | (8,881) | | (10,258) |
| **Asedau anghyfredol plws asedau cyfredol** | | | 10,429 | | 6,159 |
| **Symiau masnach sy’n daladwy a rhwymedigaethau anghyfredol eraill – symiau sy’n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | | | | |
| Grantiau | 7 | | (2,466) | | (1,464) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | | **7,963** | | **4,695** |
| **Ecwiti/Arian wrth gefn:** | | | | | |
| Cyfrif Gwariant Net | | | **7,963** | | **4,695** |

Mae’r nodiadau ar dudalennau 168 i 178 yn rhan o’r datganiadau ariannol hyn.

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan Gyngor Celfyddydau Cymru a’u llofnodi ar ei ran gan

**Nicholas Capaldi**, Swyddog Cyfrifyddu
4 Medi 2020

**Phil George**, Cadeirydd
4 Medi 020

# Datganiad o lifau/ llifau arian
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

| | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Llifau arian o weithgareddau gweithredu** | | |
| Incwm net | 3,268 | 2,376 |
| Llog banc | (10) | (14) |
| (Cynnydd)/Gostyngiad yn y balans a ddaliwyd yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol | (3,142) | 725 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn symiau masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | - | 1 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach a symiau eraill sy'n daladwy a rhwymedigaethau eraill | 244 | (586) |
| Gostyngiad mewn grantiau sy'n daladwy | (619) | (3,761) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | **(259)** | (1,259) |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | |
| Llog banc | 10 | 14 |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | **10** | 14 |
| **Arian parod a chyfwerth ag arian parod** | | |
| Gostyngiad net mewn balansau arian parod a chyfwerth ag arian parod | **(249)** | (1,245) |
| Balans ar 1 Ebrill | 1,373 | 2,618 |
| Balans ar 31 Mawrth | **1,124** | 1,373 |

# Datganiad o newidiadau mewn ecwiti
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

| | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Balans ar ddechrau'r flwyddyn | 4,695 | 2,319 |
| Incwm net am y flwyddyn | 3,268 | 2,376 |
| **Balans ar ddiwedd y flwyddyn** | **7,963** | 4,695 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 168 i 178 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Nodiadau sy'n rhan o'r datganiadau ariannol
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

1. **Polisïau cyfrifyddu**

a. **Sail y paratoi**

Paratoir y datganiadau ariannol hyn ar sail busnes hyfyw ac o dan y confensiwn cost hanesyddol. Maent wedi cael eu paratoi ar ffurf a gyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyda chydsyniad Trysorlys Ei Mawrhydi yn unol ag Adran 35(3) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 a chyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi mewn cydymffurfiaeth â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u dehonglir yng nghyd-destun y sector cyhoeddus yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

IFRS 16 yw'r safon cyfrifyddu newydd sy'n nodi'r egwyddorion ar gyfer cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu prydlesi. Mae mewn grym  yn gyffredinol o 1 Ionawr 2019 ymlaen ond ar gyfer cyrff sector cyhoeddus y Deyrnas Unedig mae wedi cael ei gohirio hyd 1 Ebrill 2021.

**Effaith safonau nad ydynt mewn grym eto**

Caiff cymhwyso unrhyw safonau adrodd ariannol rhyngwladol newydd neu ddiwygiedig ei lywodraethu pan gânt eu mabwysiadu gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth.  Mae'r Cyngor yn cymhwyso newidiadau i safonau pan ddônt i rym. Nid oes unrhyw effeithiau perthnasol hysbys o newidiadau i safonau adrodd ariannol rhyngwladol a gyhoeddwyd ac nad ydynt mewn grym eto ar y datganiadau ariannol yn y cyfnod cymhwyso cyntaf.

b. **Cydnabod incwm a gwariant**

Rhoddir cyfrif am yr holl incwm ar sail croniadau. Rhoddir cyfrif am yr holl wariant ar sail croniadau ac mae wedi'i ddosbarthu o dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Lle na ellir priodoli costau'n uniongyrchol i benawdau penodol maent wedi'u dyrannu i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o'r adnoddau.

c. **Gweithgareddau cyffredinol**

Nid yw'r datganiadau ariannol hyn yn cwmpasu gweithgareddau cyffredinol y Cyngor, a gyllidir drwy gymorth grant yn bennaf, ac y paratowyd datganiadau ariannol ar wahân ar eu cyfer.

d. **Grantiau**

Rhoddir cyfrif am grantiau fel gwariant yn y Datganiad o Incwm/Gwariant Net Cynhwysfawr a, nes y cânt eu talu, fel rhwymedigaethau yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:

i. os ydynt wedi cael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor, neu o dan awdurdod dirprwyedig; ac

ii os oes hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol (gan gynnwys e-bost neu gyfathrebiad electronig arall) wedi'i gyflwyno i'r derbynwyr bwriadedig; ac

iii os yw'r cynigion heb unrhyw amodau o dan reolaeth y Cyngor

Cydnabyddir grantiau sy'n daladwy cyn pen blwyddyn ar ôl diwedd y flwyddyn yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn rhwymedigaethau cyfredol. Dangosir y rhai sy'n daladwy mwy na blwyddyn ar ôl dyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel y cyfryw.

Nid yw grantiau sydd wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor, neu o dan awdurdod dirprwyedig, nad ydynt yn bodloni diffiniad rhwymedigaethau yn cael eu cynnwys o dan wariant yn y Datganiad o Incwm/Gwariant Net Cynhwysfawr nac fel rhwymedigaethau yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ond cânt eu datgelu yn nodyn 7.

### e. Cronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol

Erys balansau a ddelir yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Serch hynny, mae'r gyfran o'r balansau hyn y gellir ei phriodoli i'r Cyngor fel y'i dangosir yn y cyfrifon ar gost amorteiddiedig ac, ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, wedi cael ei hardystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel cyfran sydd ar gael i'w dosbarthu gan y Cyngor mewn perthynas ag ymrwymiadau cyfredol ac yn y dyfodol.

### f. Pensiynau

Mae'r Cyngor yn gyflogwr sydd wedi'i dderbyn i Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Mae'r cynllun pensiwn yn darparu buddion diffiniedig i gyflogeion y Cyngor. Caiff costau cyfraniadau'r Cyngor eu codi ar y Datganiad o Incwm/Gwariant Net Cynhwysfawr fel y gellir lledaenu cost pensiynau dros oes waith y cyflogeion.

Mae'r Cynllun yn gynllun buddion diffiniedig a gyllidir a hefyd yn gynllun cyflogwyr lluosog lle na all y cyflogwyr sy'n cyfranogi nodi eu cyfrannau o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Felly rhoddwyd cyfrif am y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig, yn unol ag IAS 19. Mae'r Cyngor wedi gwneud taliadau i gyllido diffyg sy'n gysylltiedig â gwasanaeth a roddwyd. Os oes angen rhagor o daliadau tuag at y diffyg yn dilyn ailbrisiadau yn y dyfodol, bydd y Cyngor yn cydnabod darpariaeth ar gyfer gwerth presennol cyfraniadau sy'n daladwy yn unol â thelerau unrhyw gytundeb cyllido perthnasol. Caiff cyfran o'r holl gyfraniadau tuag at y diffyg ei chodi ar y Datganiad o Incwm/Gwariant Net Cynhwysfawr.

Mae gan y Cyngor hefyd gynllun cyfraniadau diffiniedig, Pensiwn y Bobl, fel dewis amgen i ddiwallu anghenion deddfwriaeth Cofrestru Awtomatig. Rhoddir cyfrif am y cynllun yn unol ag IAS 19.

### g. Trethiant

Caiff Treth Ar Werth nad oes modd ei hadennill sy'n deillio o wariant ei chodi ar y Datganiad o Incwm/Gwariant Net Cynhwysfawr neu ei chyfalafu fel ased sefydlog lle y bo'n berthnasol.

h. **Dosrannu costau rheoli a gweinyddu o'r Cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol**

Â'r Cyngor i gostau sy'n cynnal ei weithgareddau cyffredinol a'i swyddogaethau o ran dosbarthu arian y Loteri. Yn unol â'i Gyfarwyddiadau Ariannol, mae'r Cyngor yn dosrannu costau anuniongyrchol yn briodol rhwng y ddau faes gweithgarwch hyn gan gyfeirio at yr amser a dreuliwyd ar y gweithgareddau priodol neu'r adnoddau perthnasol a ddefnyddiwyd ganddynt.

Fel arfer caiff y dosraniadau eu hadolygu pob dwy flynedd a phryd bynnag y bo newid arwyddocaol i strwythur y staff neu'r rhaglenni gweithgarwch.

i. **Offerynnau ariannol**

Asedau ariannol: Nid yw symiau masnach sy'n dderbyniadwy ac asedau cyfredol eraill yn cario unrhyw log a chânt eu datgan ar eu gwerth nominal fel y'i gostyngir gan unrhyw lwfansau colled priodol. Mae arian parod a chyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw ac arian yn y banc ac arian wedi'i gadw ar adnau tymor byr ar delerau sy'n caniatáu ei gael ar unrhyw adeg.

Rhwymedigaethau ariannol: Nid yw symiau masnach sy'n dderbyniadwy ac asedau cyfredol eraill yn cario unrhyw log a chânt eu datgan ar eu gwerth nominal.

## 2. Costau sy'n cynnal ein gweithrediadau

a. **Rheoli a gweinyddu: Costau staff**

| | | | **2019/20** | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyflogwyd yn barhaol** | **Arall** | **Cyfanswm** | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyflogau a godwyd ar weithgarwch dosbarthu arian y Loteri | 771 | 37 | 808 | 750 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 76 | 3 | 79 | 80 |
| Costau pensiwn eraill[1] | 347 | 5 | 352 | 357 |
| Taliadau diswyddo | - | - | - | - |
| Costau asiantaeth | - | 1 | 1 | 4 |
| | **1,194** | **46** | **1,240** | 1,191 |

[1] Yn cynnwys cyfanswm o £188,000 o daliadau tuag at y diffyg pensiwn yn 2019/20 (2018/19: £193,000).

| b. | Rheoli a gweinyddu: Costau gweithredu eraill | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| | Costau cysylltiedig â'r staff | 87 | 62 |
| | Seilwaith | 327 | 298 |
| | Costau rhedeg swyddfa | 5 | 16 |
| | Ffioedd proffesiynol ac ymgynghori | 82 | 100 |
| | Hyrwyddo'r Loteri | 16 | 17 |
| | TAW nad oes modd ei hadennill | 81 | 73 |
| | Tâl am ddefnyddio asedau sefydlog | 27 | 12 |
| | Cydnabyddiaeth ariannol archwilydd – Archwilio[1] | 21 | 21 |
| | Archwilio mewnol | 8 | 10 |
| | Cyfarfodydd y Cyngor a phwyllgorau, gan gynnwys teithio a chynhaliaeth | 11 | 9 |
| | | **665** | 618 |

[1] Mae'r ffi archwilio am wasanaethau archwilio ac ni ddarparwyd unrhyw wasanaethau anarchwiliadol

Caiff costau rheoli a gweinyddu eu dosrannu rhwng cyfrifon gweithgareddau cyffredinol a dosbarthu arian y Loteri y Cyngor gan gyfeirio at yr amser a dreuliwyd ar y swyddogaethau priodol neu'r adnoddau perthnasol a ddefnyddiwyd ganddynt. Mae'r cyfraddau a ddefnyddir yn amrywio yn ôl y pennawd gwariant a'r rhanbarth daearyddol ond y ganran a godwyd ar weithgareddau'r Loteri, ar gyfartaledd, oedd 47% (2018/19: 46%).

| c. | Gwariant ar y celfyddydau: Costau uniongyrchol rhoi grantiau | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| | Ffioedd aseswyr | 18 | 33 |
| | Cymorth Cronfa Gwytnwch | 195 | 333 |
| | Sgyrsiau Creadigol | - | 5 |
| | *Criw Celf* | - | 2 |
| | Camau Creadigol | - | 2 |
| | Dyfarniadau Cymru Greadigol – costau'r cynllun | - | 1 |
| | Gweinyddu canolog Cronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol | 6 | - |
| | TAW nad oes modd ei hadennill | 37 | 45 |
| | | **256** | 421 |

## 3. Dyfarniadau eraill ym maes y celfyddydau

| | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Teithio ar draws ffiniau | - | 115 |
| Dyfarniadau Y Tu Hwnt i Ffiniau ar y cyd â Sefydliad Cymdeithas Hawliau Perfformio | 45 | 40 |
| Dyfarniadau Unlimited ar y cyd ag Arts Council England | - | 120 |
| | 45 | 275 |

## 4. Cronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol

| | 2019/20 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| Balans a ddaliwyd yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol ar 1 Ebrill | 14,894 | 15,619 |
| Dyraniad arian oddi wrth y Loteri | 17,761 | 16,000 |
| Incwm buddsoddi derbyniadwy | 86 | 82 |
| Tynnwyd i lawr yn ystod y flwyddyn | (14,705) | (16,807) |
| Balans a ddaliwyd yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol ar 31 Mawrth | **18,036** | 14,894 |

Mae'r balans yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol ar 31 Mawrth 2020 yn unol â'r Dystysgrif Interim a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

## 5. Symiau masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy

| | 2019/20 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| **a. Asedau anghyfredol** | | |
| Symiau eraill sy'n dderbyniadwy | **150** | 150 |
| **b. Asedau cyfredol** | | |
| Grantiau mae modd eu hadennill | - | - |

## 6. Symiau masnach sy'n daladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill – symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | 2019/20 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach a symiau eraill sy'n daladwy: | | |
| Symiau masnach sy'n daladwy | 64 | 11 |
| Yn ddyledus i gyfrif Gweithgareddau Cyffredinol Cyngor Celfyddydau Cymru: | | |
| am gostau a ddosrannwyd[1] | 200 | 146 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 34 | 60 |
| *Is-gyfanswm: Symiau masnach a symiau eraill sy'n daladwy* | 298 | 217 |
| Rhwymedigaethau eraill: | | |
| Dosbarthwyr dirprwyedig[2] | 479 | 316 |
| Grantiau (nodyn 7) | 8,104 | 9,725 |
| *Is-gyfanswm: Rhwymedigaethau eraill* | 8,583 | 10,041 |
| Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol | **8,881** | 10,258 |

[1] Mae'r swm sy'n ddyledus i gyfrif Gweithgareddau Cyffredinol Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnwys:

| | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| Ailgodi costau a ddosrannwyd | | |
| - Staff | 114 | 98 |
| - Gorbenion | 59 | 36 |
| - Tâl am ddefnyddio asedau | 27 | 12 |
| | 200 | 146 |

| | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| [2] Mae'r Cyngor wedi dirprwyo arian y Loteri (nodyn 9) i'r dosbarthwyr canlynol: Arian nas tynnwyd i lawr ar 31 Mawrth | | |
| - Ffilm Cymru Wales (ar gyfer ffilm) | 405 | 243 |
| - Llenyddiaeth Cymru (ar gyfer bwrsarïau i awduron) | 74 | 73 |
| | 479 | 316 |

## 7. Grants

| | | | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | Cyfalaf | Cynlluniau refeniw | Cyfanswm | Cyfanswm |
| Taladwy ar 1 Ebrill | 4,445 | 6,744 | 11,189 | 14,950 |
| Grantiau a roddwyd yn ystod y flwyddyn | 1,406 | 9,305 | 10,711 | 9,727 |
| Symiau nas hawliwyd | (39) | (284) | (323) | (156) |
| A godir ar y Datganiad o Incwm/Gwariant Net Cynhwysfawr | 1,367 | 9,021 | **10,388** | 9,571 |
| Grantiau a dalwyd yn ystod y flwyddyn | (1,788) | (9,219) | (11,007) | (13,332) |
| Taladwy ar 31 Mawrth[1] | 4,024 | 6,546 | **10,570** | 11,189 |
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn | 1,988 | 6,116 | 8,104 | 9,725 |
| Yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 2,036 | 430 | 2,466 | 1,464 |
| | 4,024 | 6,546 | **10,570** | 11,189 |
| [1] Nodi oed y grantiau sy'n daladwy: | | | | |
| 2019/20 | - | - | - | 9,725 |
| 2020/21 | 1,988 | 6,116 | 8,104 | 1,413 |
| 2021/22 | 1,736 | 401 | 2,137 | 51 |
| 2022/23 | 300 | 29 | 329 | - |
| | 4,024 | 6,546 | **10,570** | 11,189 |

| | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| Grantiau a gymeradwywyd ond heb eu cynnig yn ffurfiol ar 31 Mawrth nad ydynt wedi'u cydnabod yn y Datganiad o Incwm/Gwariant Net Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannoln | **109** | - |

## 8. Arian parod a chyfwerth ag arian parod

| | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Daliwyd y balansau canlynol ar 31 Mawrth mewn: | | |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | **1,124** | 1,373 |

## 9. Dosbarthwyr dirprwyedig y Loteri

Mae gan y Cyngor gytundebau dirprwyo cwbl weithredol ar waith gyda'r cyrff canlynol i ddosbarthu arian y Loteri:

| | **Ffilm Cymru Wales** ar gyfer ffilm £'000 | **Nesta** ar gyfer prosiectau ymchwil a datblygu digidol £'000 | **BBC Cymru Wales** ar gyfer *cynllun Gorwelion* £'000 | **Llenyddiaeth Cymru** ar gyfer bwrsarïau i awduron £'000 | **Tŷ Cerdd** ar gyfer cerddoriaeth gymunedol a cherddoriaeth Cymru £'000 | **2019/20 Cyfanswm** £'000 | 2018/19 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arian nas tynnwyd i lawr ar 1 Ebrill | 243 | - | - | 73 | - | 316 | 861 |
| Dirprwywyd am y flwyddyn | 1,480 | 267 | 115 | 96 | 80 | 2,038 | 1,686 |
| | 1,723 | 267 | 115 | 169 | 80 | 2,354 | 2,547 |
| Tynnwyd i lawr yn ystod y flwyddyn | (1,318) | (267) | (115) | (95) | (80) | (1,875) | (2,231) |
| Arian nas tynnwyd i lawr ar 31 Mawrth | 405 | - | - | 74 | - | 479 | 316 |
| Grantiau y cofnodwyd eu bod yn daladwy gan y dosbarthwyr dirprwyedig ar 31 Mawrth | 695 | - | - | 84 | - | 779 | 1,497 |

Ceir rhestri llawn o'r grantiau a weinyddwyd gan y dosbarthwyr dirprwyedig yn ystod 2019/20 yn yr atodiadau i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

## 10. Ased wrth gefn

### Gwerthu'r Parc Olympaidd

Mae hawl gan Ddosbarthwyr Arian y Loteri Genedlaethol i gael cyfran o'r derbyniadau o werthu tir ar Barc Olympaidd y Frenhines Elizabeth yn gyfnewid am eu cyfraniad o £675 miliwn ychwanegol i ariannu Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012. Cyhoeddwyd hyn yn 2007. Mae'r trefniadau wedi'u nodi mewn cytundeb cyfreithiol rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac Awdurdod Llundain Fwyaf dyddiedig 29 Mawrth 2012, sy'n nodi dosbarthiad yr arian rhwng yr Awdurdod a Dosbarthwyr Arian y Loteri drwy'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'n debyg y bydd y gwerthiannau tir yn digwydd dros gyfnod hirfaith, yr amcangyfrifir y bydd o 2019/20 i 2036/37. Mae'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn amcangyfrif y bydd y taliadau cyntaf i Ddosbarthwyr Arian y Loteri yn rhan gyntaf i ran ganol y 2020au.

## 11. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

### Awdurdodi'r datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi

The financial statements were authorised for issue by the Accounting Officer on the same date as the Comptroller and Auditor General certified them.

## 12. Offerynnau ariannol

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 7, Financial Instruments: Disclosures, yn ei gwneud yn ofynnol datgelu'r rôl a fu gan offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y risgiau mae swyddogaeth y Cyngor yn eu hwynebu wrth gyflawni ei rôl.

*Risgiau hylifedd* – Yn 2019/20, deilliai £17,761,000 neu 99.2% o incwm dosbarthu arian Loteri'r Cyngor o'r Loteri Genedlaethol (2018/19: £16,000,000 neu 99.2%). O'r incwm sy'n weddill, deilliai £86,000 neu 0.5% o enillion buddsoddi o'r balans a ddaliwyd gyda Chronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol (2018/19: £82,000 neu 0.5%) a £53,000 neu 0.3% o incwm buddsoddi arall ac incwm amrywiol (2018/19: £56,000 neu 0.3%). Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei swyddogaeth Dosbarthu Arian y Loteri yn agored i unrhyw risg sylweddol o ran hylifedd, ac mae'n fodlon bod y balans yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol ac arian rhagamcanol oddi wrth y Loteri yn y dyfodol yn ddigonol i gyflawni ei ymrwymiadau pendant.

*Risgiau cyfraddau llog* – Mae asedau ariannol y Loteri wedi'u buddsoddi yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol, sy'n buddsoddi mewn band cul o asedau risg isel megis arian a bondiau'r llywodraeth. Nid oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth dros fuddsoddi'r arian yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol. Cedwir yr arian parod a chyfwerth ag arian parod a dynnir i lawr o'r Gronfa i dalu ymrwymiadau grant a chostau gweithredu mewn cyfrif banc cyfradd amrywiol sy'n caniatáu cael yr arian ar unrhyw adeg. Ar gyfartaledd, 0.5% oedd y gyfradd llog yn ystod y flwyddyn (2018/19: 0.5%). Balans yr arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd

y flwyddyn oedd £1,124,000 (2019: £1,373,000). Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei swyddogaeth dosbarthu arian y Loteri yn agored i risgiau sylweddol o ran cyfraddau llog.

*Risg arian tramor* – Nid yw swyddogaeth dosbarthu arian Loteri y Cyngor yn agored i unrhyw risgiau sylweddol o ran cyfnewid arian tramor.

*Risg llif arian* – Nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw risgiau sylweddol o ran llif arian.

## 13. Trafodion â phartïon cysylltiedig

### Cyrff cyhoeddus

Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru yw'r Cyngor.

Ystyrir Senedd Cymru/Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig. a rhoddir manylion y trafodion â Senedd Cymru/Llywodraeth Cymru yn y cyfrifon ar wahân sy'n ymdrin â gweithgareddau cyffredinol y Cyngor.

Gweinyddir Cronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol gan yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a ystyrir yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn ni chafodd y Cyngor unrhyw drafodion perthnasol â'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac eithrio'r rheiny a ddangosir yn y Datganiad o Incwm/Gwariant Net Cynhwysfawr.

### Dosbarthwyr dirprwyedig y Loteri

Fel y datgelir yn nodyn 9, dosbarthwyr dirprwyedig arian Loteri'r Cyngor yw Ffilm Cymru Wales, Nesta, BBC Cymru Wales, Llenyddiaeth Cymru a Thŷ Cerdd. Yn ystod y flwyddyn ni chafodd y Cyngor unrhyw drafodion perthnasol â hwy ac eithrio'r rheiny a ddangosir yn y Datganiad o Incwm/Gwariant Net Cynhwysfawr.

### Unigolion

Ymgymerodd aelodau o'r Cyngor, o'r Pwyllgorau, o'r staff neu bartïon cysylltiedig eraill (sef perthnasau agos) â thrafodion ariannol (a restrir isod) â'r Cyngor yn ei swyddogaeth fel dosbarthwr arian y Loteri yn ystod y flwyddyn.

Lle roedd yr unigolion a/neu berthnasau agos iddynt yn aelodau o Fyrddau Rheoli (neu eu cyfateb) neu'n uwch gyflogeion mewn sefydliadau a gafodd gynnig grantiau Loteri neu daliadau Loteri eraill gan y Cyngor yn 2019/20, ym mhob achos o'r fath, yn unol â Chod Ymarfer Gorau'r Cyngor, gadawodd yr unigolyn dan sylw unrhyw gyfarfod lle cafwyd trafodaeth neu benderfyniad ynghylch cyllid.

O dan God Ymarfer Gorau'r Cyngor, bernir bod buddiant yn parhau am flwyddyn o leiaf ar ôl i'r unigolyn adael y swydd a greodd y buddiant. Adlewyrchir y polisi hwn yn y datgeliadau canlynol.

Cofnodir trafodion ariannol â'r Cyngor mewn perthynas â'i weithgareddau cyffredinol yn y cyfrifon ar wahân sy'n ymdrin â'r gweithgareddau hynny.

| Aelod<br>Rôl | Sefydliad | Trafodion 2019/20 (nifer) | Cyfanswm gwerth 2019/20 £ | Cyfanswm y balans oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2020 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Aelodau o'r Cyngor** | | | | |
| **Iwan Bala** | | | | |
| Aelod | Butetown Artists Group – Bay Art | Grant (1) | 49,110 | 40,761 |
| **Devinda De Silva** | | | | |
| Cyflogaeth | National Theatre Wales | Grant (1) | 6,064 | 3,659 |
| Aelod o'r Bwrdd | August 012 | Grant (2) | 76,900 | 19,795 |
| Aelod o'r Bwrdd | Dirty Protest | Grant (1) | 10,000 | 1,000 |
| **Andy Eagle** | | | | |
| Cyflogaeth | Chapter | Grant (3) | 275,947 | 260,645 |
| **Marian Wyn Jones** | | | | |
| Cyfarwyddwr Anweithredol | Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr | Grant (0) | Dim | 3,000 |
| Aelod o'r Bwrdd | Canolfan Gerdd William Mathias | Grant (1) | 5,000 | Dim |
| Aelod o'r Cyngor | Prifysgol Bangor | Grant (2) | 80,000 | 78,469 |
| **Gwennan Mair** | | | | |
| Cyflogaeth | Theatr Clwyd | Grant (1) | 11,486 | 133,562 |
| Aelod o'r Bwrdd Drama | Eisteddfod Genedlaethol | Grant (1) | 75,000 | 75,000 |

| Aelod<br>Rôl | Sefydliad | Trafodion 2019/20 (nifer) | Cyfanswm gwerth 2019/20 £ | Cyfanswm y balans oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2020 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Victoria Provis** | | | | |
| Aelod o'r Cyngor | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | Grant (1) | 198,100 | 108,950 |
| **Dafydd Rhys** | | | | |
| Cyflogaeth | Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth | Grant (3) | 38,280 | 31,089 |
| **Aelodau o bwyllgorau** | | | | |
| **Ruth Cayford** | | | | |
| Cyflogaeth | Cyngor Caerdydd (Neuadd Dewi Sant) | Grant (1) | 99,738 | 154,307 |
| | | Anfoneb (3) | 697 | Dim |
| **Roland Evans** | | | | |
| Cyflogaeth | Cyngor Gwynedd | Grant (0) | Dim | 34,142 |
| **Aelodau o'r Uwch Tîm Arwain** | | | | |
| **Katherine Davies** | | | | |
| Cyflogaeth | Cyngor Caerdydd (Neuadd Dewi Sant) | Grant (1) | 99,738 | 154,307 |
| (Perthynas) | | Anfoneb (3) | 697 | Dim |

| Aelod<br>Rôl | Sefydliad | Trafodion 2019/20 (nifer) | Cyfanswm gwerth 2019/20 £ | Cyfanswm y balans oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2020 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Aelodau eraill o'r staff** | | | | |
| **Rachel England**<br>Aelod | Canolfan Pobl Fyddar Caerdydd | Grant (1) | 6,570 | Dim |
| **Eluned Hâf**<br>Cyfarwyddwr (Perthynas) | Canolfan Gerdd William Mathias | Grant (1) | 5,000 | Dim |
| **Gillian Hughes**<br>Cyflogaeth (Perthynas) | Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen | Grant (3) | 85,000 | 58,902 |
| **Ian McAndrew**<br>Aelod o'r Bwrdd | Sound Progression | Grant (2) | 47,750 | 3,000 |
| **Judith Musker Turner**<br>Aelod o fand (Perthynas) | Calan | Grant (1) | 17,260 | 1,726 |

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

www.celf.cymru